Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:
2/2019
DYDDIAD CYHOEDDI:
24/01/2019

# Astudiaeth ynglŷn â Phrawf Mynediad Cyfwerthedd Cenedlaethol ar gyfer Ymgeiswyr Addysg Gychwynnol Athrawon

## Adroddiad Terfynol

© Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-78964-684-9

Astudiaeth ynglŷn â Phrawf Mynediad Cyfwerthedd Cenedlaethol ar gyfer Ymgeiswyr Addysg Gychwynnol Athrawon

Adroddiad Terfynol

Awdur(on): ICF Consulting Services Limited mewn cysylltiad ag Ymchwil Arad

Adroddiad Ymchwil Llawn: Beadle, S., Thomas, H., a Hannah, A. (2018). *Astudiaeth ynglŷn â Phrawf Mynediad Cyfwerthedd Cenedlaethol ar gyfer Ymgeiswyr Addysg Gychwynnol Athrawon*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth 2/2019
Ar gael yn https://gov.wales/statistics-and-research/study-national-equivalency-entry-test-initial-teacher-education-candidates/?lang=cy

Safbwyntiau'r ymchwilydd yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn, ac nid rhai Llywodraeth Cymru o reidrwydd

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r canlynol:
David Roberts
Is-adran Ymchwil a Gwybodaeth Gymdeithaso
Llywodraeth Cymru
Sarn Mynach
Llandudno Junction
LL31 9RZ
Rhif ffôn: 0300 062 5485
E-bost: YmchwilYsgolion@llyw.cymru

## Tabl cynnwys

Rhestr tablau .......... 2
Rhestr ffigurau .......... 3
Rhestr termau .......... 4
Crynodeb Gweithredol .......... 5
1. Cyflwyniad .......... 15
2. Ymgeiswyr AGA a phrofi cyfwerthedd .......... 26
3. Byd profi cyfwerthedd: dichonoldeb prawf cyfwerthedd cenedlaethol .......... 59
4. Arfarnu'r opsiynau .......... 97
5. Casgliadau ac argymhellion .......... 109
Atodiad A: Tablau Data (ymatebion i'r arolwg) .......... 111

**Rhestr tablau**

**Tabl 2.1** Targedau derbyn ar gyfer cyrsiau AGA yn ôl sector a'r math o gwrs ar gyfer 2016/17 ........ 27
**Tabl 2.2** Myfyrwyr newydd ar gyrsiau AGA yn ôl sector a'r math o radd 2016/17 .... 29
**Tabl 2.3** Nifer ymgeiswyr AGA 2017/18 a safodd ac a lwyddodd mewn profion cyfwerthedd........ 44
**Tabl 2.4** Gyda pha ddarparwr y safoch chi'r prawf/profion cyfwerthedd ag ef gyntaf? ........ 45
**Tabl 2.5** Gwybodaeth am brofion cyfwerthedd AGA a gynigiwyd gan ddarparwyr profion cyfwerthedd........ 46
**Tabl 2.6** Crynodeb o drefniadau profi cyfwerthedd presennol darparwyr AGA......... 53
**Tabl 2.7** Nifer yr ymgeiswyr AGA sy'n sefyll ac yn llwyddo mewn profion llythrennedd a rhifedd cyn-mynediad yn ôl darparwr (2017)........ 58
**Tabl 2.8** Canran yr ymgeiswyr AGA sy'n sefyll ac yn llwyddo mewn profion llythrennedd a rhifedd cyn-mynediad yn ôl darparwr (2017) ........ 58
**Tabl 3.1** Profion cyfwerthedd a llythrennedd/rhifedd mewn cyd-destunau eraill yn y DU........ 64
**Tabl 3.2** Profion ar y rhestr fer........ 70
**Tabl 3.3** Addasrwydd y profion ar y rhestr fer........ 80
**Tabl 4.1** Cryfderau a gwendidau ........ 97
**Tabl 4.2** Y bwlch rhwng polisi ac arferion ........ 98
**Tabl 4.3** Asesiad o'r opsiynau ........105

**Rhestr ffigurau**

Ffigur 1.1 Trosolwg o’r ymagwedd at werthuso ........................................................ 19
Ffigur 1.2 Trosolwg o dasgau ymchwil...................................................................... 20
Ffigur 1.3 Dull o arfarnu’r opsiynau .......................................................................... 25
Ffigur 2.1 Ymatebion ymgeiswyr i’r cwestiwn: ‘Pryd sylweddoloch chi fod rhaid i chi sefyll y prawf/profion cyfwerthedd?’ .............................................................. 33
Ffigur 2.2 Ymatebion ymgeiswyr i’r cwestiwn ‘Gan feddwl am eich proses ymgeisio, a oeddech chi’n ymwybodol o’r:’ ..................................................................... 34
Ffigur 2.3 Ymatebion ymgeiswyr i’r cwestiwn ‘Gan feddwl am eich darparwr AGA, i ba raddau ydych chi’n cytuno neu’n anghytuno ei fod:’..................................... 35
Ffigur 2.4 Ymatebion ymgeiswyr i’r cwestiwn ‘A gawsoch chi unrhyw un o’r mathau canlynol o gymorth i’ch helpu i baratoi ar gyfer y prawf/profion cyfwerthedd?’ ........................................................................................................ 37
Ffigur 2.5 I ba raddau yr oedd ymgeiswyr yn cytuno neu’n anghytuno â datganiadau ynglŷn â’r cymorth a gafwyd cyn y prawf....................................................... 39
Ffigur 2.6 I ba raddau yr oedd ymgeiswyr yn cytuno neu’n anghytuno bod angen gwella’r trefniadau cymorth cyn-ymgeisio ..................................................... 40
Ffigur 2.7 Barn am gynnwys y prawf/profion cyfwerthedd ........................................ 42
Ffigur 2.8 Pa brawf/brofion cyfwerthedd a safoch chi? ............................................. 45
Ffigur 2.9 Amcangyfrifon ymgeiswyr o hyd eu profion cyfwerthedd .......................... 47
Ffigur 2.10 Safbwyntiau ymgeiswyr ynglŷn â chanlyniadau’r prawf/profion cyfwerthedd.......................................................................................... 49
Ffigur 3.1 Arferion profi AGA yng ngwledydd eraill y DU ........................................... 60
Ffigur 3.2 Arferion profi AGA mewn gwledydd eraill Saesneg eu hiaith..................... 62
Ffigur 3.3 Safbwyntiau ymgeiswyr ynglŷn â threfniadau profi yn y dyfodol ............... 83
Ffigur 3.4 Buddiannau a heriau cyflwyno prawf cyfwerthedd cenedlaethol............... 89

**Rhestr termau**

| Acronym | Diffiniad |
|---|---|
| BEd | Baglor Addysg |
| CAG | Cyngor y Gweithlu Addysg |
| SAB | Sefydliad Addysg Bellach |
| TGAU | Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd |
| RhAG | Rhaglen Athrawon Graddedig |
| CCAUC | Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru |
| SAU | Sefydliad Addysg Uwch |
| AGA | Addysg Gychwynnol Athrawon |
| NMWCTET | Canolfan Gogledd a Chanolbarth Cymru ar gyfer Addysg a Hyfforddiant Athrawon |
| ANG | Athro/Athrawes Newydd Gymhwyso |
| PDRhC | Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol |
| TAR | Tystysgrif Addysg i Raddedigion |
| PISA | Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr |
| SEWCTET | Canolfan De-ddwyrain Cymru ar gyfer Addysg a Hyfforddiant Athrawon |
| SWWCTE | Canolfan De-orllewin Cymru ar gyfer Addysg Athrawon |
| UCET Cymru | Cyngor y Prifysgolion ar gyfer Addysg Athrawon yng Nghymru |
| USW | Prifysgol De Cymru |
| UWTSD | Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant |
| WEST | Pecyn Cymorth Sgiliau Hanfodol Cymru |
| CBAC | Cyd-bwyllgor Addysg Cymru |

## Crynodeb Gweithredol

### Cyflwyniad

1. Comisiynwyd ICF gydag Ymchwil Arad gan Lywodraeth Cymru i gynnal yr astudiaeth hon ynglŷn â'r defnydd o brofion mynediad cyfwerthedd gan ddarparwyr addysg gychwynnol athrawon (AGA) ym mis Ionawr 2018. Mae'r adroddiad hwn yn archwilio'r arfer o brofi llythrennedd a rhifedd ymgeiswyr i gael mynediad at gyrsiau AGA yng Nghymru, argaeledd ac addasrwydd profion i brofi sgiliau llythrennedd a rhifedd sy'n gyfwerth â Gradd B ar lefel Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd (TGAU), ac asesiad o opsiynau ar gyfer profi cyfwerthedd yn y dyfodol.

2. Mae datblygu 'gweithlu addysg o ansawdd uchel' yn ganolog i gynllun gweithredu presennol Llywodraeth Cymru ar addysg, sef 'Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl'. Mae'n hollbwysig sicrhau bod athrawon dan hyfforddiant yn meddu ar sgiliau llythrennedd a rhifedd cadarn, yn enwedig o ystyried y bydd y cwricwlwm newydd yng Nghymru yn golygu bod llythrennedd a rhifedd yn dod yn gyfrifoldebau trawsgwricwlaidd i bob athro a bod codi safonau llythrennedd a rhifedd yn parhau i fod yn flaenoriaeth addysg strategol i Lywodraeth Cymru.

3. Mae'n rhaid i ddarparwyr AGA gydbwyso goresgyn rhwystrau rhag mynediad er mwyn denu nifer uwch o ymgeiswyr o bob cefndir, ar yr un pryd â sicrhau bod safonau uchel yn cael eu cyflawni yn ystod y broses ddethol fel bod athrawon y dyfodol yn bodloni anghenion dysgwyr mewn ysgolion yng Nghymru.

*Diben yr astudiaeth*

4. Roedd Llywodraeth Cymru'n ymwybodol bod darparwyr AGA unigol yng Nghymru yn defnyddio eu profion mynediad cyfwerthedd eu hunain ar gyfer ymgeiswyr AGA nad ydynt yn bodloni'r gofyniad lleiaf o Radd B TGAU mewn Iaith Saesneg a/neu fathemateg. Yn rhan o strategaeth barhaus Llywodraeth Cymru i wella AGA, nod yr astudiaeth hon yw:

   - Amlygu ac archwilio sut mae darparwyr AGA yn asesu cymwyseddau llythrennedd a rhifedd darpar ymgeiswyr AGA pan nad oes ganddynt gymwysterau TGAU (Saesneg/Cymraeg a mathemateg) ar Radd B;
   - Cael safbwyntiau rhanddeiliaid ynglŷn â'r trefniadau presennol, dewisiadau amgen a'r potensial ar gyfer profion cyfwerthedd cenedlaethol;
   - Asesu dichonoldeb profion cyfwerthedd cenedlaethol gan ystyried yr amcanion polisi ar gyfer AGA a'u cyd-destun ehangach, arfer gorau

mewn gwledydd eraill, addasrwydd profion i asesu'r safonau sy'n angenrheidiol, ac ymarferoldebau gweithredu newid;

- Gwneud argymhellion ar ffordd ymlaen ar gyfer y polisi.

**Methodoleg**

*Offer ymchwil*

5. I gyflawni nodau'r astudiaeth, cwblhawyd y gweithgareddau ymchwil canlynol:

- Adolygiad dogfennol o ddeunydd sydd ar gael i ymgeiswyr ar-lein ac a gasglwyd oddi wrth ddarparwyr AGA;
- Cyfweliadau ffôn cwmpasu â phum aelod o staff darparwyr AGA (un o bob darparwr);
- Cyfweliadau ffôn manwl ag 20 aelod o staff darparwyr AGA yn rhychwantu'r holl ddarparwyr sy'n darparu cyrsiau AGA;
- Cyfweliadau ffôn manwl â 15 ymgeisydd sy'n gwneud profion cyfwerthedd a roddodd wybod yn yr arolwg (gweler isod) y byddent yn fodlon cael eu cyfweld;
- Cyfweliadau ffôn manwl ag wyth rhanddeiliad a chanddynt fuddiant yn y maes polisi;
- E-arolwg o ymgeiswyr a oedd wedi cwblhau profion cyfwerthedd yn ystod y tair blynedd diwethaf. Fe'i dosbarthwyd yn bennaf gan ddarparwyr AGA;
- Dadansoddi data yn ymwneud ag ymgeiswyr AGA a gafwyd gan HESA, Llywodraeth Cymru, UCAS, CCAUC a darparwyr AGA unigol yng Nghymru;
- Ymchwil ddesg yn archwilio gwybodaeth yn ymwneud â phrofion cyfwerthedd a phrofion llythrennedd a rhifedd ar wefannau canolfannau AGA yn ogystal â gwefannau'r llywodraeth ac asiantaethau o rannau eraill o'r Deyrnas Unedig (y DU), gwledydd Ewropeaidd dethol a gwledydd eraill Saesneg eu hiaith.

*Dadansoddi'r opsiynau*

6. I asesu dichonoldeb opsiynau ar gyfer polisi yn y dyfodol ar brofi ymgeiswyr AGA yn systematig, dilynwyd y broses a amlinellir isod.

| Cam 1 | Cam 2 | Cam 3 |
|---|---|---|
| Dadansoddiad o fylchau, gan ddefnyddio asesiad o gryfderau a gwendidau'r trefniadau presennol, a rhwng arferion presennol ac amcanion polisi'r profion. Yr amcanion a amlygwyd oedd cyfwerthedd â safon gradd B TGAU, tegwch, cymesuredd (â'r gost/amser ar gyfer ystyried ymgeiswyr), tryloywder a chludadwyedd. | Amlygu opsiynau, gan archwilio'r trefniadau presennol i weld a yw gwella'r profion presennol yn opsiwn i'w ystyried; asesu cyfwerthedd profion eraill a ddefnyddiwyd/sydd ar gael ar gyfer llythrennedd a rhifedd (a allai gael eu defnyddio gan un darparwr AGA yng Nghymru neu gan weinyddiaethau eraill) i weld a allai unrhyw rai fod yn brofion safonol/cenedlaethol posibl; ystyried datblygu profion wedi'u teilwra gan ddefnyddio profiadau o fannau eraill. | Asesu opsiynau yn ôl cyfres o feini prawf cost/budd. Defnyddiwyd dau faen prawf eang: a) i ba raddau y bydd yr opsiwn yn mynd i'r afael â bylchau posibl a b) dichonoldeb yr opsiwn o ran costau gweithredu, y capasiti a'r arbenigedd sydd ar gael i'w roi ar waith a'r amser a gymerir i weithredu'r opsiwn. |

**Beth oedd yr astudiaeth wedi'i ganfod am ymgeiswyr AGA a phrofion cyfwerthedd?**

***Gofynion mynediad***

7. Mae'r holl ddarparwyr (heblaw am Brifysgol Metropolitan Caerdydd, sy'n derbyn Gradd D ar gyfer rhai ymgeiswyr uwchradd) yn mynnu bod gan ymgeiswyr Radd C TGAU mewn Saesneg a/neu Gymraeg a mathemateg i gael eu hystyried ar gyfer mynediad. Mae darparwyr a rhanddeiliaid yn gyfarwydd â'r gofynion mynediad ar gyfer AGA yng Nghymru, ond nid ydynt bob amser yn eglur i ymgeiswyr. Nid yw pob ymgeisydd yn gwybod am y gofyniad Gradd B, cymwysterau yr ystyrir eu bod yn gyfwerth a'r gwahanol opsiynau ar gyfer sefyll prawf cyfwerthedd tan iddynt gael cynnig amodol gan eu darparwr.

8. Mae darparwyr, rhanddeiliaid ac ymgeiswyr yn credu bod y gofyniad Gradd B yn rhwystr rhag recriwtio ac yn cyfrannu at y gostyngiad yn nifer yr ymgeiswyr AGA, er bod y dystiolaeth ar gyfer hyn yn anecdotaidd. Nid yw darparwyr yn cofnodi nifer yr ymgeiswyr sydd heb Radd B mewn Saesneg a mathemateg fel mater o drefn, er bod rhai darparwyr yn cofnodi'r wybodaeth hon.

### *Trefniadau profion cyfwerthedd*

9. Safodd cyfanswm o 214 o ymgeiswyr brofion cyfwerthedd Saesneg i gael mynediad yn 2017/18, a safodd 286 brofion cyfwerthedd mathemateg. Mae'r holl ddarparwyr, heblaw am Teach First Cymru (sy'n cyfeirio ymgeiswyr at y darparwyr eraill), wedi datblygu neu gomisiynu eu profion cyfwerthedd Saesneg a mathemateg eu hunain. Defnyddiodd dau ddarparwr (Prifysgol Bangor a Phrifysgol Metropolitan Caerdydd) ddarparwyr sector preifat cyn datblygu eu profion eu hunain.

10. Mae'r holl ddarparwyr sydd wedi datblygu eu profion eu hunain wedi defnyddio staff a chanddynt brofiad blaenorol o addysgu neu farcio papurau TGAU i wneud hynny. Mae darparwyr yn dweud eu bod wedi defnyddio hen bapurau Saesneg a mathemateg TGAU lefel ganolradd wrth lunio eu profion cyfwerthedd. Ymgynghorodd rai â staff byrddau arholi.

11. Mae'r trefniadau ar gyfer gweithredu profion cyfwerthedd yn amrywio ar draws darparwyr o ran llunio a dewis profion, cymorth cyn profion, hyd, amseriad, costau a pholisïau ailsefyll. Ceir amrywiadau sylweddol hefyd o ran y cymorth cyn profion a gynigir i ymgeiswyr sy'n sefyll profion cyfwerthedd. Mae'r cymorth yn cynnwys dilyn cwrs 12 wythnos (USW), mynychu gweithdy deuddydd (UWTSD), mynychu sesiwn baratoi fyrrach (tua hanner diwrnod) (Bangor ac Aberystwyth) a chael arweiniad ysgrifenedig (Met Caerdydd).

12. Mae darparwyr yn cynnig sawl dyddiad yn ystod y flwyddyn i ymgeiswyr sefyll neu ailsefyll eu profion, ond mae'r dyddiadau profi'n amrywio rhwng darparwyr. Mae hyd y profion cyfwerthedd a ddefnyddiwyd yn amrywio o 90 munud i 2 awr. Mae costau sefyll (ac ailsefyll) profion cyfwerthedd yn amrywio'n sylweddol i ymgeiswyr, o fod yn rhad ac am ddim (Metropolitan Caerdydd ac UWTSD) i £275 (ar gyfer y cwrs a'r prawf yn USW). Roedd gan ymgeiswyr safbwyntiau cymysg ynglŷn â'r trefniadau profi a'u profiadau.

13. Mae'r cyfraddau llwyddo'n amrywio; adroddodd sawl darparwr mai dim ond ambell ymgeisydd, os o gwbl, oedd yn methu. Mae polisïau ailsefyll yn amrywio ar draws darparwyr o ganiatáu un cyfle i ailsefyll (Aberystwyth, USW, UWTSD) i dri (Bangor a Phrifysgol Metropolitan Caerdydd). Mae'r holl ddarparwyr yn adrodd eu bod yn derbyn canlyniadau profion cyfwerthedd o fannau eraill, gan gynnwys darparwyr preifat a chanolfannau AGA eraill. Mae ymgeiswyr yn adrodd eu bod wedi dewis prawf pa ddarparwr AGA i'w sefyll.

### *Profion eraill cyn mynediad*

14. Mae'n amlwg bod darparwyr wedi datblygu ymagwedd gyson, at ei gilydd, ar gyfer profi sgiliau llythrennedd a rhifedd yr holl ymgeiswyr AGA, er bod y rhain yn cael eu gweinyddu gan bob darparwr AGA ar wahân, gan gynnwys y dewis

o brawf.  Mae canlyniadau tri darparwr yn fwy cyson na chanlyniadau'r profion cyfwerthedd.  Fodd bynnag, mae gan ddarparwyr AGA ac ymgeiswyr safbwyntiau cymysg ynglŷn â gwerth y profion hyn.

**Beth oedd yr astudiaeth wedi'i ganfod am ddichonoldeb prawf cyfwerthedd cenedlaethol?**

***Arferion profi cyfwerthedd mewn mannau eraill***

15. Nid yw unrhyw wledydd eraill Saesneg eu hiaith yn cynnal profion cyfwerthedd cenedlaethol ar gyfer ymgeiswyr AGA nad ydynt yn cyrraedd y safon Saesneg a mathemateg ofynnol.  Mae rhai darparwyr AGA unigol mewn rhannau eraill o'r DU wedi datblygu profion cyfwerthedd mewnol, ond nid yw'r rhain wedi'u bwriadu i asesu cymhwysedd ymgeiswyr ar lefel Gradd B TGAU ac fe'u defnyddir yn llai eang na phrofion cyfwerthedd yng Nghymru.  Mae darparwyr AGA yn aml yn cyfeirio ymgeiswyr at ddau sefydliad profi cyfwerthedd preifat blaenllaw yn y DU a ddefnyddir gan ymgeiswyr nad ydynt yn bodloni'r gofynion mynediad lleiaf o ran llythrennedd a rhifedd.

16. Hefyd, nid yw profion cyn mynediad cenedlaethol ar gyfer sgiliau llythrennedd a rhifedd proffesiynol *pob* ymgeisydd AGA yn cael eu cynnal fel mater o drefn mewn gwledydd Saesneg eu hiaith.  Mae 'profion sgiliau proffesiynol' Lloegr yn eithriad i hyn.  Mae modelau amgen sy'n cael eu defnyddio'n rhyngwladol ar hyn o bryd yn cynnwys sefyll profion cenedlaethol cyn graddio, pennu gofyniad cenedlaethol i asesu llythrennedd a rhifedd wrth gael mynediad ond rhoi rhywfaint o annibyniaeth i ddarparwyr, a defnyddio fersiynau wedi'u teilwra o brawf masnachol.

17. Nid oes unrhyw brofion cyfwerthedd neu lythrennedd/rhifedd amgen sy'n uniongyrchol addas yn cael eu defnyddio mewn cyd-destunau proffesiynol eraill i gael mynediad at hyfforddiant neu i gael trwydded i ymarfer a chofrestru yn y DU.

***Safbwyntiau ar y trefniadau a'r profion sydd ar gael yng Nghymru ar hyn o bryd***

18. O ran cryfderau'r trefniadau presennol, mae staff darparwyr yn credu, i raddau helaeth, bod profion mewnol yn canolbwyntio mwy ar ymgeiswyr ac yn lleihau rhwystrau posibl i ymgeiswyr, yn enwedig pan fydd y darparwr yn talu am gost y prawf.  Roedd profiadau ymgeiswyr o weinyddu profion yn gadarnhaol yn bennaf.

19. O ran meysydd i'w gwella, mae llawer o ymgeiswyr yn credu bod cymorth cysylltiedig gan ddarparwyr i baratoi ar gyfer y profion yn bwysig ac y dylai gael ei safoni, ond mae natur a graddau'r cymorth sydd ar gael ar hyn o bryd yn amrywio rhwng canolfannau.

20. Yn ogystal, mae darparwyr yn cydnabod yr angen am gysondeb rhwng canolfannau AGA. Mae rhanddeiliaid yn tueddu i fynegi pryderon am gysondeb a thegwch i ymgeiswyr. Yn aml, nid oedd ymgeiswyr yn sicr a oedd y profion cyfwerthedd mewnol yr oeddent wedi'u sefyll yn wirioneddol debyg i safon Gradd B TGAU neu'n ymdrin â'r cwricwlwm i'r un graddau. Mae rhai staff darparwyr yn cydnabod nad oes gan eu canolfan broses safoni neu sicrhau ansawdd ffurfiol.

21. Mae asesiad o brofion presennol yn dangos nad yw'r un ohonynt yn addas i ddibenion profion cyfwerthedd cenedlaethol ar eu ffurf bresennol. Mae profion cyfwerthedd mewnol darparwyr yn cynnwys sawl gwendid, gan gynnwys hyd byr, cyfraddau llwyddo uchel a diffyg safoni cadarn. Mae offer asesu llythrennedd a rhifedd eraill yng Nghymru yn gwasanaethu dibenion gwahanol iawn ac ni fyddai modd eu haddasu o reidrwydd.

***Safbwyntiau ar gyflwyno Prawf Cyfwerthedd Cenedlaethol***

22. Mae bron pob aelod o staff darparwyr AGA o blaid cyflwyno rhyw fath o brawf cyfwerthedd cenedlaethol. Mae rhanddeiliaid hefyd yn cydnabod yr angen am gysondeb, ond pwysleisiodd ambell un gymesuroldeb o ran cyd-destun yr heriau sy'n gysylltiedig â recriwtio athrawon. Byddai ymgeiswyr a oedd wedi sefyll sawl prawf cyfwerthedd gan ddarparwyr gwahanol yn croesawu prawf cenedlaethol oherwydd buasai wedi bod yn fwy cyfleus.

23. Gallai buddion cyflwyno prawf cyfwerthedd cenedlaethol gynnwys: mwy o degwch a chysondeb ar draws darparwyr, cydnabyddiaeth a chyfredoldeb cryfach yn y proffesiwn, llwyth gwaith ysgafnach i staff darparwyr AGA a mwy o dryloywder, eglurder a chyfleustra i ymgeiswyr.

24. Gallai'r rhwystrau a'r heriau mewn perthynas â chyflwyno prawf cenedlaethol gynnwys: cost datblygu a gweinyddu prawf yn ogystal â chostau i ymgeiswyr, diffyg hyblygrwydd o ran trefniadau gweinyddu, dod i gytundeb ar y cymwyseddau i'w hasesu a chyfraddau llwyddo is.

25. Mynegwyd safbwyntiau cymysg ynglŷn â'r dull darparu. Gallai profion ar-lein leihau rhywfaint o'r weinyddiaeth a gwneud y broses marcio'n gyflymach ac yn fwy dibynadwy. Fodd bynnag, gallai profion papur fod yn fwy priodol i asesu sgiliau ysgrifennu ymgeiswyr ac annog meddwl yn ddyfnach a datrys problemau mathemategol mwy cymhleth.

26. Mynegwyd safbwyntiau cymysg hefyd ynglŷn â’r cymwyseddau y dylid eu hasesu. Roedd rhai rhanddeiliaid yn credu y dylai’r prawf gael ei fodelu ar faes llafur CBAC. Mae’r canfyddiadau o gyfweliadau â staff AGA yn awgrymu mai’r prif feysydd gwan ymhlith hyfforddeion presennol yw sgiliau ysgrifennu, gramadeg, sillafu ac atalnodi Saesneg; a gwybodaeth sylfaenol am ffracsiynau a chanrannau mewn mathemateg.

**Arfarnu’r opsiynau**

*Cryfderau a gwendidau’r arferion presennol*

| Thema | Cryfderau | Gwendidau |
|---|---|---|
| **Datblygu a dewis profion** | Mae’r holl ddarparwyr wedi defnyddio ymarferwyr a chanddynt brofiad o addysgu a marcio papurau mathemateg a Saesneg TGAU i ddatblygu cwestiynau ar gyfer papurau profion cyfwerthedd.<br>Mae’r holl ddarparwyr wedi defnyddio papurau TGAU i ddatblygu’r cwestiynau ar gyfer eu profion mewnol eu hunain.<br>Mae rhai darparwyr wedi cydweithredu (yn ffurfiol neu’n anffurfiol) â chyrff dyfarnu neu fyrddau arholi (e.e. Agored Cymru neu CBAC) ac wedi defnyddio eu harbenigedd wrth ddatblygu profion. | Nid oes proses sicrhau ansawdd annibynnol ffurfiol ar waith i archwilio p’un a yw cwestiynau a marciau llwyddo profion cyfwerthedd ar y lefel briodol ar gyfer asesu cyfwerthedd â Gradd B TGAU.<br>Mae’n cymryd amser i diwtoriaid cyrsiau AGA ddatblygu profion. Mae costau’n gysylltiedig i ddarparwyr sydd wedi cyflogi contractwyr allanol i ddatblygu profion.<br>Nid yw rhai darparwyr wedi defnyddio cyngor allanol wrth ddatblygu profion. |
| **Gweinyddu profion** | Mae pob darparwr yn cylchdroi fersiynau o bapurau prawf neu mae ganddynt gronfa o brofion. Mae darparwyr yn cydnabod yr angen i adolygu ac ailwampio’r papurau a’r cwestiynau yn rheolaidd.<br>Yn gyffredinol, mae darparwyr yn cynnig ystod o ddyddiadau i ymgeiswyr sefyll profion, gan ganiatáu hyblygrwydd i sefyll (neu ailsefyll) y prawf ar wahanol adegau hyd at ddechrau cyrsiau AGA ym mis Medi. | Nid yw staff darparwyr o reidrwydd yn ailwampio papurau prawf yn rheolaidd, nac yn treulio amser yn datblygu cwestiynau newydd.<br>Mae’n cymryd amser i ddarparwyr weinyddu’r profion. Ceir ansicrwydd ynghylch faint o ymgeiswyr â chynigion amodol a fydd yn cofrestru ar y cwrs/dyddiadau prawf, felly mae’n anodd i ddarparwyr gynllunio.<br>Nid yw ymgeiswyr bob amser yn ymwybodol o’r gofyniad am Radd B a’r dewis i sefyll prawf cyfwerthedd yn ogystal â’r gwahanol brofion sydd ar gael.<br>Nid yw rhai ymgeiswyr yn credu bod y profion yn wirioneddol gyfwerth â Gradd B TGAU. |

| Thema | Cryfderau | Gwendidau |
|---|---|---|
| **Cymorth ar gyfer y profion** | Mae'r holl ddarparwyr yn cynnig rhyw fath o gymorth i ymgeiswyr i baratoi ar gyfer y prawf. Mae rhai darparwyr yn cynnig cyrsiau hwy i baratoi ar gyfer y profion.<br>Mae rhai ymgeiswyr yn dweud bod paratoi ar gyfer y prawf yn brofiad gloywi defnyddiol a oedd wedi gwella eu sgiliau llythrennedd a rhifedd cyn eu cwrs. | Anghysondeb o ran y cymorth sydd ar gael i ymgeiswyr. Nid yw rhai ymgeiswyr yn ymwybodol o'r cymorth sydd ar gael gan ddarparwyr.<br>Mae rhai ymgeiswyr yn credu bod y cyrsiau wedi'u cynllunio i 'addysgu'r prawf' ac felly nad ydynt yn adlewyrchu safon Gradd B TGAU. |
| **Sefyll a llwyddo yn y profion** | Mae'r rhan fwyaf o ymgeiswyr yn dweud bod y profion wedi cael eu cynnal yn ddidrafferth a bod y canlyniadau wedi cael eu darparu'n brydlon. | Mae rhai ymgeiswyr yn dweud nad yw'r profion bob amser yn cael eu gweinyddu o dan amodau arholiad ffurfiol. |

*Bylchau rhwng arferion a pholisi presennol*

27. Dyma'r prif fylchau mewn arferion presennol:

- Diffyg **tegwch** canfyddedig o ganlyniad i anghysondebau mewn arferion presennol a diffyg prawf cyfwerthedd Cymraeg;
- **Hygrededd** – p'un a yw profion cyfwerthedd yn mynd i'r afael â'r gofyniad am Radd B mewn gwirionedd;
- **Cymesuredd** o ran yr amser a dreulir gan ymarferwyr AGA ar arferion presennol;
- Diffyg **gweledydd a thryloywder** o ran y gofyniad mynediad Gradd B, y dewis i sefyll prawf a'r cymorth sydd ar gael cyn y prawf;
- Diffyg eglurder o ran **cludadwyedd** profion rhwng darparwyr.

*Yr opsiynau a ystyriwyd*

28. **Opsiwn 1 – Cynnal y sefyllfa bresennol:** Byddai'r opsiwn hwn yn golygu cynnal yr arferion presennol lle mae darparwyr yn parhau i ddewis a gweinyddu profion cyfwerthedd yn y ffordd maen nhw'n credu sy'n fwyaf priodol i fodloni gofynion Llywodraeth Cymru ar gyfer mynediad i gyrsiau AGA.

29. **Opsiwn 2 – Rhoi mwy o arweiniad i ddarparwyr:** Byddai'r opsiwn hwn yn gofyn i Lywodraeth Cymru wella'r arferion presennol trwy ddatblygu arweiniad i ddarparwyr sy'n amlinellu sut y dylent asesu p'un a yw ymgeiswyr wedi cyflawni safon cyfwerth â Gradd B yn yr arholiad TGAU Saesneg a/neu Gymraeg a mathemateg. Dylai'r arweiniad amlinellu'r hyn yr ystyrir ei fod yn arfer da mewn perthynas â'r canlynol:

- Dewis, datblygu a gweinyddu profion;
- Sicrhau ansawdd;
- Amseru;
- Cymorth i fyfyrwyr;
- Cyfathrebu.

30. **Opsiwn 3 – Mynnu bod darparwyr yn defnyddio gweithdrefnau profi cyffredin, neu eu hannog i wneud hynny:** O dan yr opsiwn hwn, byddai Llywodraeth Cymru naill ai'n annog darparwyr AGA neu'n mynnu (trwy gomisiynu darpariaeth AGA) eu bod yn datblygu un prawf ar gyfer Saesneg/Cymraeg a mathemateg, yn ogystal â gweithdrefnau cyffredin ar gyfer gweinyddu profion. Ni fyddai angen deddfwriaeth ar gyfer hyn. Byddai'r arweiniad yn Opsiwn 2 yn cael ei ddefnyddio i lywio'r broses o ddatblygu gweithdrefnau cyffredin. O ganlyniad, byddai'n ofynnol i ddarparwyr gytuno ar broses sicrhau ansawdd annibynnol ar gyfer dilysu cwestiynau a chymedroli papurau (e.e. cynnwys bwrdd arholi).

31. **Opsiwn 4 – Cyflwyno prawf cyfwerthedd cenedlaethol:** Byddai'r opsiwn hwn yn golygu bod Llywodraeth Cymru'n arwain y broses o ddatblygu a gweinyddu prawf cyfwerthedd cenedlaethol a fyddai'n orfodol i bob ymgeisydd AGA heb Radd B TGAU neu gymhwyster cyfwerth. Byddai gan brawf cenedlaethol broses sicrhau ansawdd genedlaethol a oruchwylir gan Lywodraeth Cymru.

*Arfarnu*

32. Mae'r asesiad o'r opsiynau yn dangos:

- Na fyddai Opsiwn 1 yn mynd i'r afael â'r bylchau polisi;
- Gallai Opsiwn 2 fynd i'r afael â rhai o'r bylchau polisi am gost gymharol isel. Gellid ei ddarparu yn y tymor byr i wella hygrededd y profion cyfwerthedd;
- Gallai Opsiynau 3 a 4 fynd i'r afael â'r bylchau polisi, ond byddai hyn yn cymryd mwy o amser a byddai'r costau'n uwch. O dan Opsiwn 3, byddai llai o gostau i Lywodraeth Cymru gan y byddai'r costau a'r cyfrifoldebau'n cael eu hysgwyddo gan ddarparwyr AGA. Gallai Opsiwn 3 arwain at rai o'r problemau a amlygwyd o ran y profion cyn mynediad a ddatblygwyd gan ddarparwyr AGA ar y cyd, a byddai'n cael ei ddatblygu ar gyflymder a bennir gan y darparwyr AGA;
- O dan Opsiwn 4, Llywodraeth Cymru fyddai'n ysgwyddo'r costau datblygu a gweinyddu i raddau helaeth, ond gallai'r llywodraeth deimlo'n fwy sicr bod y gofyniad Gradd B yn cael ei fodloni'n gyson ac nad oes gwahaniaethau o ran gweinyddu'r prawf;

- Gallai Opsiwn 4 alluogi darparwyr i ganolbwyntio ar gynnig cyrsiau a fyddai'n gwella ymgeiswyr er mwyn iddynt gyrraedd y safon.

**Argymhellion**

33. Yn seiliedig ar ganfyddiadau'r asesiad hwn, argymhellir:

- Yn y tymor byr i ganolig (mynediad yn 2019/20), dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu arweiniad i ddarparwyr ynglŷn ag arfer da a argymhellir wrth weinyddu profion cyfwerthedd (Opsiwn 2 uchod) i wella ansawdd profion cyfwerthedd. Dylai hyn ymdrin â:
  - marchnata argaeledd profion cyfwerthedd a chymorth;
  - datblygu a dewis profion;
  - cymorth ac arweiniad cyn profion;
  - gweinyddu profion.

- Yn y tymor hwy (mynediad yn 2020/21), dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno prawf cyfwerthedd cenedlaethol (Opsiwn 4 uchod).
  - O dan yr opsiwn hwn, byddai Llywodraeth Cymru'n arwain y broses o ddatblygu a gweinyddu prawf cyfwerthedd cenedlaethol a fyddai'n orfodol i bob ymgeisydd AGA heb Radd B TGAU neu gymhwyster cyfwerth. Byddai gan brawf cenedlaethol broses sicrhau ansawdd genedlaethol.
  - Dylai ymgyrch farchnata genedlaethol gyd-fynd â hyn i gynyddu ymwybyddiaeth o'r gofyniad Gradd B a'r opsiwn i sefyll y prawf cyfwerthedd cenedlaethol a dilyn cwrs cyn y prawf. Gallai hyn osgoi'r angen am brofi sgiliau llythrennedd a rhifedd ymgeiswyr ymhellach gan ddarparwyr AGA.

## 1. Cyflwyniad

1.1 Comisiynwyd ICF gydag Ymchwil Arad gan Lywodraeth Cymru i gynnal yr astudiaeth hon ynglŷn â'r defnydd o brofion mynediad cyfwerthedd gan ddarparwyr addysg gychwynnol athrawon (AGA) ym mis Ionawr 2018. Mae'r adroddiad hwn yn archwilio'r arfer o brofi llythrennedd a rhifedd ymgeiswyr i gael mynediad at gyrsiau AGA yng Nghymru, argaeledd ac addasrwydd profion i brofi sgiliau llythrennedd a rhifedd sy'n gyfwerth â Gradd B ar lefel Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd (TGAU), ac asesiad o opsiynau ar gyfer profi cyfwerthedd yn y dyfodol.

### Cefndir

*Yr angen am safonau llythrennedd a rhifedd uchel yn y gweithlu addysgu*

1.2 Ers 2011, bu rhai gwelliannau mewn llythrennedd (Saesneg a Chymraeg) a rhifedd (mathemateg) oherwydd cyflawnodd cyfran uwch o ddisgyblion y lefelau cyrhaeddiad disgwyliedig, gwelwyd llai o fylchau mewn cyrhaeddiad rhwng disgyblion mewn sefyllfa fanteisiol/anfanteisiol, a bu tuedd gyffredinol am i fyny mewn graddau Saesneg a Mathemateg TGAU. Fodd bynnag, mae canlyniadau diweddaraf y Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr (PISA) yn dangos bod safonau llythrennedd a rhifedd disgyblion yng Nghymru yn parhau i fod yn is na disgyblion yng ngwledydd eraill y DU[1] a bod graddau llwyddo da TGAU wedi gostwng yn 2016/17[2].

1.3 Er bod ymagweddau addysgol da tuag at addysgu llythrennedd a rhifedd yn cael eu sefydlu[3], ystyrir mai ansawdd addysgu yn gyffredinol yw un o agweddau gwannaf y ddarpariaeth yn y rhan fwyaf o sectorau yn ôl Estyn, wrth i nifer yr ysgolion uwchradd y mae angen eu monitro gynyddu o 35% i 48% yn 2015-16[4].

[1] OECD, 2016. *Y Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr (PISA): Canlyniadau o PISA 2015 – Y Deyrnas Unedig.*
[2] Llywodraeth Cymru; Cyrhaeddiad disgyblion ym mlwyddyn 11 / 15 oed mewn arholiadau yn ôl blwyddyn
[3] Llywodraeth Cymru, 2017. *Gwerthusiad o'r Rhaglenni Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol: Adroddiad Terfynol.*
[4] Estyn, 2017. *Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru 2015-16.*

1.4 I fynd i'r afael â'r heriau hyn, mae'n hollbwysig sicrhau bod athrawon dan hyfforddiant yn meddu ar sgiliau llythrennedd a rhifedd cadarn, yn enwedig o ystyried y bydd y cwricwlwm newydd yng Nghymru yn golygu bod llythrennedd a rhifedd yn dod yn gyfrifoldebau trawsgwricwlaidd i bob athro[5] a bod codi safonau llythrennedd a rhifedd yn parhau i fod yn flaenoriaeth addysg strategol i Lywodraeth Cymru[6].

1.5 Roedd y gyfradd derbyn athrawon uwchradd dan hyfforddiant draean yn is na'r targed yn 2015/16 – bwlch ehangach nag a welwyd yn gyffredinol yn ystod y degawd diwethaf – ac roedd y gyfradd derbyn ar gyfer athrawon cynradd dan hyfforddiant ychydig yn is na'r targed hefyd[7]. Felly, mae'n rhaid i ddarparwyr AGA gydbwyso goresgyn rhwystrau rhag mynediad er mwyn denu nifer uwch o ymgeiswyr o bob cefndir, ar yr un pryd â sicrhau bod safonau uchel yn cael eu cyflawni yn ystod y broses ddethol fel bod athrawon y dyfodol yn bodloni anghenion dysgwyr mewn ysgolion yng Nghymru.

*Yr ymateb polisi*

1.6 Mae datblygu 'gweithlu addysg o ansawdd uchel' yn ganolog i gynllun gweithredu presennol Llywodraeth Cymru ar addysg, sef 'Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl'[8]. Amlygodd Adolygiad Tabberer o Hyfforddiant Gychwynnol Athrawon (2013)[9] ystod o bryderon allweddol ynghylch AGA yng Nghymru, ac ychwanegodd Addysgu Athrawon Yfory gan Furlong (2015)[10] at yr adolygiad hwn i ddarparu cyfres eglur o opsiynau ar gyfer diwygio.

---

[5] Llywodraeth Cymru, 2015. *Cymwys am Oes: Cwricwlwm i Gymru – Cwricwlwm am oes.*
[6] Llywodraeth Cymru, 2016. *Rhaglen Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol – Cynllun gweithredu strategol.*
[7] Llywodraeth Cymru, 2017. *Addysg Gychwynnol Athrawon yng Nghymru, 2015/16.*
[8] Llywodraeth Cymru, 2017. *Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl – Cynllun gweithredu 2017-21.*
[9] Tabberer, R., 2013. *Adolygiad o Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon yng Nghymru.*
[10] Furlong, J., 2015. *Addysgu Athrawon Yfory: Opsiynau ar gyfer dyfodol addysg gychwynnol athrawon yng Nghymru.*

1.7 Gan ychwanegu at ganfyddiadau ac argymhellion yr adroddiadau hyn, mae diwygiadau diweddar i AGA yn cynnwys:

- **Meini prawf newydd ar gyfer achredu rhaglenni AGA** i wella ansawdd a chysondeb[11], a goruchwylio achrediad gan fwrdd newydd Cyngor y Gweithlu Addysg[12]. O ran profion mynediad, mae'n rhaid i ymgeiswyr gymryd rhan mewn "profion gallu" a rhaid i ddarparwyr "fodloni eu hunain" bod gan ymgeiswyr sgiliau llythrennedd a rhifedd priodol[13].
- **Gofynion mynediad uwch ar gyfer darpar athrawon dan hyfforddiant ers 2014** gan gynnwys safon sy'n gyfwerth â Gradd B mewn arholiadau TGAU Saesneg a/neu Gymraeg a mathemateg. Mae'r rhain yn uwch nag yn Lloegr (Gradd C). Mae darparwyr AGA wedi cytuno ar arweiniad ynglŷn â pha gymwysterau cyfwerth sy'n dderbyniol.
- **Safonau proffesiynol newydd ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth** sy'n amlinellu disgwyliadau trylwyr ar gyfer ANGau ac sy'n rhoi pwysigrwydd canolog i gymwyseddau llythrennedd a rhifedd[14].

### Diben yr astudiaeth

1.8 Roedd Llywodraeth Cymru'n ymwybodol bod darparwyr AGA unigol yng Nghymru yn defnyddio eu profion mynediad cyfwerthedd eu hunain ar gyfer ymgeiswyr AGA nad ydynt yn bodloni'r gofyniad lleiaf o Radd B TGAU mewn Iaith Saesneg a/neu fathemateg. Yn rhan o strategaeth barhaus Llywodraeth Cymru i wella AGA, nod yr astudiaeth hon yw:

- Amlygu ac archwilio sut mae darparwyr AGA yn asesu cymwyseddau llythrennedd a rhifedd darpar ymgeiswyr AGA pan nad oes ganddynt gymwysterau TGAU (Saesneg/Cymraeg a mathemateg) ar Radd B;[15]

---

[11] Llywodraeth Cymru, 2017. *Meini prawf ar gyfer achredu rhaglenni addysg gychwynnol athrawon yng Nghymru*.

[12] Williams, K., Mawrth 2017. *Datganiad Ysgrifenedig – Datblygu ein huchelgais ar gyfer addysg gychwynnol athrawon (AGA)*.

[13] Llywodraeth Cymru, 2017. *Meini prawf ar gyfer achredu rhaglenni addysg gychwynnol athrawon yng Nghymru*. Defnyddir profion gallu yn Lloegr hefyd: Get into Teaching

[14] Llywodraeth Cymru, 2017. *Safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth*.

[15] *Mae Gofynion ar gyfer cyrsiau hyfforddi addysg gychwynnol athrawon mewn sefydliadau addysg uwch yng Nghymru* (Llywodraeth Cymru, 2013) yn cynnwys gofyniad i ddarparwyr sicrhau bod pob hyfforddai wedi cyflawni safon sy'n gyfwerth â gradd B TGAU mewn TGAU Saesneg a mathemateg yn unig o 2014/15 ymlaen. Mae'r gofynion newydd yn *Meini prawf ar gyfer achredu rhaglenni addysg gychwynnol athrawon yng Nghymru* (Llywodraeth Cymru, 2018) yn cynnwys cyfeiriad at ofyniad am radd B TGAU mewn Saesneg a/neu Gymraeg a mathemateg.

- Cael safbwyntiau rhanddeiliaid ynglŷn â'r trefniadau presennol, dewisiadau amgen a'r potensial ar gyfer profion cyfwerthedd cenedlaethol;
- Asesu dichonoldeb profion cyfwerthedd cenedlaethol gan ystyried yr amcanion polisi ar gyfer AGA a'u cyd-destun ehangach, arfer gorau mewn gwledydd eraill, addasrwydd profion i asesu'r safonau sy'n angenrheidiol, ac ymarferoldebau gweithredu newid;
- Gwneud argymhellion ar ffordd ymlaen ar gyfer y polisi.

1.9 I gyflawni'r nodau hyn, mae'r astudiaeth yn amlygu profion cyfwerthedd a ddefnyddir gan ddarparwyr AGA yng Nghymru a sut maen nhw'n cael eu gweinyddu. Mae'r astudiaeth hefyd yn amlygu'r profion llythrennedd/rhifedd a ddefnyddir mewn gwledydd eraill ar gyfer ymgeiswyr AGA neu grwpiau tebyg. O hyn, gellir amlygu opsiynau ar gyfer arfarnu eu defnydd posibl yng Nghymru ac asesu'r rhain yn systematig i wneud argymhellion wedi'u seilio ar dystiolaeth.

1.10 Nodwyd y cwestiynau canlynol yn benodol yn y gwahoddiad i gyflwyno tendr ac mewn trafodaethau dilynol:

- Pa brofion cyfwerthedd a ddefnyddir gan ddarparwyr AGA yng Nghymru ac ar gyfer pa ymgeiswyr a llwybrau i addysgu; sut mae ansawdd y profion yn cael ei sicrhau gan ddarparwyr a sut maen nhw'n cael eu cymedroli rhwng darparwyr?
- Pa brofion llythrennedd a rhifedd eraill a ddefnyddir gyda'r holl ymgeiswyr AGA a beth yw eu diben?
- Beth yw safbwyntiau rhanddeiliaid ynglŷn â'r trefniadau presennol ar gyfer profi ac unrhyw feysydd i'w gwella; beth yw manteision ac anfanteision profion cyfwerthedd cenedlaethol (Cymraeg, Saesneg, mathemateg), problemau ac ymarferoldebau cyflwyno profion newydd a'r cymwyseddau i'w hasesu, yn eu barn nhw?
- Pa ddulliau profi cyfwerthedd sydd wedi cael eu defnyddio mewn mannau eraill, gan gynnwys y tu allan i'r DU, a fyddai'n berthnasol i asesu sgiliau llythrennedd a rhifedd ymgeiswyr AGA; sut maen nhw wedi cael eu cynllunio a'u gweithredu, ac am ba gost?

## Dull

*Fframwaith asesu*

1.11 Cynhaliwyd y gwaith ymchwil a oedd yn ofynnol mewn tri cham rhesymegol: deall y sefyllfa bresennol o ran darparwyr AGA, ystyried dichonoldeb profion cyfwerthedd cenedlaethol ac, yn olaf, arfarnu'r opsiynau ar gyfer llunwyr polisi yn Llywodraeth Cymru. Mae Ffigur 1.1 yn dangos yr hyn y mae'r astudiaeth wedi'i ganfod ar bob cam (gan ddefnyddio nodau'r astudiaeth a'r cwestiynau ymchwil), pa ffynonellau a ddefnyddiwyd i gael y wybodaeth a pha ddadansoddiad a gynhaliwyd.


**Ffigur 1.1 Trosolwg o'r ymagwedd at werthuso**

| | Yr hyn rydym ni eisiau ei wybod | Sut byddwn ni'n canfod y wybodaeth | Sut byddwn ni'n dadansoddi'r hyn a ganfyddwn |
|---|---|---|---|
| Y sefyllfa bresennol | Y trefniadau presennol ar gyfer ymgeiswyr AGA heb Radd B TGAU mewn S/C/M neu gymhwyster cyfwerth derbyniol | • Cyfweliadau cychwynnol ag arweinwyr rhaglenni AGA; cyfweliadau manwl ag arweinwyr rhaglenni/cyrsiau, deiliaid polisi a sampl o ymgeiswyr a oedd wedi sefyll profion cyfwerthedd yn ystod y 3-4 blynedd diwethaf;<br>• Deall data ar ymgeiswyr AGA, y niferoedd a oedd heb y cymwysterau gofynnol, a'r niferoedd sy'n sefyll profion cyfwerthedd. | • Mapio'r profion a ddefnyddiwyd a'r prosesau a ddilynwyd; dadansoddiad cymharol o brosesau;<br>• Dadansoddiad thematig/wedi'i drionglu o gyfweliadau;<br>• Ymatebion ymgeiswyr i holiadur e-arolwg. |
| Dichonoldeb prawf cyfwerthedd cenedlaethol | Argaeledd profion cyfwerthedd amgen addas; safbwyntiau rhanddeiliaid ar y profion cenedlaethol | • Cyfweliadau manwl â staff AGA ynglŷn â'r profion cyfwerthedd a ddefnyddir;<br>• Arferion AGA mewn gwledydd eraill â meini prawf/profion dethol tebyg;<br>• Cyfweliadau â darparwyr profion ynglŷn â'u perthnasedd a'u gweinyddiaeth, costau. | • Dadansoddiad thematig/wedi'i drionglu o gyfweliadau;<br>• Arfarnu'r profion sydd ar gael/a ddefnyddiwyd a'u defnyddioldeb ar gyfer ymgeiswyr AGA. |
| Arfarnu'r opsiynau | Buddion cymharol un neu fwy o opsiynau ar gyfer prawf cenedlaethol yn hytrach na threfniadau gwell gan ddarparwyr AGA; yr opsiwn a ffefrir ar gyfer gweithredu | • Cyfweliadau manwl â staff AGA, ymgeiswyr a deiliaid polisi;<br>• Casglu gwybodaeth safonol am brofion cenedlaethol posibl. | • Dadansoddiad o fylchau;<br>• Dadansoddiad aml faen prawf o'r opsiynau. |

*Nodweddion allweddol y gwaith ymchwil*

1.12 Rhoddir trosolwg o gamau'r gwaith ymchwil yn Ffigur 1.2 isod.

**Ffigur 1.2 Trosolwg o dasgau ymchwil**




*Disgrifiad o bob cam o'r dull*

1.13 **Adolygiad o ddogfennau** – gwnaethom archwilio deunydd ar gyfer ymgeiswyr sydd ar gael ar-lein a chasglu'r canlynol gan ddarparwyr AGA:

- Arweiniad a ddarperir i ymgeiswyr AGA cyn sefyll profion cyfwerthedd;
- Copïau o bapurau prawf enghreifftiol ar gyfer profion cyfwerthedd a phrofion cyn mynediad;
- Copïau o archwiliadau llythrennedd a rhifedd a gynhaliwyd ar ddechrau cyrsiau AGA.

1.14 **Cyfweliadau â rhanddeiliaid** – gwnaethom gyfweld yr unigolion canlynol:

- **Pum cyfweliad cwmpasu** â staff darparwyr AGA (un ym mhob darparwr) i drafod gofynion data, cyfranogiad mewn gwaith maes y darparwr a threfniadau ar gyfer yr arolwg ymgeiswyr;

- **Ugain aelod o staff darparwyr AGA** o’r holl ddarparwyr sy’n darparu cyrsiau AGA.  Roedd y staff yn cynnwys arweinwyr cwrs a thiwtoriaid sy’n ymwneud â llwybrau cynradd ac uwchradd, israddedig ac ôl-raddedig a RhAG, yn ogystal â derbyniadau a phrofi.  Cyfwelwyd y nifer ganlynol o staff o bob darparwr:
    - USW (4); Aberystwyth (3); Bangor (4); Met Caerdydd (5); UWTSD (3); Teach First (1);
- **Pymtheg ymgeisydd** a oedd yn sefyll profion cyfwerthedd a nododd yn yr arolwg (gweler isod) y byddent yn fodlon cael eu cyfweld.  Roedd hyn yn llai o ymgeiswyr nag a fwriadwyd yn wreiddiol oherwydd ni allai darparwyr AGA, heblaw am un, ddarparu manylion cyswllt ac ychydig o’r rhai a gwblhaodd yr arolwg a gytunodd i gael eu cysylltu (24).  Fodd bynnag, roedd y cyfweliadau a gynhaliwyd yn rhychwantu ymgeiswyr o bob darparwr ac, ymhlith y 15, roeddent yn cynnwys:
    - Naw ymgeisydd TAR uwchradd, tri ymgeisydd TAR cynradd a thri ymgeisydd ôl-raddedig;
    - Ymgeiswyr sy’n astudio trwy gyfrwng y Gymraeg (2) a’r Saesneg (13);
    - Deg ymgeisydd a oedd wrthi’n astudio AGA, tri a oedd yn gweithio fel athrawon a dau a oedd wedi gadael y proffesiwn;
    - Deuddeg ymgeisydd a lwyddodd mewn profion ar eu hymgais cyntaf a thri na wnaeth hynny.
- **Wyth rhanddeiliad** â buddiant yn y maes polisi.  Roedd y rhain yn cynnwys cynrychiolwyr o:
    - Lywodraeth Cymru;
    - Coleg Cymraeg Cenedlaethol;
    - Cyngor y Prifysgolion a’r Ysgolion ar gyfer Addysg Athrawon yng Nghymru;
    - Cyngor y Gweithlu Addysg;
    - CCAUC;
    - Adran Addysg Prifysgol Rhydychen;
    - Bwrdd Cynghori ar Recriwtio a Chadw Athrawon.
- **Arolwg ymgeiswyr:** cawsom 101 o ymatebion y gellid eu defnyddio (o gyfanswm o 114) i e-arolwg ar gyfer ymgeiswyr a oedd wedi cwblhau profion cyfwerthedd yn ystod y tair blynedd diwethaf.  Fe’i dosbarthwyd

gan y darparwyr AGA, heblaw am un darparwr a oedd yn gallu darparu manylion cyswllt ymgeiswyr. Anfonwyd neges e-bost gychwynnol at ymgeiswyr i'w gwahodd i ddilyn dolen i'r e-arolwg, ac anfonwyd negeseuon atgoffa atynt hefyd i gwblhau'r arolwg. Roedd yr arolwg ar agor am 6 wythnos o ganol mis Mawrth tan ddiwedd mis Ebrill 2018.

1.15 Nid yw'n bosibl nodi poblogaeth yr arolwg yn fanwl gywir gan fod cyfyngiadau o ran y cofnodion cywir sydd ar gael ar gyfer ymgeiswyr a/neu broblemau cael mynediad at ddata yn golygu nad ydym yn gwybod faint o ymgeiswyr AGA presennol a blaenorol yr oedd yr arolwg wedi'u cyrraedd, faint o'r cyfeiriadau e-bost oedd yn ddilys a faint a ddarllenodd y gwahoddiad e-bost.[16] At hynny, mae'r ddibyniaeth ar y darparwyr AGA i ddosbarthu'r arolwg trwy e-bost yn golygu y gallasai myfyrwyr AGA presennol wedi bod yn fwy tebygol o ymateb nag ymgeiswyr blaenorol sydd mewn swydd. Am y rhesymau hyn, dylai'r sampl arolwg gael ei hystyried yn sampl gyfleustra.

1.16 Fodd bynnag, mae'n bosibl gwneud rhai tybiaethau i amcangyfrif cyfanswm nifer yr ymgeiswyr ar gyfer prawf cyfwerthedd AGA y gallai'r arolwg fod wedi eu cyrraedd. Amcangyfrifwyd hyn gan ddefnyddio data gan ddau ddarparwr AGA ynglŷn â nifer yr ymgeiswyr sy'n sefyll profion a chyfanswm nifer y profion a gynhaliwyd. Mae data gan y darparwyr hyn yn dangos mai nifer yr ymgeiswyr sy'n sefyll naill ai prawf Saesneg neu Fathemateg yw 74% o nifer yr ymgeiswyr sy'n sefyll prawf Saesneg yn ogystal â'r nifer sy'n sefyll prawf Mathemateg. Gan ddefnyddio'r ffigur hwn o 74% a swm nifer yr ymgeiswyr sy'n sefyll profion Saesneg a'r nifer sy'n sefyll profion Mathemateg (500), amcangyfrifwn fod oddeutu 370 o ymgeiswyr AGA ar gyfer mynediad yn 2017/18 wedi sefyll profion cyfwerthedd. Gan dybio bod nifer yr ymgeiswyr sy'n sefyll profion wedi aros yn eithaf tebyg yn ystod y tair blynedd diwethaf, byddai hyn yn rhoi cyfanswm o 1,110 o ymgeiswyr yn ystod y tair blynedd diwethaf sy'n sefyll profion cyfwerthedd. Trwy wneud y tybiaethau hyn, gallwn amcangyfrif bod poblogaeth yr arolwg oddeutu 1,110, ar yr un pryd â

[16] Mewn pedwar o'r pum darparwr AGA, dosbarthwyd yr arolwg ar ein rhan gan y darparwr. Mewn rhai darparwyr, anfonwyd yr arolwg at yr holl ymgeiswyr AGA (gan gynnwys y rhai nad oeddent wedi sefyll prawf cyfwerthedd) gan nad oedd rhestrau dosbarthu mwy penodol ar gael ar gyfer y rhai a oedd yn sefyll profion cyfwerthedd. Roedd yr arolwg yn cynnwys cwestiwn hidlo i eithio'r rhai nad oeddent wedi sefyll profion cyfwerthedd. O'r 114 o ymatebwyr a ddarparodd ymatebion cyflawn (86%) neu rannol (14%) i'r arolwg, dim ond 104 oedd wedi sefyll prawf cyfwerthedd ac a oedd yn gymwys i gwblhau gweddill yr arolwg. Nid oedd tri o'r ymatebwyr a oedd yn gymwys i gwblhau'r arolwg wedi parhau ymhellach, gan adael sylfaen gyffredinol o 101 o ymatebwyr.

chydnabod ei bod yn debygol bod nifer yr ymgeiswyr a gafodd y gwahoddiad yn is o lawer na hyn. Byddai hyn yn awgrymu bod y gyfradd ymateb i'r arolwg oddeutu 9%.

1.17 Roedd yr ymatebion i'r arolwg yn rhychwantu'r holl ddarparwyr AGA, cyrsiau uwchradd a chynradd, cyrsiau TAR/gradd ac yn ddigon mawr i gynnal dadansoddiad meintiol, er y dylai dadansoddiad is-grŵp gael ei drin fel data ansoddol. Rhoddir manylion yr ymatebwyr i'r arolwg isod (N=101 oni nodir fel arall).

- Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (60%) yn fyfyrwyr AGA yng Nghymru, a'r ganran ail fwyaf oedd ANGau, sef 23%. Roedd y 17% o ymatebwyr a oedd yn weddill naill ai'n athrawon cwbl gymwysedig, yn gweithio fel athrawon anghymwysedig, yn fyfyrwyr neu ar gwrs arall, yn fyfyrwyr AGA presennol yn Lloegr, neu'n gweithio mewn proffesiwn gwahanol;
- Roedd tri chwarter (75%) yr ymatebwyr wedi dilyn Tystysgrif Addysg i Raddedigion (TAR) neu wrthi'n ei dilyn, ac roedd 25% o'r ymatebwyr yn dilyn cwrs gradd (BEd, BA neu BSc) sy'n arwain at statws athro cymwysedig;
- Roedd cyfran eithaf tebyg o'r ymatebwyr yn canolbwyntio ar addysg gynradd ac addysg uwchradd (47% o gymharu â 53%, yn y drefn honno). Roedd ymgeiswyr uwchradd a chanddynt amrywiaeth o arbenigeddau pwnc wedi ymateb i'r arolwg;[17]
- Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn dilyn cwrs AGA cyfrwng Saesneg (86%), ond roedd ambell un yn dilyn llwybr cyfrwng Cymraeg (10%);
- Roedd ychydig dros hanner (54%) yn ariannu eu cwrs AGA yn gyfan gwbl trwy grant neu fwrsariaeth, roedd traean (31%) yn ei ariannu'n rhannol trwy grant neu fwrsariaeth, ac roedd 15% yn ei ariannu eu hunain yn llwyr;
- Roedd mwyafrif yr ymatebwyr i'r arolwg wedi sefyll eu prawf cyfwerthedd cyntaf yn UWTSD (45%) neu Brifysgol Metropolitan Caerdydd (40%), a

[17] Nododd rhwng un a chwe ymatebwr eu bod yn arbenigo yn y pynciau canlynol: Celf a Dylunio; Bioleg gyda Gwyddoniaeth; Busnes; Cemeg gyda Gwyddoniaeth; Dylunio a Thechnoleg; Drama; Saesneg; Daearyddiaeth; Hanes; TGCh a Chyfrifiadura; Mathemateg; Ieithoedd Tramor Modern; Cerddoriaeth; Arall; Addysg Gorfforol; Ffiseg gyda Gwyddoniaeth; Cymraeg.

dywedodd cyfran is eu bod wedi gwneud eu profion yn USW (11%), Aberystwyth (4%) a Bangor (2%).[18]

- Dywedodd ychydig (14%) o ymatebwyr y bu'n rhaid iddynt ailsefyll eu prawf cyfwerthedd, ac roedd pob ymatebwr namyn un wedi llwyddo mewn prawf ailsefyll. Roedd rhaid i fwyafrif yr ymatebwyr y bu'n rhaid iddynt ailsefyll prawf (12 o 13) ailsefyll y prawf cyfwerthedd mathemateg/rhifedd; dim ond un ymatebwr y bu'n rhaid iddo ailsefyll y prawf Saesneg.

1.18 **Casglu data:** cawsom ddata ar nifer yr ymgeiswyr gan HESA/Llywodraeth Cymru, data ar geisiadau gan UCAS a data ar y targedau derbyn gan CCAUC. Rhoddodd yr holl ddarparwyr AGA ddata ar nifer yr ymgeiswyr 2017/18 a safodd ac a lwyddodd mewn profion cyfwerthedd Saesneg a Mathemateg. Rhoddodd dau ddarparwr AGA ddata ar ymgeiswyr heb Radd B TGAU (nid oedd y lleill yn gallu darparu'r data hwn). Rhoddodd tri darparwr ddata ar nifer yr ymgeiswyr AGA a safodd ac a lwyddodd mewn profion cyn mynediad y mae'r holl ymgeiswyr yn eu sefyll yn rhan o'u diwrnod cyfweliad (dywedodd un darparwr nad yw'n cofnodi'r data hwn).

1.19 **Ymchwil ddesg:** gwnaethom chwilio gwefannau llywodraethau a chanolfannau AGA yn ogystal â gwefannau darparwyr profion llythrennedd/rhifedd a ddefnyddir i gael mynediad at gyrsiau cymwysterau, swyddi a chyrff proffesiynol. Roedd gwefannau'r llywodraethau a'r asiantaethau a archwiliwyd yn cynnwys y rhai hynny ar gyfer rhannau eraill o'r DU, gwledydd Ewropeaidd (lle y deallasom y gallai profion gael eu defnyddio i gael mynediad) a gwledydd eraill Saesneg eu hiaith. Gwnaethom ddilyn gwybodaeth am brofion a amlygwyd gydag ymholiadau ffôn ac e-bost.

1.20 **Arfarnu'r opsiynau:** er mwyn asesu dichonoldeb opsiynau ar gyfer polisi yn y dyfodol ar brofi ymgeiswyr AGA yn systematig, gwnaethom ddilyn y broses a amlinellir yn 0 isod.

[18] N=91 ar gyfer y pwynt bwled olaf gan nad oedd 10 ymatebwr wedi cwblhau'r cwestiwn hwn.

**Ffigur 1.3 Dull o arfarnu'r opsiynau**

| Cam 1 | Cam 2 | Cam 3 |
| --- | --- | --- |
| Dadansoddiad o fylchau, gan ddefnyddio asesiad o gryfderau a gwendidau'r trefniadau presennol, a rhwng arferion presennol ac amcanion polisi'r profion. Yr amcanion a amlygwyd oedd cyfwerthedd â safon gradd B TGAU, tegwch, cymesuredd (â'r gost/amser ar gyfer ystyried ymgeiswyr), tryloywder a chludadwyedd. | Amlygu opsiynau, gan archwilio'r trefniadau presennol i weld a yw gwella'r profion presennol yn opsiwn i'w ystyried; asesu cyfwerthedd profion eraill a ddefnyddiwyd/sydd ar gael ar gyfer llythrennedd a rhifedd (a allai gael eu defnyddio gan un darparwr AGA yng Nghymru neu gan weinyddiaethau eraill) i weld a allai unrhyw rai fod yn brofion safonol/cenedlaethol posibl; ystyried datblygu profion wedi'u teilwra gan ddefnyddio profiadau o fannau eraill. | Asesu opsiynau yn ôl cyfres o feini prawf cost/budd. Defnyddiwyd dau faen prawf eang: a) i ba raddau y bydd yr opsiwn yn mynd i'r afael â bylchau posibl a b) dichonoldeb yr opsiwn o ran costau gweithredu, y capasiti a'r arbenigedd sydd ar gael i'w roi ar waith a'r amser a gymerir i weithredu'r opsiwn. |

### Strwythur yr adroddiad hwn

1.21 Mae Pennod 2 yn disgrifio'r data ar geisiadau AGA a nodweddion hyfforddeion, y gofynion cyfwerthedd a sut mae ymgeiswyr yn cael eu hystyried gan bob un o'r darparwyr AGA. Yna, mae'n amlinellu trefniadau profi cyfwerthedd pob darparwr, canlyniadau'r profion a safbwyntiau staff darparwyr, ymgeiswyr a rhanddeiliaid eraill ynglŷn â'r broses a'r arferion.

1.22 Mae Pennod 3 yn disgrifio'r defnydd o brofion cyfwerthedd a phrofion eraill a ddefnyddir gan ddarparwyr AGA mewn mannau eraill ac ar gyfer mynediad i broffesiynau eraill lle mae safonau llythrennedd a/neu rifedd yn bwysig, a'r profion a ddefnyddir. Dewisir profion y gellid ystyried eu defnyddio fel prawf cyfwerthedd cenedlaethol i'w hasesu a'u hadolygu'n fanwl. Disgrifir safbwyntiau staff darparwyr, ymgeiswyr a rhanddeiliaid eraill ynglŷn ag opsiynau eraill ar gyfer profi cyfwerthedd.

1.23 Mae Pennod 4 yn asesu'r opsiynau ar gyfer gweithredu gan ystyried canfyddiadau'r astudiaethau i gyrraedd rhai casgliadau ac argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru a darparwyr AGA.

## 2. Ymgeiswyr AGA a phrofi cyfwerthedd

2.1 Yn yr adran hon, cyflwynwn ein canfyddiadau ynglŷn â'r ddarpariaeth AGA, data ar geisiadau AGA a nodweddion hyfforddeion, y prosesau ymgeisio a phrofi cyfwerthedd sydd ar waith a'r data sydd ar gael ar ymgeiswyr a phrofion. Amlinellwn hefyd ein canfyddiadau ynglŷn â phrofion cyn mynediad eraill y mae ymgeiswyr yn eu sefyll yn rhan o'r broses ymgeisio ar gyfer cyrsiau AGA.

### Darpariaeth AGA

2.2 Rhoddir isod drosolwg o'r darparwyr a'r cyrsiau AGA sydd ar gael yng Nghymru yn ogystal â niferoedd derbyn targed, niferoedd ceisiadau a niferoedd hyfforddeion ar gyrsiau AGA.

*Darparwyr a chyrsiau AGA*

2.3 Mae tair canolfan AGA ar gyfer addysg athrawon yng Nghymru ac mae pob canolfan yn cynnwys dau ddarparwr AGA. Y rhain yw:

- Canolfan Gogledd a Chanolbarth Cymru ar gyfer Addysg a Hyfforddiant Athrawon (NMWCTET), a ddarperir gan Brifysgol Bangor a Phrifysgol Aberystwyth;
- Canolfan De-orllewin Cymru ar gyfer Addysg a Hyfforddiant Athrawon (SWWCTE) a ddarperir gan Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant yn Abertawe a Chaerfyrddin;
- Canolfan De-ddwyrain Cymru ar gyfer Addysg a Hyfforddiant Athrawon (SEWCTET) a ddarperir gan Brifysgol De Cymru a Phrifysgol Metropolitan Caerdydd.

2.4 Mae pob canolfan yn cynnig cyrsiau TAR a chyrsiau gradd eraill (fel arfer BEd, BA neu BSc) sy'n arwain at statws athro cymwysedig ar lefel gynradd ac uwchradd (er bod gan bob canolfan rai myfyrwyr sy'n dilyn cyrsiau gradd eraill ar lefel uwchradd).

2.5 Mae cynlluniau seiliedig ar gyflogaeth i'r rhai sy'n hyfforddi i addysgu ar gael yng Nghymru hefyd. Ceir dau lwybr seiliedig ar gyflogaeth: y Rhaglen Athrawon Graddedig (RhAG) a Teach First Cymru.

2.6 Wrth gyflwyno canfyddiadau'r gwaith maes, disgrifiwn y prosesau sydd ar waith ar draws y chwe darparwr AGA yn hytrach na'r tair canolfan AGA. Y rhain yw: Prifysgol Bangor, Prifysgol Aberystwyth, Prifysgol Metropolitan Caerdydd, Prifysgol De Cymru, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant a Teach First Cymru. Y rheswm am hyn yw oherwydd bod arferion yn amrywio o fewn canolfannau AGA ac felly ei bod yn fwy priodol adrodd yn ôl darparwr.

*Targedau derbyn AGA*

2.7 Amlinellodd Llywodraeth Cymru ei thargedau derbyn ar gyfer AGA ym mlwyddyn academaidd 2016/17 mewn llythyr i CCAUC ym mis Rhagfyr 2015.[19] Cyfanswm y targed derbyn a osodwyd ar gyfer pob canolfan yn 2016/17 oedd 1,630, yn cynnwys:

- 1,235 o hyfforddeion ôl-raddedig a 395 israddedig;
- 750 o hyfforddeion cynradd ac 880 uwchradd.

2.8 Gosodwyd targedau ychwanegol ar gyfer 'pynciau uwchradd targed' (Mathemateg; Cemeg; Ffiseg; Ieithoedd Tramor Modern; Cymraeg; TGCh (Astudiaethau Cyfrifiadurol)) yn ogystal â phynciau uwchradd eraill.

2.9 Yn seiliedig ar y targedau cyffredinol hyn, gosododd CCAUC dargedau ar gyfer y tair canolfan AGA ym mis Rhagfyr 2015.[20] Dangosir y targedau derbyn ar gyfer canolfannau AGA ym mlwyddyn academaidd 2016/17 yn Tabl 2.1 isod.

**Tabl 2.1 Targedau derbyn ar gyfer cyrsiau AGA yn ôl sector a'r math o gwrs ar gyfer 2016/17**

| | Israddedig | Ôl-raddedig | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| Cynradd | 300 | 450 | 750 |
| Uwchradd | 95 | 785 | 880 |
| Cyfanswm | 395 | 1,235 | 1,630 |

*Ffynhonnell: Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon Cynradd ac Uwchradd CCAUC: Targedau derbyn 2016/17*

[19] CCAUC, 2015. *Addysg Gychwynnol Athrawon: Targedau Derbyn 2016/17*. Gosodwyd y targedau mwyaf diweddar ym mis Rhagfyr 2017 ar gyfer blwyddyn academaidd 2018/19. Fodd bynnag, ni ellir cymharu'r targedau hyn â data derbyn ac felly cyflwynir data 2016/17 yn yr adroddiad hwn.
[20] CCAUC Targedau recriwtio: hyfforddiant cychwynnol athrawon

2.10 Yn 2017/18, roedd 23 cyfranogwr Teach First yn eu blwyddyn gyntaf yng Nghymru ac mae gan RhAG uchafswm o 90 o leoedd wedi'u dyrannu fel a ganlyn:

- 36 o leoedd (tua 12 fesul Canolfan) ar gyfer ysgolion cynradd a gynhelir;
- 36 o leoedd (tua 12 fesul Canolfan) ar gyfer ysgolion uwchradd a gynhelir gyda phwyslais ar flaenoriaethau rhanbarthol a'r pynciau canlynol: mathemateg, ffiseg, cemeg, ieithoedd tramor modern, TGCh/Cyfrifiadura a Chymraeg;
- 18 o leoedd heb eu hariannu (tua 6 fesul Canolfan) i fynd i'r afael â phrinder recriwtio.

*Hyfforddeion AGA*

2.11 Mae data gan yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) a gyflwynwyd yn Addysg Gychwynnol Athrawon yng Nghymru 2016/17 (Llywodraeth Cymru, 2018) yn dangos bod 1,245 o fyfyrwyr newydd ar gyrsiau AGA yn 2016/17; 700 (56%) ar gyrsiau ysgol gynradd a 545 (44%) ar gyrsiau ysgol uwchradd. Roedd nifer y myfyrwyr newydd (1,245) wedi methu'r targed (1,630) o bron i chwarter yn 2016/17. Roedd nifer yr athrawon uwchradd newydd dan hyfforddiant (545) wedi methu'r targed (871) o fwy na thraean yn 2016/17, ac roedd nifer yr hyfforddeion cynradd newydd (700) ychydig yn is na'r targed (750).[21] Mae'r data'n dangos bod tua dwy ran o dair (69%) o'r myfyrwyr newydd ar gyrsiau AGA yn fenywaidd a bod oddeutu traean (31%) yn wrywaidd. O ran ethnigrwydd, roedd bron pob un yn wyn ac roedd oddeutu 2% yn dod o grŵp ethnig lleiafrifol. Roedd oddeutu un rhan o bump (19%) o'r myfyrwyr AGA yn hyfforddi i addysgu yn Gymraeg.

[21] Gweler *Addysg Gychwynnol i Athrawon yng Nghymru 2016/17* Mae'r targed uwchradd o 871 a gyflwynwyd yn y ddogfen hon yn wahanol i'r targed o 880 a osodwyd yn llythyr CCAUC.

**Tabl 2.2 Myfyrwyr newydd ar gyrsiau AGA yn ôl sector a'r math o radd 2016/17**

| | Israddedig | Ôl-raddedig | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| Cynradd | 270 | 425 | 700 |
| Uwchradd | 20 | 530 | 545 |
| Cyfanswm | 290 | 955 | 1,245 |

*D.S. Mae'n bosibl nad yw'r cyfansymiau'n union gywir gan fod data'n cael ei dalgrynnu i'r 5 agosaf yn unol ag egwyddorion strategaeth dalgrynnu HESA.*

*Ffynhonnell: Cofnod myfyrwyr addysg uwch, yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch*

2.12 Yn ogystal â'r uchod, mae 29 hyfforddai Teach First yn eu hail flwyddyn yng Nghymru (h.y. roeddent yn fyfyrwyr newydd yn 2016/17) ac roedd 71 hyfforddai yn dilyn y Rhaglen Athrawon Graddedig yn 2016/17.

*Ymgeiswyr AGA*

2.13 Mae UCAS yn cyhoeddi data ar nifer yr ymgeiswyr am gyrsiau AGA yng Nghymru. Mae data ar gyfer 2017 yn dangos yr oedd cyfanswm o 2,020 o ymgeiswyr (ymgeiswyr Hyfforddiant Athrawon UCAS ar Ddiwedd Cylch 2017), ac o'r rhain:

- roedd 1,300 (64%) wedi'u dosbarthu'n rhai 'wedi'u lleoli': ymgeiswyr sydd naill ai wedi derbyn cynnig diamod yn bendant neu ymgeiswyr y mae eu lle wedi cael ei gadarnhau ar ôl bodloni amodau cynnig amodol pendant;
- Nid oedd yr un ohonynt wedi'u dosbarthu'n ymgeiswyr:
  - 'wedi'u lleoli'n amodol': ymgeiswyr sydd wedi derbyn cynnig amodol fel eu dewis pendant;
  - ymgeiswyr sy'n 'dal cynnig': ymgeiswyr sy'n dal cynnig diamod neu amodol na ymatebwyd iddo;
- roedd 710 (35%) wedi'u dosbarthu'n rhai 'eraill': yr holl ymgeiswyr eraill nad ydynt wedi'u lleoli, eu lleoli'n amodol neu'n dal cynnig.

**Gofynion mynediad**

2.14 Cynhaliwyd cyfweliadau â staff darparwyr AGA ac ymchwil ddesg i gasglu data ar sut mae gofynion profion cyfwerthedd yn cael eu gweithredu gan ddarparwyr. Yn yr adran isod a'r rhai sy'n dilyn, disgrifiwn y prosesau sydd ar waith ar draws y chwe darparwr AGA yn hytrach na'r canolfannau AGA: y

rhain yw Prifysgol Bangor, Prifysgol Aberystwyth, Prifysgol Metropolitan Caerdydd, Prifysgol De Cymru, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant a Teach First Cymru.

*Ystyried cymwysterau Saesneg/mathemateg ymgeiswyr*

2.15 Mae gan bump o'r chwe darparwr AGA ofyniad mynediad lleiaf o Radd C TGAU mewn Saesneg a mathemateg er mwyn i gais gael ei ystyried. Mae'r darparwyr hyn, felly, yn mynnu bod pawb sy'n sefyll prawf cyfwerthedd yn meddu ar Radd C TGAU mewn Saesneg a mathemateg. Fodd bynnag, mae un darparwr (Prifysgol Metropolitan Caerdydd) yn ystyried ceisiadau gan ymgeiswyr sydd â Gradd D TGAU os ydynt yn ymgeisio am rai llwybrau uwchradd. Dangosodd cyfweliadau â'r darparwr hwn fod hyn yn cael ei wneud i ddenu mwy o ymgeiswyr, yn enwedig myfyrwyr aeddfed, at bynciau lle y ceir prinder (e.e. Dylunio a Thechnoleg).

2.16 Nid yw'r rhan fwyaf o ddarparwyr yn cofnodi a storio data ar nifer yr ymgeiswyr am gyrsiau AGA sydd heb Radd B mewn Saesneg neu fathemateg. Dywedodd rhai darparwyr fod gwybodaeth am y cymwysterau hyn yn cael ei dal ar gyfer y rheiny sy'n cofrestru ar y cwrs AGA yn unig. Roedd tri darparwr yn gallu rhoi data ar nifer yr ymgeiswyr AGA nad oedd ganddynt Radd B mewn Saesneg neu fathemateg:

- Yn USW, nid oedd gan 44% o'r ymgeiswyr am y cwrs AGA yn 2017/18 (183 o 414) Radd B mewn mathemateg neu Saesneg;
- Ym Mhrifysgol Bangor:
  - nid oedd gan 34% o'r ymgeiswyr am y cwrs AGA yn 2017/18 (261 o 760 yr oedd data ar gael ar eu cyfer) Radd B mewn mathemateg
  - nid oedd gan 29% o'r ymgeiswyr (226 o 771 yr oedd data ar gael ar eu cyfer) Radd B mewn Saesneg
- Nododd Teach First Cymru nad oes gan oddeutu 1 o bob 25 o'u hymgeiswyr yng Nghymru Radd B mewn Saesneg neu fathemateg/rhifedd.

2.17 Roedd y darparwyr, y rhanddeiliaid a'r ymgeiswyr a gyfwelwyd yn credu bod y gofyniad am Radd B yn rhwystr rhag mynediad i rai ymgeiswyr. Dywedodd staff a gyfwelwyd ar draws pob darparwr eu bod yn ymwybodol o rai achosion lle'r oedd darpar ymgeiswyr heb Radd B wedi penderfynu peidio â

symud ymlaen â chais ar ôl gwneud ymholiadau cychwynnol, neu ymgeiswyr a oedd wedi tynnu eu cais yn ôl ar ôl dod yn ymwybodol o'r gofyniad am Radd B. Nid yw ymgeiswyr yn y sefyllfaoedd hyn yn cael eu cyfrif yn y data a gyflwynir uchod. Dywedodd staff y rhan fwyaf o ddarparwyr eu bod yn gwybod am rai achosion lle'r oedd ymgeiswyr wedi penderfynu gwneud cais i ddarparwyr AGA yn Lloegr wedi hynny. Fodd bynnag, nid oedd yr un o'r darparwyr wedi casglu data ynglŷn â'r mathau hyn o ymgeiswyr neu ddarpar ymgeiswyr i asesu i ba raddau yr oedd y gofyniad am Radd B wedi effeithio ar eu penderfyniadau o gymharu â ffactorau eraill. Roedd y rhan fwyaf o ddarparwyr a rhanddeiliaid yn credu bod y gofyniad am Radd B wedi cyfrannu at ostyngiad yn nifer yr ymgeiswyr AGA yn ystod y blynyddoedd diweddar, ond ni allent gyfeirio at dystiolaeth a fyddai'n profi hyn.

2.18 Nododd yr holl ddarparwyr eu bod yn derbyn cymwysterau eraill yr oedden nhw'n ystyried eu bod yn gyfwerth â Gradd B TGAU. Rhoddir rhestr o'r cymwysterau eraill a dderbynnir gan ddarparwyr yn y Canllawiau ar gyfer cyfwerthedd â Gradd B TGAU mewn Saesneg a mathemateg ar gyfer mynediad i addysg a hyfforddiant cychwynnol athrawon yng Nghymru (Canolfan De-ddwyrain Cymru ar gyfer Addysg a Hyfforddiant Athrawon, Canolfan De-orllewin Cymru ar gyfer Addysg a Hyfforddiant Athrawon, Canolfan Gogledd a Chanolbarth Cymru ar gyfer Addysg a Hyfforddiant Athrawon, 2018).[22] Mae'r canllawiau hyn yn nodi nad yw'r rhestr yn gynhwysfawr, a dywedodd darparwyr yn ystod cyfweliadau fod ymgeiswyr a chanddynt gymwysterau eraill yn cael eu hystyried gan staff academaidd yn ystod y broses ymgeisio.

2.19 Dywedodd rhai ymgeiswyr a chanddynt gymwysterau heblaw am TGAU eu bod wedi wynebu heriau wrth gadarnhau p'un a fyddai eu cymwysterau'n cael eu derbyn yn gyfwerth â Gradd B TGAU yn ystod y broses ymgeisio. Roedd rhai ymgeiswyr yn teimlo bod diffyg eglurder ynglŷn â ph'un a fyddai'r darparwr yn derbyn eu cymwysterau, gan ddisgrifio oedi oherwydd bod rhaid iddynt gysylltu â chyrff cymwysterau yn eu gwledydd gwreiddiol. Fodd bynnag, roedd yr ymgeiswyr hyn hefyd yn credu bod y broses profi cyfwerthedd ei hun yn ddigon syml.

[22] Prifysgol Bangor *Canllawiau ar gyfer Prawf Cyfwerthedd*

‘Bu’n rhaid i mi roi tystiolaeth fod fy sgiliau Mathemateg a Saesneg yn cyfateb i rai plentyn 16 oed a, chyda digon o amser ac ymdrech, roeddwn i’n gallu gwneud hynny fel myfyriwr iaith dramor a oedd yn gwneud y profion cyfwerthedd dim ond i ddyblygu a throsi fy nghanlyniadau ysgol… efallai na fyddai mor rhwydd i’r rhai sy’n cael trafferth cyflawni’r canlyniadau hynny yn y lle cyntaf.’ Cyfweliad ag ymgeisydd AGA

‘Roeddwn i’n teimlo ychydig bach yn flin erbyn hynny. Ceisiais frwydro yn erbyn gorfod gwneud y prawf cyfwerthedd i ddechrau. Mae gen i radd anrhydedd dosbarth cyntaf ac rwy’n gyfrifydd cymwysedig. Roedd yn ymddangos braidd yn fychanol mewn gwirionedd… Roeddwn i wedi gwneud llawer o gyrsiau rhifedd yn ogystal â hwnnw trwy gymwysterau eraill. Doeddwn i ddim yn hapus a dweud y lleiaf.’ Cyfweliad ag ymgeisydd AGA

*Ymwybyddiaeth o ofynion mynediad a phrofi cyfwerthedd*

2.20 Roedd y darparwyr, y rhanddeiliaid a’r ymgeiswyr a gyfwelwyd yn credu ei bod yn bwysig sicrhau bod ymgeiswyr yn ymwybodol o’r gofyniad am Radd B. Roedd yr holl ddarparwyr yn deall y gofyniad mynediad Gradd B ac yn dweud eu bod yn rhoi gwybod i ymgeiswyr am hyn mewn amrywiaeth o ffyrdd. Roedd y rhain yn cynnwys darparu gwybodaeth ysgrifenedig (e.e. ar ffurflenni cais) a deunyddiau marchnata (gan gynnwys tudalennau gwe a deunyddiau papur y darparwr) yn ogystal â thrafod ag ymgeiswyr mewn digwyddiadau (e.e. ffeiriau gyrfaoedd). Dywedodd rhai darparwyr eu bod bellach yn cael llai o ymholiadau ynglŷn â’r gofyniad am Radd B o gymharu ag ychydig flynyddoedd yn ôl ac awgrymodd y darparwyr hyn y gallai ymwybyddiaeth fod wedi cynyddu ymhlith ymgeiswyr.

2.21 Dywedodd darparwyr eu bod yn rhoi gwybod i ymgeiswyr heb Radd B am yr opsiwn i sefyll prawf cyfwerthedd cyn gynted â phosibl. Roedd hyn yn cynnwys trafodaethau llafar anffurfiol pe byddai’r cyfle’n codi. Fodd bynnag, dywedodd yr holl ddarparwyr hefyd fod rhaid i ymgeiswyr fodloni holl ofynion eraill y broses ymgeisio yn llwyddiannus cyn cael sefyll y prawf cyfwerthedd.

2.22 Er gwaethaf yr uchod, cydnabu’r rhan fwyaf o ddarparwyr nad oedd rhai ymgeiswyr yn ymwybodol o’r gofynion mynediad Gradd B o hyd, a dywedodd darparwyr hefyd fod rhai ymgeiswyr yn credu bod rhywfaint o hyblygrwydd yn y gofyniad.


'…er fy mod yn gwybod bod cryn ymdrech yn cael ei gwneud i roi cyhoeddusrwydd i'r gofyniad, bob blwyddyn mae'n ymddangos nad yw cyfran sylweddol o ymgeiswyr yn ymwybodol o'r gofyniad o hyd. Yn amlwg, mae pob blwyddyn yn garfan newydd, felly mae angen gwneud yr un ymdrech bob blwyddyn. Yn anffodus, rwy'n credu bod ymgeiswyr yn meddwl ac yn gobeithio (ar gam) fod hawl gennym ni i hepgor y gofyniad.' Cyfweliad â darparwr AGA

'Nid yw'n ddigon amlwg i ymgeiswyr eu bod nhw'n gallu sefyll prawf cyfwerthedd ac nid yw'n cael ei gyfleu mewn ffordd sy'n cefnogi recriwtio. Dylai fod yn fwy amlwg mewn ffeiriau recriwtio.' Cyfweliad â darparwr AGA

2.23 Dywedodd rhai staff darparwyr (ac ymgeiswyr) fod rhai ymgeiswyr sy'n astudio cyrsiau TGAU llawn mewn Saesneg neu fathemateg yn dewis sefyll prawf cyfwerthedd yn ystod eu cwrs. Dywedodd darparwyr ac ymgeiswyr eu bod nhw'n gwneud hyn er mwyn osgoi gorfod aros tan fis Awst i gael cadarnhad y byddent yn cael eu derbyn ar y cwrs AGA.

2.24 Gofynnwyd i ymgeiswyr pryd y sylweddolon nhw gyntaf fod angen iddynt sefyll prawf cyfwerthedd. Mae Ffigur 2.1 yn dangos bod oddeutu tri chwarter yr ymatebwyr (72%, N = 98) wedi dweud y sylweddolon nhw wrth benderfynu gwneud cais am addysgu, a dywedodd 23 o'r ymatebwyr eu bod wedi sylweddoli dim ond pan roddwyd ac y derbyniwyd cynnig amodol gan y darparwr AGA. O ran y pedwar ymatebwr a ddewisodd 'Arall', roedd tri wedi sylweddoli pan na chawsant Radd B wrth ailsefyll arholiad TGAU. Nid oedd gwahaniaethau mawr yn ôl darparwyr neu'r math o lwybr a ddilynwyd.


**Ffigur 2.1 Ymatebion ymgeiswyr i'r cwestiwn: 'Pryd sylweddoloch chi fod rhaid i chi sefyll y prawf/profion cyfwerthedd?'**




*Sylfaen: Ymatebwyr i'r arolwg ymgeiswyr a oedd wedi cwblhau prawf cyfwerthedd (roedd tri heb ymateb).*

2.25 Gofynnwyd i'r ymgeiswyr ynglŷn â'r trefniadau prawf cyfwerthedd a gynigiwyd gan eu darparwr, a'u safbwyntiau ynghylch gwneud cais am yr opsiynau hyn. Mae Ffigur 2.2 yn dangos er bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (80%, N = 93) yn ymwybodol o'r gofyniad i feddu ar Radd B TGAU (neu gyfwerth) o leiaf i ddod yn athro/athrawes, roedd llai ohonynt (69%, N = 93) yn ymwybodol o'r gwahanol opsiynau i fodloni'r gofyniad hwn neu'r mathau o brofion cyfwerthedd a oedd yn ofynnol gan y brifysgol (58%, N = 92).


**Ffigur 2.2 Ymatebion ymgeiswyr i'r cwestiwn 'Gan feddwl am eich proses ymgeisio, a oeddech chi'n ymwybodol o'r:'**




*Sylfaen: Cyfanswm yr ymatebwyr i'r arolwg ymgeiswyr (heblaw am y rhai na ymatebodd).*

2.26 Gofynnwyd i'r ymatebwyr hefyd ynglŷn â'r cymorth a gawsant gan ddarparwyr AGA yn ystod y broses ymgeisio (0). Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (92%) yn cytuno'n gryf neu'n cytuno bod y darparwyr wedi esbonio neu gyfleu gofynion mynediad y cwrs yn ddigonol ac wedi eu hannog i sefyll yr arholiad cyfwerthedd i gyflawni'r gofynion mynediad (89%). Fodd bynnag, roedd llai o'r ymatebwyr (77%) yn cytuno'n gryf neu'n cytuno eu bod wedi darparu arweiniad a gwybodaeth am brofi cyfwerthedd, tra bod 15% yn anghytuno ac 8% yn anghytuno'n gryf.

**Ffigur 2.3 Ymatebion ymgeiswyr i'r cwestiwn 'Gan feddwl am eich darparwr AGA, i ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno ei fod:'**




*Sylfaen: Ymatebwyr i'r arolwg ymgeiswyr (Saith heb ymateb, N = 93).*

**Paratoi ymgeiswyr ar gyfer profion cyfwerthedd**

2.27 Mae pedwar o'r chwe darparwr yn cynnig rhyw fath o sesiwn/sesiynau paratoi i ymgeiswyr a hoffai gael cymorth cyn sefyll prawf cyfwerthedd. Fodd bynnag, mae gwahaniaeth mawr rhwng graddfa'r cymorth a'r math o gymorth a gynigir gan ddarparwyr i ymgeiswyr sy'n paratoi ar gyfer profion cyfwerthedd.

- Mae USW yn cynnig cwrs 10 wythnos (a gynhelir ddwywaith y flwyddyn ac a gyflwynir yn fewnol) i baratoi ar gyfer eu profion cyfwerthedd, sy'n cynnwys gwaith cwrs yn ogystal â'r prawf. Mae'n rhaid dilyn y cwrs yn rhan o'r broses brofi yn USW, er bod USW yn derbyn canlyniadau profion o fannau eraill (e.e. darparwr arall neu gwmni profi sector preifat) os nad yw ymgeiswyr yn gallu dilyn y cwrs;
- Mae UWTSD yn cynnig gweithdy deuddydd (a gyflwynir gan SAB lleol fel contractwr allanol) sy'n cynnwys datblygu portffolio achrededig (gyda chyfranogiad corff achredu - Agored Cymru) yn ogystal â pharatoi ar gyfer y profion. Anfonir papur enghreifftiol a rhywfaint o arweiniad paratoadol (rhestr o ddeunyddiau ar-lein) at ymgeiswyr cyn y cwrs. Mae'n rhaid mynychu'r gweithdy yn rhan o'r broses brofi ar gyfer UWTSD, er bod profion gan ddarparwyr eraill yn cael eu derbyn;

- Mae Prifysgol Bangor yn cynnig sesiwn baratoi (a gyflwynir yn fewnol) y diwrnod cyn y prawf cyfwerthedd, er nad yw'n cael ei darparu cyn pob dyddiad prawf. Nid oes rhaid dilyn y cwrs yn rhan o'r broses brofi;
- Mae Prifysgol Aberystwyth yn cynnig gweithdy 3 awr i ymgeiswyr (a gyflwynir yn fewnol) ar ddiwrnod y profion. Nid oes rhaid dilyn y cwrs yn rhan o'r broses brofi;
- Nid yw Prifysgol Metropolitan Caerdydd yn cynnig sesiwn baratoi, ond (fel yr holl ddarparwyr eraill) mae'n darparu rhywfaint o arweiniad i ymgeiswyr, gan gynnwys dolenni i wefannau awgrymedig (e.e. hen bapurau CBAC);
- Nid yw Teach First yn cynnig sesiwn baratoi gan eu bod yn cyfeirio ymgeiswyr heb Radd B at ddarparwyr eraill, sef darparwr AGA agosaf yr ymgeisydd fel arfer. Fodd bynnag, maen nhw'n cynnig ysgol haf i ymgeiswyr sy'n cynnwys pwyslais ar Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cymru.

2.28 Mae'r rhan fwyaf o ddarparwyr yn dweud eu bod wedi darparu hen bapurau profion cyfwerthedd i ymgeiswyr yn rhan o'r broses o baratoi ar gyfer y prawf. Nododd darparwyr hefyd eu bod yn cyfeirio ymgeiswyr at wefan CBAC lle y gellir cael gafael ar hen bapurau.


2.29 Dywedodd y rhan fwyaf o'r darparwyr, yr ymgeiswyr a'r rhanddeiliaid a gyfwelwyd y byddent yn hoffi gweld cwrs paratoi'n cael ei gynnig i bob ymgeisydd sy'n sefyll profion cyfwerthedd. Roedd y rhan fwyaf o'r rhai a gyfwelwyd yn cefnogi ymagwedd fwy cyson at baratoi ymgeiswyr ar gyfer profion cyfwerthedd. Roedd rhai darparwyr yn teimlo y byddai'n decach petai cyrsiau llythrennedd a rhifedd cenedlaethol ar gael i bob ymgeisydd ac wedi'u hanelu at ddatblygu sgiliau sy'n gyfwerth â Gradd B TGAU. Roedd eraill o'r farn bod cynnwys elfennau llythrennedd a rhifedd penodol yn y cwrs AGA ei hun yn ddull amgenach.

2.30 Gofynnwyd i'r ymgeiswyr yn yr arolwg ynglŷn â pha gymorth a gawsant i baratoi ar gyfer y prawf cyfwerthedd. O'r 89 o ymatebwyr a roddodd ateb, nid oedd 35% (31 ymatebwr) wedi cael unrhyw gymorth ac roeddent wedi paratoi ar gyfer y profion eu hunain neu gyda chymheiriaid gan ddefnyddio hen ddeunydd profion a gafwyd yn breifat (11 ymateb); gan ddefnyddio deunydd profion a roddwyd gan y darparwr AGA (chwe ymateb); neu gan

ddefnyddio deunydd arall sydd ar gael, fel canllawiau TGAU (12 ymateb). Dywedodd dau ymatebwr eu bod wedi paratoi trwy dalu am diwtor.

2.31 Derbyniodd yr ymatebwyr wahanol ffurfiau (ac yn aml sawl gwahanol fath) o gymorth (Ffigur 2.4). Yn bwysig, y math mwyaf poblogaidd o gymorth oedd gweithdy unigol; dewiswyd hwn gan y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a safodd eu prawf cyfwerthedd ym Mhrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant (yn y naill safle neu'r llall). Dywedodd ymatebwyr o Brifysgol Met Caerdydd (11 ymatebwr) mai'r prif fath o gymorth a gawsant oedd cael eu cyfeirio at ddeunydd paratoi at gwrs (e.e. dolenni i wefan), er bod mwy o ymatebwyr (23 ymatebwr) wedi dweud nad oeddent wedi cael unrhyw gymorth o gwbl ac y bu'n rhaid iddynt baratoi ar gyfer y profion eu hunain. Dim ond dau ymatebwr a ddywedodd nad oeddent wedi paratoi ar gyfer y prawf o gwbl.

**Ffigur 2.4 Ymatebion ymgeiswyr i'r cwestiwn 'A gawsoch chi unrhyw un o'r mathau canlynol o gymorth i'ch helpu i baratoi ar gyfer y prawf/profion cyfwerthedd?'**




*Sylfaen: Ymatebwyr i'r arolwg ymgeiswyr (N = 89)*

2.32 Gofynnwyd i'r ymgeiswyr hefyd nodi p'un a oedd eu darparwr cwrs AGA wedi rhoi'r cymorth hwnnw iddynt; dywedodd ychydig yn llai na thri chwarter (74%, N = 62) fod y darparwr wedi rhoi'r cymorth cyn y prawf.

2.33 Rhoddodd yr ymgeiswyr safbwyntiau ychwanegol ynglŷn â'r cymorth a gawsant cyn y prawf yn ystod cyfweliadau a'r arolwg. Roedd gan ymgeiswyr a oedd wedi dilyn cwrs i baratoi ar gyfer y prawf farn gadarnhaol am gynnwys y cwrs:


‘Roedd y cwrs yn dda… roedd y dosbarthiadau i gyd wedi’u strwythuro’n dda iawn, ac roedd yn golygu y cefais gyfle go iawn i ddysgu.  Wrth gwrs, gallasai wedi bod yn hirach oherwydd roedd yn teimlo fel petaen ni’n gwthio llawer i mewn ac roedden ni’n cael gwaith cartref bob wythnos.’  Cyfweliad ag ymgeisydd AGA

‘…dyma oedd y tro cyntaf i mi deimlo fy mod yn deall Mathemateg o ddifrif; roedd yr addysgu’n rhagorol.’  Cyfweliad ag ymgeisydd AGA

‘Mae cymaint o bethau eang i’w hadolygu ac mae’n anodd mynd o C i B a cheisio dysgu’r holl wybodaeth honno mewn cyfnod byr, felly dyna pam y dewisais y cwrs gyda chymorth a thalu’r gost yn hytrach na gwneud yr un rhad ac am ddim … Mae eithaf tipyn o bobl yn [y darparwr] wedi gwneud hynny.’  Cyfweliad ag ymgeisydd AGA

2.34 Mae canlyniadau’r arolwg ymgeiswyr yn dangos bod gan y mwyafrif farn gadarnhaol iawn ynglŷn â’r cymorth cyn y prawf, yn bennaf oherwydd eu bod yn credu ei fod yn berthnasol ac yn briodol i’r prawf; roeddent yn teimlo’n fwy hyderus ar ôl cael y cymorth; ac fe’i darparwyd mewn fformat effeithiol (0). Pan ofynnwyd iddynt ymateb i ddatganiadau ‘negyddol’, dim ond 28% oedd yn cytuno’n gryf neu’n cytuno nad oedd y cymorth cyn y prawf yn ddigon hir i adolygu neu ymdrin â’r cynnwys a oedd yn ofynnol, ac roedd 14% yn credu nad oedd y cymorth cyn y prawf wedi eu paratoi’n effeithiol ar gyfer y prawf.

**Ffigur 2.5 I ba raddau yr oedd ymgeiswyr yn cytuno neu'n anghytuno â datganiadau ynglŷn â'r cymorth a gafwyd cyn y prawf**




*Sylfaen: Ymatebwyr i'r arolwg ymgeiswyr a gafodd gymorth, N = 62 (ar gyfer yr holl ddatganiadau)*

2.35 Gofynnwyd i'r ymgeiswyr i ba raddau yr oeddent yn teimlo bod angen gwella'r prosesau cyn-ymgeisio. Mae Ffigur 2.6 yn dangos bod ychydig dros hanner (52%) yn cytuno'n gryf neu'n cytuno bod angen gwella'r trefniadau cymorth cyn-ymgeisio, tra bod dros draean yn anghytuno'n gryf neu'n anghytuno (37%). Pan ofynnwyd iddynt nodi sut y gellid gwella'r trefniadau, rhoddwyd yr ymatebion canlynol gan 25 ymatebwr:


- Roedd pedwar ymatebwr yn credu y dylai mwy o ymwybyddiaeth ac arweiniad fod ar gael ynglŷn â'r cyrsiau cyn y prawf, gan gynnwys y gofyniad i wneud y prawf yn y lle cyntaf (cyn dechrau'r cwrs).
- Roedd un ar ddeg o ymatebwyr yn credu y dylai fod mwy o amser i baratoi neu fwy o weithgareddau paratoi. Er enghraifft, dywedodd un ymatebwr y dylid cynnal "archwiliad o wybodaeth am bwnc cyn neu yn ystod y broses adolygu cyn y prawf… fel bod yr ymgeisydd yn ymwybodol o'r bylchau yn ei wybodaeth, ac i wneud yr adolygu mor effeithiol â phosibl o ganlyniad".
- Roedd dau ymatebwr yn credu y byddent wedi elwa o gymorth ar-lein, a nododd un arall hefyd ei bod hi'n anodd cael mynediad at y prawf a'r cymorth oherwydd pellter; ac

- Roedd dau ymatebwr yn credu bod angen gwella'r profion a'r cymorth fel eu bod yn adlewyrchu'r hyn a nodir mewn meysydd llafur TGAU yn well.

2.36 Roedd rhai ymgeiswyr a gyfwelwyd wedi sefyll eu prawf cyfwerthedd gyda darparwr preifat. Roedd yr ymgeiswyr hyn yn tueddu i fod â safbwyntiau llai cadarnhaol ynglŷn â chymorth cyn y prawf.

> 'Does dim ots gen i dalu £50 am yr arholiad, ond rwy'n teimlo y gallai adnoddau ar-lein wedi bod am ddim. Roedd yr adnoddau'n ddrud yn fy marn i. Os nad oeddwn i'n deall sut i gael ateb, nid oedd neb y gallwn alw arno na rhywun i eistedd wrth fy ymyl i'w esbonio i mi… doedd gen i ddim cymorth â hynny.' Cyfweliad ag ymgeisydd AGA

**Ffigur 2.6 I ba raddau yr oedd ymgeiswyr yn cytuno neu'n anghytuno bod angen gwella'r trefniadau cymorth cyn-ymgeisio**




*Sylfaen: Ymatebwyr i'r arolwg ymgeiswyr, N = 89 (12 na ymatebodd wedi'u heithrio o'r dadansoddiad)*

### Trefniadau profi cyfwerthedd

2.37 Mae'r adran isod yn amlinellu pa brofion cyfwerthedd a ddefnyddir gan bob darparwr a sut oedd y rhain wedi cael eu datblygu neu eu dethol. Rhoddir nifer yr ymgeiswyr a safodd profion ynghyd â manylion am sut y gweinyddwyd profion, gan gynnwys y ffioedd a godwyd, a hyd ac amseriad profion. Mae'r dystiolaeth yn dod o ymchwil ddesg a chyfweliadau â darparwyr ac ymgeiswyr, yn ogystal â'r arolwg ymgeiswyr.

*Datblygu profion*

2.38 Mae pedwar o'r chwe darparwr AGA (Prifysgol De Cymru, Prifysgol Metropolitan Caerdydd, Prifysgol Bangor a Phrifysgol Aberystwyth) wedi datblygu profion cyfwerthedd mewnol ar gyfer Saesneg a Mathemateg. Mae UWTSD yn defnyddio contractwr allanol i ddarparu'r profion ac mae Teach First yn cyfeirio ymgeiswyr at eu darparwr daearyddol agosaf yn hytrach na darparu eu prawf eu hunain neu ddefnyddio contractwr.[23] Mae dau ddarparwr arall (Prifysgol Met Caerdydd a Phrifysgol Bangor) yn dweud eu bod wedi defnyddio contractwyr allanol tan yn eithaf diweddar, ond eu bod wedi datblygu eu profion eu hunain ers hynny.

2.39 Mae'r holl ddarparwyr yn dweud bod staff neu gontractwyr allanol a chanddynt brofiad o addysgu a marcio papurau Saesneg neu fathemateg TGAU wedi bod yn ymwneud â dylunio eu profion cyfwerthedd. Disgrifiodd staff darparwyr a oedd wedi bod yn ymwneud â datblygu profion cyfwerthedd sut oeddent wedi adolygu hen bapurau TGAU (papurau uwch a hen bapurau canolraddol), gan ganolbwyntio'n arbennig ar gwestiynau a oedd wedi'u hanelu at Radd B. Mae sawl darparwr wedi datblygu eu profion yn seiliedig ar gronfa gwestiynau CBAC. Roedd un darparwr (Coleg Sir Gâr, sy'n gweinyddu'r profion ar gyfer UWTSD) wedi gweithio gyda chorff achredu (Agored Cymru) wrth ddatblygu ei brofion. Nododd darparwr arall ei fod wedi ceisio cyngor anffurfiol gan CBAC wrth ddatblygu ei brofion cyfwerthedd.

> 'Gwnaethom fodelu'r profion ar hen bapurau TGAU haen ganol. Gwnaethom ddefnyddio cwestiynau mathemateg TGAU CBAC o hen bapurau a dileu'r cwestiynau A/A* uwch fel ein bod ni ond yn defnyddio'r rhai o safon gradd B neu C. Rhoddodd hynny ychydig o her i ni wrth bennu marc llwyddo, oherwydd bod y marc llwyddo ar gyfer y papur uwch yn isel – 50% oedd y marc llwyddo a osodwyd gennym.' Cyfweliad â darparwr AGA


2.40 Yn gyffredinol, mae darparwyr o'r farn bod eu profion wedi'u gosod ar lefel briodol i asesu p'un a oes gan ymgeiswyr sgiliau llythrennedd a rhifedd a fyddai'n eu galluogi i gyflawni Gradd B TGAU. Fodd bynnag, mae darparwyr yn cydnabod nad oes sicrwydd ansawdd annibynnol ffurfiol i ddilysu bod

[23] Mae UWTSD yn defnyddio Coleg Sir Gâr – Sefydliad Addysg Bellach lleol sydd wedi datblygu ei brofion ei hun yn fewnol i ymateb i anghenion y darparwr AGA. Mae Teach First yn cyfeirio ymgeiswyr at y darparwr daearyddol agosaf i ymgeiswyr.

hynny'n wir nac i werthuso p'un a yw papurau darparwyr wedi'u gosod ar lefel gyson at ei gilydd.

2.41 Gofynnwyd i'r ymgeiswyr roi eu barn am gynnwys y profion yn yr arolwg. Mae Ffigur 2.7 yn dangos bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr hefyd yn cytuno'n gryf neu'n cytuno bod cynnwys y prawf/profion cyfwerthedd yr oeddent wedi'u sefyll yn addas, er bod bron chwarter (23%) yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf mai dyna oedd y ffordd orau o brofi p'un a oeddent wedi bodloni'r gofynion mynediad.

**Ffigur 2.7 Barn am gynnwys y prawf/profion cyfwerthedd**




*Sylfaen: Ymatebwyr i'r arolwg ymgeiswyr, N = 87 (14 heb ymateb wedi'u heithrio o'r dadansoddiad)*

2.42 Roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr a gyfwelwyd yn credu bod cynnwys eu prawf cyfwerthedd yn addas o ran ei lefel anhawster.

> 'Roeddwn i'n credu ei fod yn berffaith. Roedd llawer o'r papur ar lefel uwch, sef yr hyn rydym ni wedi bod yn ei wneud mewn ymarfer addysgu. Roedd y gweithdy gloywi'n eithaf defnyddiol. Fe wellodd fy sgiliau rhifedd oherwydd bod peth amser wedi mynd heibio.' Cyfweliad ag ymgeisydd AGA

2.43 Dywedodd rhai ymgeiswyr nad oedd y profion mor gynhwysfawr ag arholiad TGAU llawn yn eu barn nhw. Roedd rhai ymgeiswyr a oedd wedi sefyll profion mwy nag un darparwr neu a oedd wedi trafod eu profion ag ymgeiswyr eraill yn credu bod rhywfaint o anghysondeb yn y profion.

> 'O'r hyn rydw i wedi'i glywed, roedd y prawf a sefais i ychydig yn haws na rhai o'r profion eraill y bu'n rhaid i bobl eu gwneud i gael lle ar y cwrs… byddai cael safon yn well oherwydd byddai'n golygu bod gofynion yn cael

eu bodloni mewn gwirionedd fel y'u gosodwyd gan y Llywodraeth.' Cyfweliad ag ymgeisydd AGA

'Roeddwn i'n cael trafferth credu y byddai cynnwys y cwrs a'r prawf o safon gradd B TGAU; roeddwn i'n credu y byddai TGAU dipyn yn anoddach.' Cyfweliad ag ymgeisydd AGA

*Nifer yr ymgeiswyr sy'n sefyll profion*

2.44 Mae data gan y darparwyr AGA yn dangos bod 214 o ymgeiswyr 2017/18 wedi sefyll prawf cyfwerthedd Saesneg a bod 286 wedi sefyll prawf mathemateg. Mae data UCAS ynglŷn â chyfanswm nifer yr ymgeiswyr ar gyfer 2016 (2,090), yn awgrymu bod oddeutu 10% o'r ymgeiswyr wedi sefyll prawf cyfwerthedd Saesneg, tra bod oddeutu 14% o'r ymgeiswyr wedi sefyll prawf cyfwerthedd mathemateg.[24]

2.45 Mae data darparwyr yn dangos nad oedd unrhyw ymgeiswyr wedi sefyll prawf cyfwerthedd Cymraeg yn 2017/18. Datgelodd cyfweliadau â staff darparwyr AGA nad yw'r un o'r darparwyr yn cynnig prawf cyfwerthedd Cymraeg. Roedd rhai staff darparwyr a oedd yn ymwneud â chyflwyno cyrsiau AGA cyfrwng Cymraeg yn credu y gallai'r trefniadau presennol fod yn annheg i ymgeiswyr heb Radd B yn y Gymraeg a'r Saesneg sydd eisiau addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Dywedodd rhai cyfweleion o ddarparwyr AGA yr hoffent weld prawf cyfwerthedd Cymraeg yn cael ei ddatblygu, ond roedd un yn credu nad oedd angen prawf cyfwerthedd Cymraeg oherwydd ychydig iawn o ymgeiswyr ar gyfer AGA cyfrwng Cymraeg nad oes ganddynt Radd B yn y Gymraeg a'r Saesneg.

'Mae'r ymgeiswyr Cymraeg eu hiaith ar eu colled yn fwy oherwydd efallai na fyddant mor hyderus yn eu hail iaith. Mae'n rhaid iddyn nhw gael gradd B er eu bod nhw eisiau addysgu yn y sector cyfrwng Cymraeg.' Cyfweliad â darparwr AGA.

[24] Mae'r data ar gyfer Bangor yn dangos bod oddeutu 7% o ymgeiswyr AGA wedi sefyll prawf cyfwerthedd Saesneg a bod oddeutu 8.5% wedi sefyll prawf cyfwerthedd mathemateg. Mae'r data ar gyfer Aberystwyth yn dangos bod oddeutu 7.5% o ymgeiswyr wedi sefyll prawf mathemateg a bod 8.5% wedi sefyll prawf Saesneg. Mae'r data ar gyfer USW yn dangos bod oddeutu 2% wedi sefyll y prawf Saesneg a bod oddeutu 3% wedi sefyll y prawf mathemateg. Ni ddarparodd UWTSD ddata ar nifer yr ymgeiswyr, ond mae eu data'n dangos bod oddeutu 11.5% o fyfyrwyr AGA wedi sefyll prawf cyfwerthedd Saesneg a bod oddeutu 19% o fyfyrwyr wedi sefyll prawf cyfwerthedd mathemateg.

2.46 Mae'r data gan ddarparwyr AGA yn dangos bod bron 9 o bob 10 ymgeisydd wedi llwyddo yn eu profion cyfwerthedd Saesneg neu fathemateg. Roedd cyfanswm o 86% o'r ymgeiswyr a safodd brofion Saesneg yn llwyddiannus, tra bod 89% o'r rhai a safodd brofion mathemateg yn llwyddiannus. Roedd y cyfraddau llwyddo'n amrywio'n sylweddol ar draws y darparwyr: 46%-100% o ran profion mathemateg; a 56%-97% o ran profion Saesneg. Dangosir y cyfraddau llwyddo yn ôl darparwr a phrawf isod (Tabl 2.3).

**Tabl 2.3 Nifer ymgeiswyr AGA 2017/18 a safodd ac a lwyddodd mewn profion cyfwerthedd**


| Darparwr | Ymgeiswyr Saesneg | | | Ymgeiswyr mathemateg | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer a safodd y prawf | Nifer a lwyddodd | Cyfradd lwyddo* | Nifer a safodd y prawf | Nifer a lwyddodd | Cyfradd lwyddo* |
| Bangor | 65 | 59 | 91% | 72 | 69 | 96% |
| UWTSD | 70 | 68 | 97% | 109 | 109 | 100% |
| Aberystwyth | 17 | 10 | 59% | 15 | 13 | 87% |
| Met Caerdydd | 53 | 48 | 91% | 77 | 49 | 64% |
| USW | 9 | 5 | 56% | 13 | 6 | 46% |
| **Cyfanswm** | **214** | **190** | **89%** | **286** | **246** | **86%** |

*Mae cyfraddau llwyddo'n cynnwys y rhai sydd wedi llwyddo profion ailsefyll

*Ffynhonnell: Cais am ddata i ddarparwyr AGA a dadansoddiad yr awdur*

2.47 Gofynnwyd i'r ymgeiswyr a arolygwyd ba brofion cyfwerthedd yr oeddent wedi'u sefyll. Mae 0 yn dangos y profion cyfwerthedd yr oedd yr ymatebwyr wedi'u sefyll. Roedd mwy o ymatebwyr wedi sefyll y profion mathemateg/rhifedd na'r profion Iaith Saesneg, a bu'n rhaid i 17 o ymatebwyr sefyll y ddau brawf. Nid oedd yn bosibl dadansoddi data'r holl ddarparwyr yn yr un ffordd, ond mae dadansoddiad o ddata un darparwr (UWTSD) ar gyfer derbyn myfyrwyr yn 2017/18 yn dangos rhaniad tebyg: safodd 19% o'r ymgeiswyr y profion Saesneg a mathemateg, safodd 27% y prawf Saesneg yn unig a safodd 53% y prawf mathemateg yn unig.

**Ffigur 2.8 Pa brawf/brofion cyfwerthedd a safoch chi?**




*Sylfaen: Ymatebwyr i'r arolwg ymgeiswyr a oedd wedi cwblhau prawf cyfwerthedd (tri heb ymateb).*

2.48 Mae'n amlwg o'r ymatebion i'r arolwg fod rhai ymgeiswyr (30) wedi sefyll y prawf gyda darparwr AGA lle nad oeddent wedi derbyn lle yn y pen draw (Tabl 2.4).[25]

**Tabl 2.4 Gyda pha ddarparwr y safoch chi'r prawf/profion cyfwerthedd ag ef gyntaf?**

| Darparwr y Cwrs | Darparwr fy nghwrs | Darparwr arall |
|---|---|---|
| Prifysgol Aberystwyth | 4 ymateb | 1 ymateb |
| Prifysgol Bangor | 2 ymateb | 4 ymateb |
| Prifysgol Metropolitan Caerdydd | 36 ymateb | 5 ymateb |
| Rhaglen Addysgu Graddedigion | 2 ymateb | 2 ymateb |
| Teach First Cymru | 0 ymateb | 1 ymateb |
| Prifysgol De Cymru | 6 ymateb | 8 ymateb |
| Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, Caerfyrddin | 10 ymateb | 3 ymateb |
| Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, Abertawe | 31 ymateb | 6 ymateb |

*Sylfaen: Ymatebwyr i'r arolwg ymgeiswyr (10 heb ymateb, heb eu dangos)*

*Ffioedd*

2.49 Mae ymchwil ddesg a chyfweliadau â darparwyr yn datgelu amrywiadau sylweddol yn y ffioedd a delir gan ymgeiswyr i wneud y profion – yn amrywio o £0-275. Nid yw dau ddarparwr (UWTSD a Phrifysgol Met Caerdydd) yn codi unrhyw ffioedd am sefyll eu profion cyfwerthedd, tra bod Prifysgol Bangor yn codi ffi o £35 sy'n cael ei had-dalu os bydd ymgeiswyr yn cael ac yn derbyn cynnig o le. Mae Prifysgol Aberystwyth yn codi ffi o £35 hefyd tra

[25] D.S. Oherwydd bod yr ymatebwyr yn gallu rhoi un ateb yn unig, nid yw hyn yn cyfrif am ymatebwyr y bu'n rhaid iddynt sefyll profion mathemateg/rhifedd a Saesneg gyda darparwyr gwahanol.

bod USW yn codi £275 am ddilyn eu cwrs 12 wythnos (nid ydynt yn caniatáu sefyll y prawf yn unig).

2.50 Gofynnwyd i'r ymatebwyr i'r arolwg y bu'n rhaid iddynt dalu ffi i sefyll y prawf cyfwerthedd roi amcangyfrif o'r ffi a dalwyd. Er bod rhai ymatebwyr wedi rhoi amcangyfrif o gyfanswm y prawf a'r cymorth a gafwyd (talodd pedwar ymatebwr £150 a thalodd tri ymatebwr £250), rhoddodd eraill gost y prawf yn unig. Roedd y ffioedd yn dechrau am £30, a rhoddwyd un ar ddeg o werthoedd gwahanol gan 21 ymatebwr.

**Tabl 2.5 Gwybodaeth am brofion cyfwerthedd AGA a gynigiwyd gan ddarparwyr profion cyfwerthedd**

| Darparwr | Nifer yr ymgeiswyr | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Y bu'n rhaid iddynt dalu ffi (N = 80)** | **Yr ad-dalwyd eu ffi (N = 28)** | **Y rhoddwyd cyfle iddynt ailsefyll (N = 57)** | **Y rhoddwyd cyfle iddynt wneud y prawf ar-lein (N = 70)** |
| Prifysgol Aberystwyth | 2 | 0 | 3 | 0 |
| Prifysgol Bangor | 2 | 0 | 0 | 0 |
| Prifysgol Metropolitan Caerdydd | 8 | 3 | 24 | 0 |
| Prifysgol De Cymru | 4 | 0 | 2 | 1 |
| Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant (Caerfyrddin) | 0 | 0 | 4 | 0 |
| Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant (Abertawe) | 10 | 1 | 15 | 1 |
| Darparwr AGA arall | 2 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **28** | **4** | **48** | **2** |

*Sylfaen: Ymatebwyr a atebodd gwestiynau am y trefniadau (wedi'u nodi yn y tabl)*


*Hyd profion*

2.51 Mae ymchwil desg a chyfweliadau â darparwyr yn dangos bod y profion yn cymryd rhwng 90 munud a dwy awr. Cydnabu'r darparwyr na allai'r profion ymdrin â phob agwedd ar arholiad cwrs Saesneg neu fathemateg TGAU yn ystod yr amser hwnnw, ond eu bod yn canolbwyntio ar asesu p'un a fyddai ymgeiswyr yn meddu ar y sgiliau i gyflawni Gradd B mewn arholiad llawn. Roedd y darparwyr a'r rhanddeiliaid a gyfwelwyd yn credu y dylai fod mwy o gysondeb o ran hyd a chynnwys profion.

2.52 Roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr a gyfwelwyd yn credu bod hyd y profion yn cyfateb i'r hyn y byddent wedi'i ddisgwyl. Fodd bynnag, dywedodd rhai ymgeiswyr nad oedd y profion mor gynhwysfawr ag arholiad TGAU llawn, a dywedodd un fod y profion 'braidd yn arwynebol'.

2.53 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr i'r arolwg yn cytuno'n gryf neu'n cytuno bod y prawf AGA yr oeddent wedi'i sefyll o'r hyd iawn (80%, N = 87). Gofynnwyd i'r ymgeiswyr yn yr arolwg amcangyfrif hyd y prawf yr oeddent wedi'i sefyll, fel y dangosir yn Ffigur 2.9. Mae hyn yn dangos bod y rhan fwyaf o'r profion tua 31-60 munud, a bod profion Iaith Saesneg yn hirach yn gyffredinol.

**Ffigur 2.9 Amcangyfrifon ymgeiswyr o hyd eu profion cyfwerthedd**




*Sylfaen: Ymatebwyr a safodd brawf Iaith Saesneg (N = 45) ac ymatebwyr a safodd brawf Mathemateg / Rhifedd (N = 60), heb gynnwys dim ymateb.*

*Amseriad profion*


2.54 Dywedodd yr holl ddarparwyr eu bod yn cynnig sawl dyddiad yn ystod y flwyddyn i ymgeiswyr sefyll profion cyfwerthedd. Roedd darparwyr yn cynnig rhwng pedwar ac wyth dyddiad yn arwain at ddyddiadau dechrau'r cyrsiau AGA ym mis Medi, ac roedd sawl un yn cynnig oddeutu un dyddiad y mis o fis Chwefror ymlaen. Pwysleisiodd darparwyr yr angen am hyblygrwydd i ddenu ymgeiswyr. Weithiau, roedd rhai'n cynnig dyddiadau i un myfyriwr sefyll prawf er mwyn darparu'r hyblygrwydd hwn. Yn gyffredinol, roedd darparwyr yn credu eu bod yn cynnig digon o hyblygrwydd o ran amseriad profion, a digon o gyfleoedd i ymgeiswyr sefyll y profion.

2.55 Gofynnwyd i'r ymgeiswyr ba bryd yr oeddent wedi sefyll eu profion cyfwerthedd. Dywedodd dwy ran o dair o'r ymgeiswyr eu bod wedi sefyll eu prawf rhwng mis Ebrill a mis Awst, a dywedodd chwarter o'r ymatebwyr eu bod wedi gwneud eu prawf cyfwerthedd AGA ym mis Awst, yn union cyn dechrau'r flwyddyn academaidd. Roedd ymgeiswyr a ddywedodd eu bod yn ymwybodol o'r dewis i sefyll prawf cyfwerthedd pan wnaethant benderfynu gwneud cais am AGA yn fwy tebygol o sefyll y prawf yn gynharach yn y flwyddyn, o gymharu â'r rhai a gafodd wybod am y prawf dim ond pan oeddent wedi derbyn cynnig amodol. Roedd tua dwy ran o bump (39%) o'r rhai a oedd yn ymwybodol o'r dewis i sefyll prawf cyn gwneud cais am eu cwrs AGA wedi sefyll eu prawf rhwng mis Ionawr a mis Ebrill. Mae hyn yn cymharu â 13% yn unig o ymgeiswyr a ddywedodd y daethant yn ymwybodol o'r dewis i sefyll prawf cyfwerthedd pan gawsant gynnig amodol.

*Derbyn canlyniadau profion*

2.56 Dywedodd darparwyr eu bod fel arfer yn anfon canlyniadau at ymgeiswyr o fewn pythefnos o sefyll y profion. Roedd y darparwyr yn credu bod y trefniadau hyn yn ddigonol. Roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr a gwblhaodd yr arolwg yn cytuno neu'n cytuno'n gryf eu bod wedi derbyn eu canlyniadau'n brydlon/mewn da bryd. Mae 0 yn dangos bod yr ymgeiswyr wedi rhoi ymatebion cymysg ynglŷn â faint o adborth a gawsant ar ôl eu prawf cyfwerthedd AGA, wrth i 21% anghytuno a 15% anghytuno'n gryf ei fod yn ddigonol. Roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn cytuno'n gryf neu'n cytuno bod y profion wedi cael eu sgorio a'u cymedroli'n deg gan y darparwr.

**Ffigur 2.10 Safbwyntiau ymgeiswyr ynglŷn â chanlyniadau'r prawf/profion cyfwerthedd**




*Sylfaen: Cyfanswm yr ymatebwyr, N = 87 (14 heb ymateb wedi'u heithrio o'r dadansoddiad)*

*Safbwyntiau cyffredinol ynglŷn â phrofi cyfwerthedd*

2.57 Gofynnwyd i'r ymgeiswyr yn yr arolwg roi gwybodaeth ychwanegol am y profion yr oeddent wedi'u sefyll. O'r 23 o ymatebion, dim ond 19 oedd yn berthnasol[26]:

- **Rhoddodd wyth ymatebwr sylwadau ar drefniadau logistaidd.** Dywedodd dau ymatebwr eu bod wedi sefyll y prawf cyfwerthedd gyda chwmni o'r enw 'Equivalency Testing', roedd un ymatebwr wedi sefyll y prawf gyda chwmni ym Mhrifysgol Bryste[27], ac roedd un arall wedi dilyn cwrs (Mathemateg Hanfodol ar gyfer Addysgu) ym Mhrifysgol De Cymru. Dywedodd un ymatebwr y bu'n rhaid iddo ddefnyddio sawl gwahanol fath o drafnidiaeth i sefyll y prawf, gan awgrymu ei fod yn anghyfleustra.
- **Roedd gan chwe ymatebwr farn gadarnhaol ynglŷn â diben a buddion y prawf.** Roedd yr ymatebwyr yn credu bod y cwrs wedi'i addysgu'n dda ac yn roeddent yn falch o gael y cyfle i wneud y prawf a chael lle ar eu cwrs addysgu. Dywedodd un ymatebwr fod trefniadau paratoi a strwythurau rhagorol ar waith i wneud y profion, ond credai hefyd nad oedd yr ystod lawn o opsiynau wedi cael ei hegluro ("daeth yn

[26] Dywedodd rhai ymatebwyr (N = 3) nad oeddent yn gallu ateb y cwestiynau blaenorol ynglŷn â'r trefniadau profi e.e. "Dydw i ddim yn cofio faint oedd pris y prawf". Roedd un ymatebwr wedi nodi 'Dd/B'.

[27] O ran un darparwr AGA o leiaf, roedd ymgeiswyr nad oeddent yn gallu mynychu unrhyw un o'r dyddiadau prawf cyfwerthedd mewnol a gynhaliwyd ar safle darparwr AGA yng Nghymru yn cael eu hannog i wneud eu trefniadau eu hunain i sefyll prawf cyfwerthedd gyda chwmni preifat ar ddyddiadau gwahanol ac mewn lleoliad gwahanol.

amlwg fod opsiynau eraill nad oedd yn costio £250, ond nid oedd hyn wedi cael ei egluro”).

- **Roedd gan bum ymatebwr farn lai cadarnhaol ynglŷn â’r profion cyfwerthedd.** Dywedodd un ymatebwr ei fod yn “weithgarwch dibwrpas” a dywedodd un arall hefyd ei fod yn “wastraff amser”. Cyfeiriodd ymatebwr arall at y ‘bwlch’ rhwng safonau TGAU a safonau cyfwerthedd, gan awgrymu bod yr ail yn haws. Yn olaf, roedd un ymatebwr – a ddywedodd fod y profion wedi’u gosod ar y lefel iawn – o’r farn bod y trefniadau ar ôl y prawf yn wael (e.e. nid oedd wedi derbyn ei dystysgrif).

2.58 Gofynnwyd i’r ymgeiswyr a arolygwyd a oedd ganddynt unrhyw sylwadau ychwanegol ynglŷn â’r profion cyfwerthedd AGA. Crynhoir yr ymatebion isod:

- Roedd ambell ymatebwr yn falch o gael y cyfle i wneud prawf cyfwerthedd. Roeddent yn ei ystyried yn ‘ail gyfle’ ac yn fodd o sicrhau bod cysondeb ymhlith ymgeiswyr sy’n gwneud cais i addysgu.
- Fodd bynnag, yn aml, roedd yr ymatebwyr yn teimlo eu bod wedi’u cyfyngu gan leoliad a threfniadau logistaidd y profion a’r cymorth; nid oedd un ymatebwr wedi manteisio ar y cymorth oherwydd y pellter, a chyfeiriodd nifer o ymatebwyr at gost talu am y profion a’r cymorth.
- Yn ogystal, roedd saith ymatebwr yn teimlo y gallent fod wedi cael adborth gwell ar ôl y prawf, er mwyn iddo fod yn debycach i brawf ffurfiol ac ardystiedig yn hytrach nag ymarfer ticio blwch. Roedd hyn yn cynnwys cael eu canlyniadau’n gynt, rhoi dadansoddiad manylach o’r canlyniadau (e.e. nid llwyddo neu fethu yn unig) a gallu cael tystiolaeth well o’r radd a gyflawnwyd.
- Dywedodd rhai ymatebwyr hefyd y dylent gael gwybod am y prawf yn gynt yn ystod y broses ymgeisio, a hefyd o ran y rhai sy’n ystyried ailsefyll y cwrs TGAU llawn. Dywedodd un ymatebwr a gwblhaodd ei hyfforddiant AGA fel myfyriwr ‘aeddfed’ fod y gofyniad i gael Gradd B TGAU neu gyfwerth yn fwy anodd i ymgeiswyr hŷn ac y gallai atal nifer o bobl rhag gwneud cais (yn enwedig pan nad ydynt yn sylweddoli nad oes rhaid iddynt ailsefyll y TGAU llawn i gael lle ar y cwrs). Yn ogystal, dywedodd un ymatebwr:

  ‘Mae’r profion yn ymddangos yn rhwystr diangen i brifysgolion yng Nghymru pan all ymgeiswyr â gradd wneud cais i brifysgolion yn Lloegr

am yr un cymhwyster heb y prawf. Mae hyn yn arbennig o wir o ystyried bod y sgiliau llythrennedd a rhifedd sy'n angenrheidiol ar gyfer y proffesiwn eisoes yn cael eu profi trwy asesiadau safonedig.'
Ymatebwr i'r arolwg ymgeiswyr

**Crynodeb o'r arferion presennol**

2.59 Amlinellir isod y prif ganfyddiadau sy'n ymwneud â threfniadau profi cyfwerthedd ac AGA:

- Mae pob darparwr (heblaw am Brifysgol Metropolitan Caerdydd, sy'n derbyn Gradd D ar gyfer rhai ymgeiswyr uwchradd) yn mynnu bod gan ymgeiswyr Radd C TGAU mewn Saesneg a/neu Gymraeg a mathemateg i gael eu hystyried ar gyfer mynediad, yn amodol ar basio prawf cywerthedd ;
- Mae darparwyr a rhanddeiliaid yn gyfarwydd â'r gofynion mynediad ar gyfer AGA yng Nghymru, ond nid ydynt bob amser yn eglur i ymgeiswyr;
- Nid yw pob ymgeisydd yn ymwybodol o'r gofyniad am Radd B, y cymwysterau yr ystyrir eu bod yn gyfwerth a'r gwahanol opsiynau ar gyfer sefyll prawf cyfwerthedd tan iddynt gael cynnig amodol gan eu darparwr;
- Nid yw darparwyr yn cofnodi nifer yr ymgeiswyr heb Radd B mewn Saesneg a mathemateg fel mater o drefn, er bod rhai darparwyr yn cofnodi'r wybodaeth hon;
- Roedd cyfanswm o 214 o ymgeiswyr ar gyfer mynediad yn 2017/18 wedi sefyll profion cyfwerthedd Saesneg ac roedd 286 wedi sefyll profion cyfwerthedd mathemateg;
- Mae'r holl ddarparwyr, heblaw am Teach First Cymru (sy'n cyfeirio ymgeiswyr at ddarparwyr eraill), wedi datblygu neu gomisiynu eu profion cyfwerthedd Saesneg a mathemateg eu hunain;
- Roedd dau ddarparwr (Prifysgol Bangor a Phrifysgol Metropolitan Caerdydd) wedi defnyddio darparwyr sector preifat cyn datblygu eu profion eu hunain;
- Mae'r holl ddarparwyr sydd wedi datblygu eu profion eu hunain wedi defnyddio staff a chanddynt brofiad blaenorol o addysgu neu farcio papurau TGAU i wneud hynny. Mae darparwyr yn dweud eu bod wedi defnyddio hen bapurau Saesneg a mathemateg TGAU ar lefel

ganolraddol i lunio eu profion cyfwerthedd.  Mae rhai yn dweud eu bod wedi ymgynghori â staff o gyrff arholi;

- Mae'r trefniadau ar gyfer gweithredu profion cyfwerthedd yn amrywio ar draws darparwyr o ran dylunio a dethol profion, cymorth cyn y prawf, hyd, amseriad, costau a pholisïau ailsefyll;
- Mae'r cymorth cyn profion a gynigir i ymgeiswyr sy'n sefyll profion cyfwerthedd yn amrywio'n sylweddol.  Mae'r cymorth yn cynnwys dilyn cwrs 12 wythnos (USW), mynychu gweithdy deuddydd (UWTSD), mynychu sesiwn baratoi fyrrach (tua hanner diwrnod) (Bangor ac Aberystwyth) a chael arweiniad ysgrifenedig (Prifysgol Met Caerdydd);
- Mae hyd y profion cyfwerthedd a ddefnyddir yn amrywio o 90 munud i 2 awr;
- Mae darparwyr yn cynnig sawl dyddiad yn ystod y flwyddyn i ymgeiswyr sefyll neu ailsefyll eu profion, ond mae'r dyddiadau profi'n amrywio rhwng darparwyr;
- Mae costau sefyll (ac ailsefyll) profion cyfwerthedd yn amrywio'n sylweddol i ymgeiswyr, o fod yn rhad ac am ddim (Metropolitan Caerdydd ac UWTSD) i £275 (ar gyfer y cwrs a'r prawf yn USW);
- Mae'r cyfraddau llwyddo'n amrywio; adroddodd sawl darparwr mai dim ond ambell ymgeisydd, os o gwbl, oedd yn methu;
- Mae polisïau ailsefyll yn amrywio ar draws darparwyr o ganiatáu un cyfle i ailsefyll (Aberystwyth, USW, UWTSD) i dri (Bangor a Phrifysgol Metropolitan Caerdydd;
- Mae'r holl ddarparwyr yn adrodd eu bod yn derbyn canlyniadau profion cyfwerthedd o fannau eraill, gan gynnwys darparwyr preifat a chanolfannau AGA eraill, ac mae ymgeiswyr yn adrodd eu bod wedi dewis prawf pa ddarparwr AGA i'w sefyll;
- Roedd gan ymgeiswyr safbwyntiau cymysg ynglŷn â'r trefniadau profi a'u profiadau;
- Mae darparwyr, rhanddeiliaid ac ymgeiswyr yn credu bod y gofyniad Gradd B yn rhwystr rhag recriwtio ac yn cyfrannu at y gostyngiad yn nifer yr ymgeiswyr AGA, er bod y dystiolaeth ar gyfer hyn yn anecdotaidd.

2.60 Mae Tabl 2.6 yn crynhoi nodweddion allweddol profion cyfwerthedd pob darparwr.

**Tabl 2.6 Crynodeb o drefniadau profi cyfwerthedd presennol darparwyr AGA**[28]

| **Darparwr AGA** | **Gofynion prawf cyfwerthedd** | **Sesiwn baratoi cyn y prawf** | **Hyd y profion** | **Ffioedd** | **Polisi ailsefyll** | **Derbyn profion amgen** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Prifysgol Aberystwyth | Gradd C | Oes – sesiwn 3 awr ar ddiwrnod y prawf. | Saesneg – 2 awr; Mathemateg 2x1 awr 20 munud | £35 fesul prawf a ffi ailsefyll o £35 fesul prawf | Caniateir ailsefyll unwaith | Derbynnir profion cyfwerthedd o fannau eraill |
| Prifysgol Bangor | Gradd C | Oes – sesiwn baratoi y diwrnod cyn y prawf (Nid yw ar gael ar gyfer pob dyddiad profi: 4-5 gwaith y flwyddyn). | Saesneg – 90 munud; Mathemateg - 90 munud | £35 fesul prawf a ffi ailsefyll o £35 fesul prawf (fe'i had-delir os yw'r ymgeisydd yn cofrestru ar gyfer AGA gyda'r darparwr) | Caniateir ailsefyll hyd at deirgwaith | Derbynnir profion cyfwerthedd o fannau eraill. Defnyddiodd ddarparwr prawf sector preifat yn flaenorol. |
| Prifysgol Metropolitan Caerdydd | Gradd C ar gyfer TAR Cynradd; Gradd D ar gyfer TAR Uwchradd | Ni chynigir cwrs | Saesneg – 90 munud; Mathemateg - 90 munud | Dim ffi ar gyfer yr arholiad | Caniateir ailsefyll hyd at deirgwaith | Derbynnir nifer, gan gynnwys USW; Coleg Estyn Cenedlaethol; Equivalency Testing. |
| USW | Gradd C | Cwrs 12 wythnos 5.30-7.30 – Mathemateg ar ddydd Llun; Saesneg ar ddydd Mawrth. Asesu - 50% aseiniad a 50% arholiad | 2 awr | £275 fesul modiwl | Caniateir ailsefyll unwaith | Ie, weithiau cyfeirir at ddarparwyr AGA eraill (fel arfer Prifysgol Met Caerdydd) neu brofwr sector preifat |
| UWTSD | Gradd C | Gweithdy undydd a gweithdy hanner diwrnod cyn y prawf. Portffolio a phrawf a achredir gan Agored Cymru (dim ond y prawf sy'n cyfrif tuag at fynediad) | 2 awr | Ni chodir ffi am y gweithdy na'r arholiad; un cyfle i ailsefyll pob prawf £75 | Caniateir ailsefyll unwaith | Ie, weithiau cyfeirir at gwmnïau profi preifat (e.e. os yw ymgeiswyr yn gwneud cais yn hwyr). |

[28] Nid yw Teach First Cymru wedi'u cynnwys gan eu bod yn cyfeirio ymgeiswyr heb Radd B at eu darparwr daearyddol agosaf.

**Profion eraill cyn mynediad**

*Profion llythrennedd a rhifedd*

2.61 Disgrifiodd pob darparwr AGA ddefnyddio profion llythrennedd a rhifedd eraill yn rhan o'u prosesau recriwtio a derbyn ar gyfer pob ymgeisydd. Heblaw am Teach First Cymru, a esboniodd fod eu hymgeiswyr yn sefyll y profion sgiliau proffesiynol a ddefnyddir yn Lloegr, mae pob darparwr yn defnyddio'r un profion ar gyfer profi sgiliau llythrennedd a rhifedd Cymraeg a Saesneg eu hymgeiswyr.

2.62 Dywedodd staff sawl darparwr fod y profion hyn wedi bod ar waith ers tua phum mlynedd ac wedi cael eu datblygu yn rhan o ymateb wedi'i gydlynu gan ddarparwyr AGA i ofynion Llywodraeth Cymru a amlinellir yn y Gofynion ar gyfer cyrsiau hyfforddiant cychwynnol athrawon ysgol mewn sefydliadau addysg uwch yng Nghymru (Llywodraeth Cymru, 2013).[29] Mae un o'r gofynion a nodir yn y ddogfen hon yn ymwneud ag asesu sgiliau llythrennedd a rhifedd:

> 'Rhaid i bob darparwr sicrhau bod yr holl hyfforddeion yn cael eu hasesu i fod â sgiliau llythrennedd a rhifedd personol gweithredol sy'n gymwys mewn cyd-destun addysgu proffesiynol, ac sy'n addas i'r cyfnod a'r pwnc astudio.' (Llywodraeth Cymru, 2013)[30]

2.63 Er mwyn ymateb i gyhoeddi'r canllawiau uchod, cydweithiodd staff o'r holl ddarparwyr AGA a Chyngor y Prifysgolion ar gyfer Addysg Athrawon yng Nghymru (UCET Cymru) i ddatblygu cyfres o bapurau prawf llythrennedd a rhifedd a allai gael eu defnyddio gan ddarparwyr.[31]

2.64 Mae pob un o'r profion a ddatblygwyd gan y darparwyr yn cymryd hanner awr i'w cwblhau ac fe'u gwneir gan yr ymgeiswyr ar ddiwrnod eu cyfweliad. Profion amlddewis ydynt, a'r marc llwyddo yw 50%. Dywedodd pob darparwr

---

[29] Gofynion ar gyfer cyrsiau hyfforddiant cychwynnol athrawon ysgol mewn sefydliadau addysg uwch yng Nghymru

[30] Cyhoeddwyd arweiniad newydd gan Lywodraeth Cymru – *Meini prawf ar gyfer achredu rhaglenni addysg gychwynnol athrawon yng Nghymru: Addysgu athrawon yfory* (Llywodraeth Cymru, 2018) – ym mis Chwefror 2018 a daw i rym ym mis Medi 2019. Mae'r arweiniad newydd yn datgan bod rhaid i ddarparwyr cyrsiau AGA fod yn fodlon bod darpar athrawon dan hyfforddiant 'yn cael eu hasesu ar yr adeg fynediad i fod â sgiliau llythrennedd a rhifedd personol gweithredol priodol sy'n gymwys mewn cyd-destun addysgu a dysgu proffesiynol'.

[31] Disgrifiodd ambell aelod o staff a fu'n ymwneud â datblygu'r profion hyn fod y broses yn cynnwys grwpiau o staff o bob darparwr yn dod at ei gilydd ar gyfer cyfres o weithdai i ddatblygu set gyffredin o bapurau prawf a chanllawiau.

fod rhaid i ymgeiswyr lwyddo ym mhob rhan o'r papurau hyn neu ni fyddent yn llwyddiannus yn y broses ymgeisio. Rhoddir yr un papurau enghreifftiol ar wefannau pob un o'r darparwyr AGA. Caniateir i ymgeiswyr ailsefyll unwaith fesul canolfan, fesul blwyddyn.

2.65 Er bod yr un papurau prawf ar gael i ddarparwyr, y sefydliadau unigol sy'n trefnu sut i'w gweinyddu, gan gynnwys dewis dyddiadau, papurau prawf, goruchwylio a marcio. Dywedodd darparwyr eu bod nhw'n penderfynu sut a phryd i gylchdroi'r papurau prawf. Mae Canllawiau Protocol Cymru Gyfan ar gyfer Cyfweliadau Hyfforddiant Athrawon yn disgrifio sut y dylai darparwyr weinyddu'r profion.[32] Dywedodd darparwyr fod oddeutu pum fersiwn o'r profion a'u bod nhw'n defnyddio pob fersiwn ar hap.

2.66 Roedd y rhan fwyaf o'r darparwyr yn credu bod y profion llythrennedd a rhifedd yn profi am bethau gwahanol i'r profion cyfwerthedd, ac na fyddai'n bosibl cyfateb y profion i lefel cymhwyster fel Gradd B. Roedd rhai darparwyr yn amau pa mor dda oedd y profion yn asesu sgiliau llythrennedd a rhifedd ymgeiswyr, tra bod eraill yn credu bod angen i'r profion gael eu gwerthuso.

> 'Mae'r rhagbrofion yn fyr iawn, ar ffurf amlddewis, ac nid ydynt yn wych am brofi sgiliau ymgeiswyr na'u gallu i drosglwyddo eu sgiliau llythrennedd a rhifedd i ddisgyblion.' Cyfweliad â darparwr AGA

> 'Un o ddiffygion y broses honno yw nad yw'r profion hynny erioed wedi cael eu gwerthuso… Nid ysgrifenwyr profion oeddem ni; daeth grŵp ohonom at ein gilydd o bob rhan o Gymru ac fe ysgrifennon ni'r profion ar gyfer cyfweliad. Mae'n rhaid bod pedair blynedd wedi mynd heibio ers hynny, efallai. Dydyn ni ddim wedi gwerthuso'r profion ac mae angen eu diweddaru, yn sicr.' Cyfweliad â darparwr AGA

2.67 Amlygodd sawl darparwr bwysigrwydd profi sgiliau llythrennedd a rhifedd pob ymgeisydd, ni waeth beth fo lefel eu cymwysterau blaenorol. Soniodd rhai darparwyr am 'gyfredoldeb' cymwysterau ymgeiswyr, gan amlygu'r ffaith y gallai rhai ymgeiswyr sy'n bodloni'r gofyniad Gradd B fod wedi ei gyflawni amser maith yn ôl ac y gallai eu sgiliau fod wedi llithro.

> 'Hyd yn oed os oes ganddyn nhw radd A*, mae'n bosibl eu bod nhw wedi colli'r sgiliau hynny, yn enwedig os ydynt yn fyfyrwyr aeddfed neu hyd yn

[32] Canllawiau Protocol Cymru Gyfan ar gyfer Cyfweliadau Hyfforddi Athrawon

oed yn raddedigion diweddar os nad oedd eu hastudiaethau gradd yn canolbwyntio ar ddatblygu'r sgiliau hynny.' Cyfweliad â darparwr AGA

2.68 Nid oedd ymgeiswyr a gyfwelwyd yn unfryd eu barn ynglŷn â'r profion llythrennedd a rhifedd cyn-mynediad. Roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr a gyfwelwyd yn credu ei bod hi'n haws llwyddo yn y profion llythrennedd a rhifedd cyn-mynediad na'r profion cyfwerthedd. Roedd rhai ymgeiswyr yn credu nad oedd angen cael profion cyfwerthedd a phrofion cyn-mynediad, tra bod eraill yn credu bod y profion yn ddefnyddiol o ran profi sgiliau gwahanol.

'Buaswn i'n dweud eu bod nhw'n profi pethau gwahanol oherwydd roeddwn i'n teimlo bod y prawf mathemateg cyfwerthedd yn ymwneud â chymhwyso rheolau roeddech chi'n eu gwybod, tra bod y prawf rhifedd yn gofyn i chi wneud synnwyr o broblem a sut i'w datrys. Sut i gyfrifo problemau syml fel, mae ar ddau ddosbarth o dri deg disgybl angen hyn a hyn.' Cyfweliad ag ymgeisydd AGA

*Data profion cyn-mynediad*

2.69 Mae data gan dri darparwr AGA (Prifysgol Aberystwyth, Prifysgol De Cymru a Phrifysgol Metropolitan Caerdydd) yn dangos bod 1,047 o ymgeiswyr wedi sefyll profion llythrennedd cyn-mynediad yn 2017, a bod 85% o'r rhain wedi llwyddo ar yr ymgais cyntaf a 2% arall wedi llwyddo ar ôl ailsefyll.[33] Roedd cyfanswm o 1,042 o ymgeiswyr wedi sefyll profion rhifedd, ac roedd 90% wedi llwyddo'r tro cyntaf a 2% arall wedi llwyddo ar ôl ailsefyll. Ar draws y tri darparwr, roedd y cyfraddau llwyddo'n amrywio o 81% i 86% ar gyfer llythrennedd, ac yn amrywio o 84% i 92% ar gyfer rhifedd.

*Profi ac asesu ar ôl mynediad*

2.70 Yn ogystal, disgrifiodd staff darparwyr AGA eu prosesau ar gyfer asesu sgiliau llythrennedd a rhifedd ymgeiswyr yn ffurfiannol yn ystod eu cwrs. Disgrifiodd darparwyr 'archwiliadau' llythrennedd a rhifedd a gynhaliwyd yn gynnar yn ystod y cwrs ac a oedd yn cynnwys asesiadau ffurfiannol i amlygu agweddau ar lythrennedd a rhifedd ymgeiswyr yr oedd angen rhoi sylw iddynt yn ystod y cwrs. Yna, defnyddiwyd yr asesiadau hyn i osod targedau ac adolygu yn ystod y cwrs. Disgrifiodd darparwyr rai o'r ymarferion archwilio a ddefnyddiwyd, fel gofyn i ymgeiswyr farcio darn ysgrifenedig ac ymarferion

[33] Dywedodd Bangor nad ydynt yn dal y data hwn oherwydd dim ond canlyniadau'r rhai sy'n cofrestru ar y cwrs sy'n cael eu cofnodi.

ysgrifennu rhydd. Mae'r ymarferion archwilio'n cael eu marcio gan diwtoriaid y cwrs a'u hailadrodd ar ddiwedd y cwrs AGA.

> 'Mae'r archwiliad cychwynnol ar ddechrau tymor yr hydref yn cynnwys traethawd a thasg i wirio llythyr am wallau ieithyddol. Archwiliad diagnostig ydyw sy'n galluogi'r darparwr i amlygu pa sgiliau y mae angen eu gwella a pha dargedau y dylid eu gosod i'r myfyriwr weithio tuag atynt yn ystod ei gwrs.' Cyfweliad â darparwr AGA
>
> 'Rydym ni'n ei ddefnyddio [archwiliad llythrennedd/rhifedd] i amlygu ble mae angen cymorth ar yr hyfforddai.' Cyfweliad â darparwr AGA

**Crynodeb o bwyntiau allweddol ynglŷn â phrofion eraill**

2.71 Mae'n amlwg:

- Bod darparwyr wedi datblygu dulliau cyson, at ei gilydd, o brofi sgiliau llythrennedd a rhifedd pob ymgeisydd AGA, er bod y rhain yn cael eu gweinyddu gan bob darparwr AGA ar wahân, gan gynnwys y prawf a ddewisir;
- Bod canlyniadau tri darparwr yn fwy cyson na'r rhai hynny o'r profion cyfwerthedd;
- Bod gan ddarparwyr ac ymgeiswyr safbwyntiau cymysg ynglŷn â gwerth y profion hyn.

2.72 Crynhoir gwybodaeth ychwanegol yn Tabl 2.7 a Tabl 2.8 isod.

**Tabl 2.7 Nifer yr ymgeiswyr AGA sy'n sefyll ac yn llwyddo mewn profion llythrennedd a rhifedd cyn-mynediad yn ôl darparwr (2017)[34]**

| | Metropolitan Caerdydd | | Prifysgol De Cymru | | Aberystwyth | | Cyfanswm | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Llythrennedd | Rhifedd | Llythrennedd | Rhifedd | Llythrennedd | Rhifedd | Llythrennedd | Rhifedd |
| Nifer yr ymgeiswyr AGA a safodd y prawf | 734 | 745 | 236 | 220 | 77 | 77 | 1,047 | 1,042 |
| Nifer yr ymgeiswyr a lwyddodd yn y prawf ar eu hymgais cyntaf | 632 | 682 | 198 | 188 | 62 | 71 | 892 | 941 |
| Nifer yr ymgeiswyr a oedd wedi ailsefyll y prawf | 17 | 9 | 25 | 16 | 0 | 1 | 42 | 26 |
| Nifer a lwyddodd yn y prawf ar ôl ei ailsefyll | 4 | 8 | 21 | 12 | 0 | 1 | 25 | 21 |

**Tabl 2.8 Canran yr ymgeiswyr AGA sy'n sefyll ac yn llwyddo mewn profion llythrennedd a rhifedd cyn-mynediad yn ôl darparwr (2017)[35]**

| | Metropolitan Caerdydd | | Prifysgol De Cymru | | Aberystwyth | | Cyfanswm | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Llythrennedd | Rhifedd | Llythrennedd | Rhifedd | Llythrennedd | Rhifedd | Llythrennedd | Rhifedd |
| Canran yr ymgeiswyr a lwyddodd yn y prawf ar eu hymgais cyntaf | 86% | 92% | 84% | 85% | 81% | 92% | 85% | 90% |
| Canran yr ymgeiswyr a oedd wedi ailsefyll y prawf | 2% | 1% | 11% | 7% | 0% | 1% | 4% | 2% |
| Canran a lwyddodd yn y prawf ar ôl ei ailsefyll | 1% | 1% | 9% | 5% | 0% | 1% | 2% | 2% |

[34] Dywedodd Bangor nad ydynt yn dal y data hwn oherwydd dim ond canlyniadau'r rhai sy'n cofrestru ar y cwrs AGA sy'n cael eu cofnodi. Nid oedd UWTSD yn gallu darparu data ar gyfer yr adroddiad terfynol.

[35] Fel yr uchod.

## 3. Byd profi cyfwerthedd: dichonoldeb prawf cyfwerthedd cenedlaethol

3.1 Mae'r adran hon yn archwilio amrywiaeth o ystyriaethau a ddylai lywio asesiad o ddichonoldeb prawf cyfwerthedd cenedlaethol, gan gynnwys:

- Arferion profi cyfwerthedd a llythrennedd/rhifedd AGA mewn gwledydd eraill
- Arferion profi cyfwerthedd a llythrennedd/rhifedd yn y DU ar gyfer ymuno â phroffesiynau eraill lle mae safonau llythrennedd a/neu rifedd yn bwysig
- Profion sydd eisoes yn bodoli yng Nghymru y gellid eu hystyried neu eu haddasu i'w defnyddio fel prawf cyfwerthedd cenedlaethol
- Safbwyntiau rhanddeiliaid ynglŷn â'r trefniadau presennol ar gyfer profi yng Nghymru a meysydd i'w gwella
- Safbwyntiau rhanddeiliaid ynglŷn â manteision ac anfanteision profion cyfwerthedd cenedlaethol ac ymarferoldebau cyflwyno profion newydd.

### Arferion profi ym maes addysg gychwynnol athrawon

*Arferion mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig*

3.2 O gymharu â Chymru, mae llai o angen am brofion cyfwerthedd ar wledydd eraill yn y DU oherwydd nid oes ganddynt drothwy mor uchel ar gyfer mynediad i'r proffesiwn addysgu. Yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, mae profion cyfwerthedd fel arfer yn cael eu sefyll gan ymgeiswyr rhyngwladol os nad yw eu cymwysterau tramor yn cael eu cydnabod. Gallai ymgeiswyr aeddfed sefyll y profion hyn hefyd os oes achos cryf nad yw eu cymwysterau Saesneg a mathemateg blaenorol yn adlewyrchu eu safonau llythrennedd a rhifedd presennol.

3.3 Mae ymchwil ddesg yn dangos nad oes gan unrhyw wlad arall yn y DU brawf cyfwerthedd cenedlaethol ar gyfer ymgeiswyr AGA nad ydynt yn bodloni'r safon ofynnol mewn Saesneg a mathemateg.

3.4 Mae rhai darparwyr AGA unigol wedi datblygu profion cyfwerthedd mewnol, ond nid yw'r rhain wedi'u cynllunio i asesu cymhwysedd ymgeiswyr ar Radd B TGAU ac fe'u defnyddir yn llai eang na phrofion cyfwerthedd yng Nghymru. Amlygwyd deg prawf cyfwerthedd mewnol o'r fath ac roedd ffioedd ymgeiswyr yn amrywio o £50-£90 fesul arholiad pwnc.

3.5 Yn aml, mae darparwyr AGA yn cyfeirio ymgeiswyr at ddau sefydliad profi cyfwerthedd preifat a ddefnyddir yn gyffredin yn y DU. Mae ffioedd ymgeiswyr yn amrywio o £120-£154 fesul arholiad pwnc. Mae cyrsiau cyn y prawf a phecynnau deunydd adolygu cysylltiedig ar gael am ffi ychwanegol.

3.6 Mae Lloegr yn defnyddio dull cenedlaethol o brofi sgiliau llythrennedd a rhifedd proffesiynol pob ymgeisydd AGA, ni waeth beth fo'u cymwysterau blaenorol, i asesu eu gallu cyffredinol presennol cyn iddynt allu cael eu cofrestru ar gwrs AGA. Mae'r 'Profion Sgiliau Proffesiynol' hyn yn rhad ac am ddim i ymgeiswyr.

**Ffigur 3.1 Arferion profi AGA yng ngwledydd eraill y DU**

**Lloegr**

- **Profion llythrennedd a rhifedd:** ceir dull cenedlaethol o brofi sgiliau llythrennedd a rhifedd *pob* ymgeisydd AGA i asesu eu gallu cyffredinol cyn iddynt gofrestru ar eu cwrs trwy'r Profion Sgiliau Proffesiynol a weinyddir ar hyn o bryd gan Learndirect.
- **Profion cyfwerthedd:** Mae llawer o ddarparwyr AGA yn cyfeirio ymgeiswyr at sefydliadau profi preifat fel 'Equivalency Testing' a/neu 'A* Equivalency' i gyflawni'r radd C TGAU sy'n ofynnol. Mae 10 prifysgol o leiaf sy'n darparu AGA wedi datblygu eu profion cyfwerthedd mewnol eu hunain.

**Yr Alban**

- **Profion llythrennedd a rhifedd:** Nid oes dull cenedlaethol o brofi sgiliau llythrennedd a rhifedd pob ymgeisydd AGA.
- **Profion cyfwerthedd:** Gall cyrsiau Mynediad ar-lein mewn Saesneg a Mathemateg a ddarperir gan Brifysgol Aberdeen gael eu defnyddio gan ymgeiswyr AGA, yn ogystal ag ymgeiswyr addysg uwch yn fwy cyffredinol. Lluniwyd y prawf gan Brifysgol Aberdeen. Gan ei fod wedi'i gynllunio ar sail Fframwaith Credydau a Chymwysterau'r Alban (SCQF), tybir ei fod yn cael ei dderbyn ledled yr Alban fel prawf cyfwerthedd.

**Gogledd Iwerddon**

- **Profion llythrennedd a rhifedd:** Nid oes dull cenedlaethol o brofi sgiliau llythrennedd a rhifedd pob ymgeisydd AGA.
- **Profion cyfwerthedd:** Sefydliadau unigol sydd i'w bodloni eu hunain bod ymgeiswyr yn cyflawni'r gofynion mynediad lleiaf o ran Iaith Saesneg a Mathemateg. Nid oedd adolygiad cychwynnol o wefannau darparwyr AGA wedi datgelu manylion am brofion cyfwerthedd mewnol.

*Ffynhonnell: Ymchwil ddesg ICF.*

*Arferion mewn gwledydd eraill Saesneg eu hiaith*

3.7 Cynhaliwyd ymchwil ddesg hefyd ynglŷn ag arferion profi AGA mewn gwledydd y tu allan i'r DU. Dangosodd nad oes gan unrhyw wledydd eraill Saesneg eu hiaith brawf cyfwerthedd cenedlaethol ar waith ar gyfer ymgeiswyr AGA nad ydynt yn cyrraedd y safon ofynnol mewn Saesneg a mathemateg. Mae profion cenedlaethol ehangach o sgiliau llythrennedd a rhifedd proffesiynol *pob* ymgeisydd AGA yn anghyffredin hefyd.

3.8 Yn Iwerddon, ni ddatblygwyd cynnig diweddar i gyflwyno prawf derbyn AGA i asesu cymhwysedd llythrennedd a rhifedd ymgeiswyr *aeddfed* a gwblhaodd eu harholiad Tystysgrif Adael fwy na phum mlynedd yn ôl o ganlyniad i wrthwynebiad gan Sefydliadau Addysg Uwch.

3.9 Yn Seland Newydd, mae cynnig diweddar i ddefnyddio'r Offeryn Asesu Llythrennedd a Rhifedd i Oedolion fel prawf cyn-mynediad o allu llythrennedd pob ymgeisydd AGA wedi cael ei ddatblygu gan ddarparwyr rhaglenni AGA cyfrwng Saesneg fel mesur tymor byr i ddarparu sylfaen dystiolaeth ynglŷn â gallu llythrennedd myfyrwyr AGA. Defnyddir y wybodaeth a gesglir i lywio penderfyniadau ynglŷn â ph'un a ddylid gosod meincnodau llythrennedd ac, os felly, ar ba lefel.

3.10 Lle y defnyddir profion llythrennedd a rhifedd AGA, mae'r arferion yn wahanol i'r rhai yng Nghymru:

- **Model enghreifftiol 1 – Awstralia:** mae prawf cenedlaethol i asesu sgiliau llythrennedd a rhifedd pob ymgeisydd AGA wedi cael ei gyflwyno, ond profir ymgeiswyr cyn graddio yn hytrach nag wrth ymuno. Mae'r 'Profion Llythrennedd a Rhifedd ar gyfer Myfyrwyr Addysg Gychwynnol Athrawon' yn cael eu gweinyddu ar-lein ac mae'n rhaid i ymgeiswyr gyflawni sgôr o fewn y 30% uchaf o'r boblogaeth oedolion i lwyddo.
- **Model enghreifftiol 2 – Seland Newydd:** bu gofyniad cenedlaethol i bob darparwr AGA asesu sgiliau llythrennedd a rhifedd pob ymgeisydd AGA cyn iddynt gofrestru ar gwrs AGA, ond ar hyn o bryd mae gan ddarparwyr unigol rywfaint o ymreolaeth dros y profion a ddewisir a sut y defnyddir y profion ar gyfer derbyn. Er enghraifft, defnyddir ystod o brofion a ddatblygwyd yn fewnol ac weithiau mae'r canlyniadau asesu'n cael eu defnyddio at ddibenion diagnostig yn unig.
- **Model enghreifftiol 3 – Unol Daleithiau America:** mae'r rhan fwyaf o daleithiau'n defnyddio profion craidd a weinyddir gan sefydliad profi preifat i asesu ymgeiswyr sy'n ymuno â chyrsiau AGA, ond mae gan daleithiau unigol hyblygrwydd i ddewis rhychwant y prawf a'r sgorau y mae eu hangen ar ymgeiswyr yn rhan o'u proses trwyddedu athro. Mae dwy dalaith ar ddeugain o leiaf yn mynnu bod athrawon yn gwneud rhyw fath o brawf darllen a rhifyddeg, ac mae llawer yn defnyddio rhyw ffurf ar brofion Sgiliau Academaidd Craidd ar gyfer Addysgwyr Praxis, a

weinyddir gan y Gwasanaethau Profi Addysg, y gellir eu haddasu i ofynion penodol.

**Ffigur 3.2 Arferion profi AGA mewn gwledydd eraill Saesneg eu hiaith**

| | |
|---|---|
| **Iwerddon** | • Nid oes dull cenedlaethol o brofi sgiliau llythrennedd a rhifedd pob ymgeisydd AGA. Bu cynnig yn ddiweddar i gyflwyno Prawf Derbyniadau AGA i asesu cymhwysedd llythrennedd a rhifedd ymgeiswyr aeddfed a gwblhaodd eu harholiad Tystysgrif Adael fwy na 5 mlynedd yn ôl. Nid oedd Sefydliadau Addysg Uwch yn Iwerddon yn cefnogi'r cynnig hwn, gan gyfeirio at safonau addysgol a oedd eisoes yn uchel ymhlith ymgeiswyr aeddfed a natur wahaniaethol, o bosibl, meini prawf ar wahân ar gyfer ymgeiswyr aeddfed. |
| **Awstralia** | • Mae dull cenedlaethol o brofi sgiliau llythrennedd a rhifedd pob myfyriwr AGA trwy asesiad ar-lein o'r enw Profion Llythrennedd a Rhifedd ar gyfer Myfyrwyr Addysg Gychwynnol Athrawon. Mae'n rhaid i fyfyrwyr fod yn y 30 y cant uchaf o'r boblogaeth oedolion o ran llythrennedd a rhifedd personol, fel y dangosir trwy ganlyniadau eu profion, cyn *graddio.* |
| **Seland Newydd** | • Nid oes dull cenedlaethol o brofi sgiliau llythrennedd a rhifedd pob ymgeisydd AGA. Bu ymgynghoriad diweddar ynghylch defnyddio'r Offeryn Asesu Llythrennedd a Rhifedd i Oedolion fel prawf cyn-mynediad cenedlaethol, ond ni chafodd ei ddatblygu. Mae'n rhaid i bob darparwr AGA asesu cymhwysedd llythrennedd a rhifedd ymgeiswyr cyn iddynt gofrestru ar eu cwrs, ac mae darparwyr unigol yn defnyddio ystod o brofion ar hyn o bryd a ddatblygwyd yn fewnol. Weithiau, defnyddir y profion hyn fel offeryn diagnostig yn unig yn hytrach na gofyniad mynediad. |
| **Unol Daleithiau America** | • Mae dwy dalaith ar ddeugain o leiaf yn mynnu bod athrawon yn gwneud rhyw fath o brawf darllen a rhifyddeg. Mae llawer o golegau a phrifysgolion yn yr Unol Daleithiau'n defnyddio profion Sgiliau Academaidd Craidd ar gyfer Addysgwyr Praxis, a weinyddir gan y Gwasanaethau Profi Addysg, i werthuso unigolion sy'n ymuno â rhaglenni addysg athrawon. Mae llawer o daleithiau hefyd yn mynnu sgorau Craidd Praxis yn rhan o'u proses trwyddedu athrawon. |
| **Canada** | • Nid oes dull cenedlaethol o brofi sgiliau llythrennedd a rhifedd pob ymgeisydd AGA gan fod y mandad ar gyfer addysg yn dod o dan awdurdodaeth llywodraethau taleithiol. Mae dethol yn digwydd ar lefel prifysgol yn aml. Er enghraifft, yn Ontario, pennir gofynion mynediad gan ddarparwyr unigol. |

*Ffynhonnell: Ymchwil ddesg ICF.*

### Arferion profi mewn cyd-destunau proffesiynol eraill

3.11 Nid oedd ymchwil ddesg wedi canfod unrhyw brofion cyfwerthedd neu lythrennedd/rhifedd amgen a oedd yn uniongyrchol addas yn cael eu defnyddio mewn cyd-destunau proffesiynol eraill ar gyfer derbyn i hyfforddiant ac am drwydded i ymarfer a dibenion cofrestru yn y DU. Ychydig o gyrff proffesiynol perthnasol sy’n defnyddio profion cyfwerthedd neu brofion mynediad sy’n canolbwyntio’n unig ar lythrennedd a rhifedd.

3.12 Mae profion sgrinio ehangach ar gyfer derbyn i raglenni addysg a hyfforddiant proffesiynol sy’n mynnu sgiliau llythrennedd a rhifedd uwch yn aml yn cynnwys asesiad o resymu llafar a rhifiadol ymhlith elfennau profi eraill (e.e. y Prawf Derbyniadau BioMeddygol, Prawf Gallu Clinigol y DU, y

Prawf Derbyniadau Cenedlaethol ar gyfer y Gyfraith, y Prawf Derbyn Rheoli i Raddedigion, a Phrawf Dethol Technegol y Fyddin Brydeinig).

3.13 Y proffesiwn tebycaf i addysgu o ran arferion profi llythrennedd a rhifedd systematig yw nyrsio a bydwreigiaeth. Mae'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn mynnu bod prifysgolion unigol yn profi cymhwysedd llythrennedd a rhifedd pob darpar nyrs dan hyfforddiant. Mae'r gofyniad hwn yn ychwanegol at ofynion mynediad safonol Gradd C TGAU mewn Iaith Saesneg a mathemateg. Mae gan y profion cymharol fyr a syml hyn bwyslais culach ar asesu'r sgiliau llythrennedd a rhifedd sy'n ofynnol mewn cyd-destun proffesiynol, yn ôl safon 2 lefel yn fras. Gall hyd y profion hyn amrywio o rhwng 10 a 40 munud i gwblhau'r ddwy elfen.

3.14 Mae rhai prifysgolion wedi datblygu profion cyfwerthedd mewnol ar gyfer derbyn i brifysgolion yn gyffredinol, a ddefnyddir yn aml i asesu ymgeiswyr addysg uwch rhyngwladol nad yw eu cymwysterau tramor yn cael eu cydnabod neu ymgeiswyr aeddfed nad yw eu cymwysterau Saesneg a mathemateg blaenorol yn adlewyrchu eu safonau llythrennedd a rhifedd presennol, o bosibl. Yn Lloegr, mae'r profion hyn fel arfer wedi'u cynllunio i asesu cymhwysedd ymgeiswyr ar Radd C TGAU. Gall ffioedd profion i ymgeiswyr amrywio o £50-£100 fesul arholiad pwnc.

3.15 Rhoddir manylion ychwanegol am y profion hyn yn Tabl 3.1.

**Tabl 3.1 Profion cyfwerthedd a llythrennedd/rhifedd mewn cyd-destunau eraill yn y DU**

| Cyd-destun profi | Sefydliadau sy'n gweinyddu/defnyddio'r profion | Lefel a gradd | Rhychwant | Dull profi | Hyd | Cost |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cwmnïau preifat poblogaidd** sy'n cynnig profion cyfwerthedd | Gwasanaethau a gynigir gan Equivalency Testing, A* Equivalency ac Educate Teacher Training (a ddefnyddir yn llai cyffredin). Fe'u cydnabyddir gan ystod o ddarparwyr AGA, Sefydliadau Addysg Uwch (SAUau) a rhai cyflogwyr. | Lefel 2 Ystod lawn o raddau TGAU | Cwricwla Sylfaen ac Uwch Iaith Saesneg TGAU a Mathemateg TGAU | Profion papur mewn canolfan asesu | Saesneg: 1 awr 30 munud-2 awr Mathemateg: 2 awr - 3 awr 30 munud (2 bapur) | £120 - £154 fesul arholiad pwnc |
| **Darparwyr AGA unigol** sy'n cynnig profion cyfwerthedd mewnol mewn rhannau eraill o'r DU | Prifysgol Brunel, Coleg y Brenin Llundain, Prifysgol y Drindod Leeds, Prifysgol Metropolitan Manceinion, Prifysgol y Santes Fair Twickenham, Prifysgol Aberdeen, Prifysgol Hull, Prifysgol Caerlŷr, Prifysgol Nottingham, Prifysgol Southampton, Prifysgol Caerefrog (ac eraill). | Lefel 2 Fel arfer, ystyrir bod llwyddo'n gyfwerth â Gradd C TGAU | Cwricwlwm Sylfaen Iaith Saesneg TGAU a Mathemateg TGAU? | Profion papur | 1 awr 30 munud - 2 awr 15 munud fesul pwnc | £50 - £90 fesul arholiad pwnc |
| **SAUau unigol** sy'n cynnig profion cyfwerthedd mewnol ar gyfer derbyn yn gyffredinol | Prifysgol Brighton, Prifysgol Christ Church Cairgaint, Prifysgol Derby, Prifysgol Edge Hill (ac eraill). | Lefel 2 Fel arfer, ystyrir bod llwyddo'n gyfwerth â Gradd C TGAU | Cwricwlwm Sylfaen Iaith Saesneg TGAU a Mathemateg TGAU? | Profion papur a weinyddir yn y sefydliad fel arfer | Saesneg: 2 awr (Brighton) Mathemateg: 2 awr 30 munud (Brighton) | £50 - £100 fesul arholiad pwnc |
| Profion llythrennedd a rhifedd ar gyfer **cyrsiau Nyrsio a Bydwreigiaeth** | Mae'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn mynnu bod SAUau unigol yn profi cymhwysedd llythrennedd a rhifedd pob darpar nyrs dan hyfforddiant. Mae hyn yn ychwanegol at ofynion mynediad safonol TGAU Iaith Saesneg a Mathemateg. | Lefel 2 (wedi'i datgan gan rai SAUau yn unig) | Pwyslais culach ar y sgiliau llythrennedd a rhifedd sy'n ofynnol mewn cyd-destun proffesiynol. | Profion ar-lein fel arfer | 10-40 munud i gyd i gwblhau'r ddwy elfen | Heb ei datgan |

| Cyd-destun profi | Sefydliadau sy'n gweinyddu/defnyddio'r profion | Lefel a gradd | Rhychwant | Dull profi | Hyd | Cost |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Profion sgrinio proffesiynol ehangach** (yn ymdrin â sgiliau uwch cysylltiedig fel rhesymu llafar a rhifiadol) | E.e. Prawf Dethol Technegol y Fyddin Brydeinig (TST), Prawf Gallu Clinigol y DU (UKAT), y Prawf Derbyniadau BioMeddygol (BMAT), y Prawf Derbyniadau Cenedlaethol ar gyfer y Gyfraith (LNAT), y Prawf Derbyn Rheoli i Raddedigion (GMAT). | Lefel 2 o leiaf | Fel arfer, pwyslais culach ar sgiliau rhesymu rhifiadol a llafar sy'n ofynnol mewn cyd-destun proffesiynol. | Profion cyfrifiadurol. Weithiau ar fformat cyfrifiadur-addasol, sy'n addasu i lefel gallu'r sawl sy'n gwneud y prawf. | Sawl awr fel arfer, ond yn asesu cymwyseddau y tu hwnt i lythrennedd a rhifedd hefyd | Amrediad cost eang |

### Profion sgiliau llythrennedd a rhifedd eraill yng Nghymru

3.16 I ategu addysgu llythrennedd a rhifedd a chodi safonau cyrhaeddiad, mae Llywodraeth Cymru wedi ymestyn ei hymrwymiad i'r Rhaglen Llythrennedd a Rhifedd Genedlaethol (yn 2016) ac wedi cyflwyno offer asesu sgiliau cenedlaethol yn rhan o raglen 2013-16. Y rhain yw:

- **Y Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol (PDRhC)** a gynlluniwyd i asesu disgyblion yn ffurfiannol ym Mlynyddoedd 2 i 9;
- **Pecyn Cymorth Sgiliau Hanfodol Cymru (WEST)** a gynlluniwyd i fod yn offeryn asesu sgiliau hanfodol diagnostig safonedig a ddefnyddir gan bob Sefydliad Addysg Bellach (SAB) i helpu dysgwyr i fynd i'r afael ag unrhyw fylchau yn eu gwybodaeth a'u sgiliau.

*Y Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol*

3.17 Cyflwynwyd fersiynau papur o'r PDRhC am y tro cyntaf yn 2013. Yn dilyn astudiaeth ddichonoldeb, mae contractwr allanol yn arwain consortiwm ar ddatblygu Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol addasol ar-lein newydd a fydd yn cael eu cyflwyno'n raddol yn ystod y tair blynedd nesaf. Bydd gan y profion addasol hyn algorithm sy'n addasu anhawster y cwestiynau yn seiliedig ar ateb blaenorol disgybl. Bydd nid yn unig yn darparu gwybodaeth am lefel disgybl o gymharu â dysgwyr eraill yn ei grŵp oedran, ond hefyd yn rhoi syniad o gryfderau a gwendidau unigolyn mewn perthynas â'r cwricwlwm.

3.18 **Diben y profion:** Maen nhw wedi'u cynllunio at ddefnydd ffurfiannol fel offeryn diagnostig y gellir ei ddefnyddio gan athrawon, rhieni a disgyblion i olrhain cryfderau a gwendidau dysgwyr unigol ac asesu eu cynnydd. Mae'r prawf yn rhoi gwybodaeth am lefel dysgwyr o gymharu ag eraill o'r un oedran, sy'n wahanol iawn i ddibenion prawf cyfwerthedd.

3.19 **Cynnwys y profion:** Ar hyn o bryd, mae disgyblion yn sefyll tri phrawf papur mewn ysgolion sy'n ymdrin â darllen, rhifedd gweithdrefnol a rhesymu rhifiadol. Nid yw'r profion yn asesu sgiliau ysgrifennu myfyrwyr. Yn rhan o'r broses o drosglwyddo i brofi addasol ar-lein, mae contractwyr Llywodraeth Cymru'n cynhyrchu cronfa fawr o gwestiynau prawf y bydd angen iddynt rychwantu'r amrediad cyfan o'r cwestiynau hawsaf posibl ar gyfer dysgwyr

blwyddyn 2 i gwestiynau heriol iawn ar gyfer dysgwyr blwyddyn 9 galluog. Mae gan Lywodraeth Cymru hawlfraint i'r gronfa gyfan o gwestiynau sy'n cael eu datblygu, felly gallai rhai ohonynt fod ar gael i'w haddasu ar gyfer prosiect arall.

3.20 **Dull profi:** Ar hyn o bryd, mae dysgwyr yn sefyll profion papur o dan amodau arholiad yn eu hysgolion. Mae profion addasol ar-lein a wneir yn yr ysgol yn cael eu cyflwyno'n raddol yn ystod y tair blynedd nesaf.

3.21 **Safon y profion a sgorio:** Mae canlyniadau'r profion yn darparu sgôr wedi'i safoni yn ôl oedran a mesur o gynnydd. Cofnodir y sgôr wedi'i safoni yn ôl oedran rhwng 70 a 140. Y sgôr gymedrig wedi'i safoni yn ôl oedran (ar gyfer plant o'r un oedran, mewn misoedd) yw 100. Mae dwy ran o dair o ddisgyblion yn cael sgôr rhwng 85 a 115. Nid yw sgorau is na 70 a dros 140 yn cael eu cofnodi.

*Pecyn Cymorth Sgiliau Hanfodol Cymru (WEST)*

3.22 Datblygwyd WEST yn 2014 gan Lywodraeth Cymru ar y cyd â Tribal Education Ltd ac fe'i cyflwynwyd i bob darparwr addysg bellach yng Nghymru yn 2015. Offeryn asesu a dysgu sgiliau hanfodol ar-lein unigol ydyw sy'n darparu asesiadau diagnostig mewn sgiliau hanfodol cyfathrebu, cymhwyso rhif, llythrennedd digidol a Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill. Mae'r asesiadau'n ofyniad gorfodol ar gyfer dysgu seiliedig ar waith a ariennir, sy'n golygu bod rhaid i bawb, ni waeth beth fo'u hyfforddiant neu gymwysterau blaenorol, gwblhau asesiadau WEST os ydynt yn gwneud unrhyw hyfforddiant a ariennir gan Lywodraeth Cymru.

3.23 **Diben y profion:** Cyfres o asesiadau sgiliau ar-lein yw'r pecyn cymorth sy'n pennu lefelau gallu a dealltwriaeth unigolyn mewn llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth. Nid arholiadau yw asesiadau WEST ac nid oes ganddynt feini prawf llwyddo neu fethu. Gellir defnyddio canlyniadau WEST i amlygu pa feysydd i'w targedu er mwyn cynorthwyo dysgwyr trwy eu rhaglen addysg neu hyfforddiant.

3.24 **Cynnwys y profion:** Mae'r asesiadau'n ymdrin â Sgiliau Hanfodol ym maes Cyfathrebu mewn Saesneg a/neu Gymraeg, Cymhwyso Rhif, Llythrennedd Digidol a Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill. Mae rhai rhaglenni'n gofyn i ddysgwyr gwblhau dwy elfen yn unig: Cyfathrebu a Chymhwyso Rhif. Mae'r

deunyddiau dysgu'n rhychwantu popeth o Lefel Mynediad 1 i Lefel 3. Mae cyfathrebu'n cael ei rannu'n sgiliau sy'n ofynnol ar gyfer darllen, ysgrifennu, siarad a deall iaith ysgrifenedig a llafar. Mae Cymhwyso Rhif yn asesu technegau mathemategol sylfaenol fel rhifyddeg, ffracsiynau, canrannau, graffiau, siartiau, symiau ac ystadegau sylfaenol.

3.25 **Dull profi:** Gwneir yr asesiadau ar-lein dan oruchwyliaeth, ond gall ymgeiswyr eu cwblhau dros fwy nag un sesiwn. Nid arholiad yw WEST, felly nid oes terfyn amser penodol ar gyfer unrhyw un o'r asesiadau. Mae ymchwil ddesg yn dangos bod dysgwyr yn treulio tua awr yn gwneud pob un, fel arfer, er bod yr amser yn gallu amrywio'n sylweddol.[36] Mae meddalwedd WEST yn mesur faint o atebion cywir y mae ymgeisydd yn eu rhoi a pha mor hir y mae pob un yn ei gymryd, gan addasu lefel anhawster cwestiynau dilynol yn unol â hynny. Gallai ychwanegu 10 cwestiwn arall os oes angen i gael y canlyniad cywiraf bosibl.

3.26 **Safon y profion a sgorio:** Nid arholiadau yw'r asesiadau, felly nid oes ganddynt feini prawf llwyddo neu fethu. Mae pob asesiad yn dechrau ar lefel anhawster cyn-TGAU yn fras, gyda chwestiynau amlddewis. Ar ddiwedd pob asesiad, rhoddir lefel gyffredinol i ddysgwyr sy'n dangos eu cyflawniad presennol yn y maes pwnc, a rhoddir Cynllun Dysgu Unigol iddynt sy'n amlygu unrhyw fylchau mewn gwybodaeth a sgiliau. Mae ymchwil ddesg yn dangos bod dysgwr sy'n cyflawni lefel 2 TGAU (A*-C) yn tueddu i gyflawni lefel 1 yn unig ar WEST.

### Crynodeb o'r profion sydd ar gael

*Profion cyfwerthedd sydd ar gael ar y farchnad*

3.27 Mae ymchwil ddesg a chyfweliadau â rhanddeiliaid yn dangos:

- Bod profion **cyfwerthedd mewnol** wedi cael eu datblygu gan bedwar o'r chwe darparwr AGA yng Nghymru (Prifysgol De Cymru, Prifysgol Met Caerdydd, Prifysgol Bangor a Phrifysgol Aberystwyth) gyda'r diben penodol o asesu gallu ymgeiswyr i gyflawni safon Gradd B TGAU mewn Iaith Saesneg a Mathemateg. Mae un o'r darparwyr sy'n weddill (UWTSD) yn defnyddio contractwr allanol i ddarparu'r profion (Coleg Sir

[36] Protocol Cymru Gyfan ar gyfer Profion Sgiliau

Gâr – Sefydliad Addysg Bellach lleol sydd wedi datblygu ei brofion ei hun yn fewnol i ymateb i anghenion y darparwr AGA). Mae Teach First Cymru yn cyfeirio ymgeiswyr heb Radd B at y darparwyr eraill.

- Bod **profion masnachol** a gynigir gan EquivalencyTesting.com ac A* Equivalency yn cael eu defnyddio gan rai ymgeiswyr o hyd, yn aml pan nad yw unrhyw un o ddyddiadau profi cyfwerthedd mewnol y darparwr AGA yn gyfleus iddynt. Fodd bynnag, mae'r profion hyn yn ddrutach na'r rhai a gynigir yn fewnol gan ddarparwyr ac mae prosesau gweinyddu a goruchwylio'r profion yn annibynadwy neu'n anfoddhaol weithiau, yn ôl darparwyr ac ymgeiswyr a gyfwelwyd yn rhan o'r gwaith ymchwil hwn.
- Ychydig o **brofion amgen o fannau eraill** sy'n bodoli sy'n addas i fodloni'r gofyniad gradd B, neu sy'n cynnig yr ymdriniaeth eang a'r lefel gyfwerth sy'n ofynnol.
  - Mae profion cyfwerthedd sydd eisoes yn bodoli mewn rhannau eraill o'r DU yn anaddas ar gyfer prawf cyfwerthedd AGA yng Nghymru i raddau helaeth oherwydd nid ydynt wedi'u cynllunio i asesu cymhwysedd ymgeisydd ar Radd B TGAU. Nid yw'r profion hyn wedi'u seilio ar faes llafur CBAC ychwaith.
  - Nid yw profion llythrennedd a rhifedd ehangach a ddefnyddir mewn cyd-destunau proffesiynol eraill yn bodloni gofynion prawf mynediad AGA yng Nghymru yn ddigonol gan nad ydynt, fel arfer, yn asesu gwybodaeth bynciol eang mewn Saesneg a mathemateg ac nid ydynt fel rheol wedi'u cynllunio i asesu sgiliau ar yr un lefel.
  - Nid yw offer asesu sgiliau cenedlaethol yng Nghymru wedi'u bwriadu i brofi ymgeiswyr AGA ac maen nhw'n anaddas, o bosibl, i ddibenion AGA, er y gallai rhai elfennau o'r offer hyn fod yn ddefnyddiol i ddatblygu prawf cyfwerthedd cenedlaethol.

*Rhestr fer o brofion i'w hystyried ymhellach*

3.28 Er mwyn llunio rhestr fer o brofion perthnasol i'w harchwilio'n fanylach, defnyddiwyd y meini prawf allweddol canlynol:

- **Lefel y prawf** ar Fframwaith Cymwysterau a Chredydau (Cymru);
- **I ba raddau y gellir graddio'r prawf**, gan gynnwys p'un a ellir gosod trothwyon graddau'n eglur ar gyfer y gwahanol lefelau cyrhaeddiad sy'n ofynnol;
- **Ymdriniaeth y prawf**: i ba raddau mae'r prawf yn ymdrin â holl gymwyseddau TGAU;
- **Graddau defnydd**: i ba raddau mae cyrff neu ddarparwyr AGA eraill yn defnyddio'r prawf.

3.29 Rhoddwyd sgôr o rhwng 2 a 0 i bob un o'r meini prawf hyn, ac roedd cyfanswm sgôr uwch yn dangos perthnasedd uwch. Nodir profion â chyfanswm sgôr o 5 neu fwy yn y rhestr fer dros dro isod.

**Tabl 3.2 Profion ar y rhestr fer**

| Perchennog y prawf | Enw'r prawf llythrennedd | Enw'r prawf rhifedd |
|---|---|---|
| Prifysgol Aberystwyth | Prawf Cyfwerthedd Gradd B Saesneg | Prawf Cyfwerthedd Gradd B Mathemateg |
| Prifysgol Bangor | Prawf Cyfwerthedd Gradd B Saesneg | Prawf Cyfwerthedd Gradd B Mathemateg |
| Prifysgol Metropolitan Caerdydd | Arholiad cyfwerthedd mewnol ar gyfer Iaith Saesneg TGAU | Arholiad cyfwerthedd mewnol ar gyfer Mathemateg TGAU |
| Prifysgol De Cymru | Saesneg Hanfodol ar gyfer Addysgu | Mathemateg Hanfodol ar gyfer Addysgu |
| UWTSD/SAB Coleg Sir Gâr | Prawf Cyfwerthedd TGAU Saesneg | Prawf Cyfwerthedd TGAU Mathemateg |
| Equivalency Testing | Prawf Cyfwerthedd Saesneg | Prawf Cyfwerthedd Mathemateg |
| A* Equivalency | Arholiad Cyfwerthedd Saesneg | Arholiad Cyfwerthedd Mathemateg |
| Llywodraeth Cymru / Tribal Education Ltd | Pecyn Cymorth Sgiliau Hanfodol Cymru: Cyfathrebu | Pecyn Cymorth Sgiliau Hanfodol Cymru: Cymhwyso Rhif |
| Llywodraeth Cymru / Alpha+ ac eraill | Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol: Darllen | Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol: Rhifedd Gweithdrefnol a Rhesymu Rhifiadol |

*Ffynhonnell: Ymchwil ddesg a dadansoddi ICF.*

**Asesiad o’r profion ar y rhestr fer**

*Safbwyntiau rhanddeiliaid ar y profion mewnol presennol a ddefnyddir gan AGA*

Mae cyfweliadau â staff darparwyr AGA, athrawon dan hyfforddiant / athrawon newydd gymhwyso a rhanddeiliaid yn datgelu:

- Bod **darparwyr AGA** yn fodlon, at ei gilydd, â’u profion mewnol a’u trefniadau gweinyddol presennol, ond eu bod yn cydnabod yr angen am gysondeb rhwng canolfannau AGA ac yn agored i drefniadau amgen.
- Bod safbwyntiau **ymgeiswyr** ynglŷn â lefel anhawster y profion yr oeddent yn eu sefyll yn amrywio’n sylweddol, yn enwedig yn dibynnu ar ba ddarparwr yr oeddent yn gwneud cais iddo. Mae llawer yn credu bod cymorth cysylltiedig gan ddarparwyr i baratoi ar gyfer y profion yn bwysig. Roedd sawl ymgeisydd wedi ailsefyll profion TGAU llawn mewn Iaith Saesneg neu fathemateg ond bu’n rhaid iddynt wneud profion cyfwerthedd hefyd oherwydd nid oeddent wedi cael eu canlyniadau TGAU mewn pryd i gael eu derbyn ar y cwrs AGA o’u dewis.
- Bod **rhanddeiliaid** yn llai cyfarwydd â manylion trefniadau profi cyfwerthedd mewnol darparwyr AGA yng Nghymru, ond eu bod yn tueddu i fynegi pryderon ynghylch cysondeb a thegwch i ymgeiswyr.

3.30 Nid oedd gan y rhan fwyaf o ddarparwyr, ymgeiswyr a rhanddeiliaid a gyfwelwyd ddigon o wybodaeth am brofion cyfwerthedd a ddatblygwyd gan wahanol ddarparwyr AGA i allu cymharu a chyferbynnu eu cryfderau a’u gwendidau’n uniongyrchol â’u profiadau eu hunain. Amlinellir safbwyntiau’r cyfweleion ar faterion eraill isod:

3.31 **Diben ac effeithiolrwydd y profion:** Mae staff darparwyr yn credu, i raddau helaeth, bod eu profion cyfwerthedd mewnol yn gwasanaethu eu diben yn dda, sef asesu cymhwysedd ymgeisydd ar Radd B TGAU. Fodd bynnag, roedd rhai cyfweleion yn credu ei bod hi’n anodd profi p’un a yw myfyriwr ar lefel Gradd B ai peidio o’r profion a ddefnyddir.

> ‘Mae’n chwynnu’r rhai sy’n rhy wan, yn ôl pob tebyg, i fynd trwodd.’ Aelod o staff, darparwr AGA

‘Fe allai greu rhwystr i rai pobl mewn ffordd. Ond, ar yr un pryd, os na allwch chi fodloni’r gofynion hyn, efallai dydych chi ddim yn ddigon cymwys i fod yn athro/athrawes…os nad yw’ch sgiliau llythrennedd yn ddigon da, efallai dylech chi ddim addysgu.’ Ymgeisydd AGA

‘Rwy’n credu ei fod [paratoi ar gyfer y prawf Mathemateg] wedi gwella fy sgiliau rhifedd dros dro ac wedi rhoi hyder i mi. Ond nid oedd wedi helpu â’r TAR [Cynradd] mewn gwirionedd gan nad oedd yn berthnasol iawn i’r sgiliau yr oedd arnaf eu hangen yn yr ystafell ddosbarth.’ Ymgeisydd AGA

‘Yr hyn a fyddai’n fy mhryderu i… yw’r asesiad o lythrennedd a rhifedd mewnol neu wedi’i seilio ar gynhyrchion masnachol, ond na chytunwyd o reidrwydd ei fod yn gyfwerth â’r lefel llythrennedd a rhifedd rydym ni’n chwilio amdani mewn gwirionedd.’ Arbenigwr polisi

3.32 **Safonau’r profion:** Mae safbwyntiau ymgeiswyr ynglŷn â lefel anhawster y profion yr oeddent wedi’u sefyll yn amrywio’n sylweddol, gan ddibynnu’n enwedig ar ba ddarparwr yr oeddent wedi gwneud cais iddo. Roedd sawl ymgeisydd UWTSD a gyfwelwyd a oedd wedi gwneud profion a weinyddwyd gan Goleg Sir Gâr yn credu bod y profion yn gymharol rwydd, tra bod ymgeiswyr a gyfwelwyd o Brifysgol Metropolitan Caerdydd yn tueddu i gredu bod y safon yn eithaf uchel. Yn gyffredinol, nid oedd ymgeiswyr yn sicr a oedd y profion cyfwerthedd mewnol yr oeddent wedi’u sefyll yn adlewyrchu gwir safon Gradd B TGAU mewn gwirionedd.

‘Rwy’n credu y dylsai wedi bod ychydig yn fwy anodd; dylai fod ar yr un lefel â TGAU a bod yn gysylltiedig â’r cwrs rydych chi’n ei wneud. Roeddwn i’n synnu nad oedd mor heriol.’ Ymgeisydd AGA

‘Mae’n haws o lawer i gael y Prawf Cyfwerthedd na’r TGAU.’ Ymgeisydd AGA

‘Nid oedd y cynnwys yn agos at safon TGAU yn yr arholiad… Roedd yn sylfaenol, cynnwys papur lefel is… fwy na thebyg lefel cyfnod allweddol 3 hyd yn oed.’ Ymgeisydd AGA

‘Nid oedd llawer o bobl ar fy nghwrs wedi llwyddo yn y prawf cyfwerthedd Mathemateg Met Caerdydd y tro cyntaf. Roedd llawer o bobl, gan gynnwys fi fy hun, yn credu bod y prawf Mathemateg yn eithaf anodd.’ Ymgeisydd AGA

‘Dydw i ddim wedi gweld y profion felly ni allaf roi sylwadau ar ansawdd neu anhawster y profion… Dydw i ddim yn credu bod unrhyw un arall yma sydd wedi eu gweld nhw. Gan eich bod chi wedi crybwyll y peth nawr, mae’n sicr yn rhywbeth y dylem ni edrych arno ein hunain.’ Darparwr AGA

3.33 **Cwmpas y profion:** Mae ambell ymgeisydd yn credu nad yw’r wybodaeth bynciol a’r sgiliau sy’n cael eu hasesu mewn profion cyfwerthedd mewnol mor eang ag arholiadau TGAU llawn. Roedd sawl ymgeisydd wedi ailsefyll profion Iaith Saesneg neu Fathemateg TGAU llawn ond wedi sefyll profion cyfwerthedd hefyd oherwydd nid oeddent wedi cael eu canlyniadau mewn pryd i gael eu derbyn ar gyfer eu cwrs AGA. Felly, roedden nhw mewn sefyllfa dda i gymharu safonau ac ymdriniaeth y profion yn uniongyrchol.

‘Mae’n anodd iawn taro cydbwysedd rhwng ceisio sicrhau ein bod ni’n darparu prawf cyfwerth o ran cynnwys a safon i radd B TGAU, a darparu’r cwrs mewn fformat sy’n gynhwysol i bawb sy’n credu y byddent yn athro da.’ Darparwr AGA

3.34 **Gweinyddu’r profion:** Mae rhai aelodau staff darparwyr yn credu bod profion a gynhelir yn fewnol yn canolbwyntio mwy ar ymgeiswyr. Gallai profion mewnol leihau rhwystr posibl i ddarpar ymgeiswyr, yn enwedig pan fo’r darparwr yn talu am y prawf. Roedd profiad ymgeiswyr o weinyddu profion yn gadarnhaol yn bennaf, ac nid oeddent yn credu, yn gyffredinol, bod y ffioedd profion a godwyd gan rai darparwyr yn rhwystr allweddol rhag ymgeisio am gyrsiau AGA. Fodd bynnag, roedd rhai ymgeiswyr yn credu y dylai pob darparwr gynnig cymorth i ddysgwyr cyn y prawf fel mater o drefn, gan ei bod yn annheg i rai pobl gael manteision dim ond oherwydd eu bod nhw’n gallu fforddio talu mwy am gymorth neu’n gallu cael mynediad ato oherwydd trefniadau gwaith neu fywyd mwy hyblyg.

‘Lle’r oeddem ni’n dweud yn flaenorol, rydym ni’n credu bod gennych chi botensial i ddilyn ein cwrs ond mae angen i chi wneud prawf cyfwerthedd… Rydym ni’n teimlo nawr, trwy ddarparu ein prawf cyfwerthedd ein hunain, ein bod ni’n darparu llwybr symlach i ymgeiswyr. Felly, rydym ni’n bod yn fwy cefnogol wrth eu helpu trwy’r broses.’ Darparwr AGA

‘Rwy’n credu y cafodd ei gynnal yn dda, a bod yn onest. Amodau prawf arferol, cawsom ein paratoi’n dda a rhoddwyd digon o amser i ni. Roedd yn dda, dim cwynion.’ Ymgeisydd AGA

3.35 **Sicrhau ansawdd a chymedroli:** Mae rhai staff darparwyr yn cydnabod nad oes gan eu canolfan broses gymedroli neu sicrhau ansawdd ffurfiol, ac nid oeddent bob amser yn gallu mynegi'r sail resymegol dros y trothwyon llwyddo a osodwyd yn ystod cyfweliadau. Yn gyffredinol, roedd ymgeiswyr yn credu eu bod wedi derbyn canlyniadau eu profion yn gyflym, ond nid oeddent yn credu bod y canlyniadau'n cyfateb yn agos i'r hyn y byddent wedi'i gyflawni pe byddent wedi ailsefyll eu cymhwyster TGAU.

> 'Rwy'n credu, gyda llawer o wahanol brofion, ni allwch fod 100% yn siwr bod y radd B gyfwerth ar gyfer un prawf yr un fath â'r radd B gyfwerth ar gyfer un arall.' Darparwr AGA

> 'Mae'n anodd profi p'un a yw myfyriwr ar lefel Gradd B ai peidio.' Darparwr AGA

3.36 **Arferion darparwyr AGA eraill:** Er nad yw llawer o staff darparwyr yn gyfarwydd â manylion profion cyfwerthedd a gynigir gan unrhyw ddarparwyr AGA eraill yng Nghymru, maen nhw'n ymwybodol iawn bod arferion profi'n amrywio ledled Cymru ac efallai nad yw safonau'n gyson. Mae canfyddiadau cyfweliadau ag arbenigwyr ac ymgeiswyr hefyd yn dangos pryderon ynghylch safonau anghyson rhwng darparwyr. Cyfeiriodd rai ymatebwyr i'r arolwg a oedd wedi ymgeisio i sawl darparwr at y gwahaniaethau yn y profion cyfwerthedd (neu wybodaeth a dderbyniwyd am y profion), gan ddweud bod hynny'n ddryslyd ac yn 'annheg' os nad oedd rhaid i ymgeiswyr AGA eraill wneud yr un lefel o asesiad. Dywedodd nifer fach o ymgeiswyr a gyfwelwyd eu bod yn gwybod am ymgeiswyr a oedd wedi methu prawf cyfwerthedd mewnol gan un darparwr a llwyddo mewn un arall gan ddarparwr arall yn fuan wedi hynny.

3.37 Ystyrir bod sefyll profion cyfwerthedd yn haws nag ailsefyll TGAU llawn neu gwblhau cymhwyster cyfwerth. Roedd un darparwr yn credu bod ei brawf yn ddangosydd o b'un a allai ymgeisydd gyflawni Gradd B TGAU pe byddai'n astudio am flwyddyn, yn hytrach na bod y prawf yn gyfwerth â Gradd B TGAU ei hun.

> 'Rwy'n ymwybodol iawn ei bod yn gwbl ad hoc a bod y safonau'n amrywio'n fawr. Rwy'n credu'n gryf bod angen sefydlu safon genedlaethol.' Darparwr AGA

‘Rwy’n gwybod eu bod nhw’n bodoli, ond dydw i ddim yn gwybod beth maen nhw’n ei brofi yn unigol. Dydw i ddim yn gwybod p’un a yw’r lluniadaeth a’r parth yn ddilys, p’un a yw’r profion yn ddibynadwy ac ym mha ffyrdd maen nhw’n wahanol i’w gilydd.’ Arbenigwr polisi

*Safbwyntiau rhanddeiliaid ynglŷn â phrofion amgen*

Mae cyfweliadau â staff darparwyr AGA, athrawon dan hyfforddiant / athrawon newydd gymhwyso a rhanddeiliaid yn datgelu:

- Bod y rhan fwyaf o **staff darparwyr AGA** yn ymwybodol o’r profion masnachol a ddarperir gan EquivalencyTesting.com, ond nad oeddent yn eu ffafrio oherwydd y ffioedd uchel i ymgeiswyr a’r trefniadau gweinyddol anfoddhaol. At ei gilydd, nid oedd staff yn ymwybodol o brofion cyfwerthedd amgen neu brofion llythrennedd a rhifedd eraill a allai fod yn addas i asesu ymgeiswyr AGA.
- Nid oedd **rhanddeiliaid** ychwaith yn gyfarwydd â llawer o brofion amgen a allai fod yn addas i fodloni’r dibenion asesu. Roedd un rhanddeiliad yn gallu trafod y Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol yn fanwl, tra bod un arall wedi crybwyll Pecyn Cymorth Sgiliau Hanfodol Cymru yn fras, ond ni ystyriwyd bod y naill brawf na’r llall yn arbennig o berthnasol i ddibenion prawf cyfwerthedd i gael mynediad at AGA.
- Roedd ambell **ymgeisydd** a gyfwelwyd wedi sefyll profion masnachol a gynhaliwyd gan EquivalencyTesting.com, ac yn gyffredinol roeddent yn credu bod y profion hyn yn eithaf trwyadl o gymharu â phrofion cyfwerthedd mewnol yr oeddent wedi’u sefyll. Fodd bynnag, roedd rhai ymgeiswyr yn credu bod y safon a oedd yn cael ei hasesu yn is nag arholiadau TGAU go iawn ar Radd B.

*a) Profion cyfwerthedd masnachol*

3.38 At ei gilydd, roedd staff darparwyr yn credu bod profion masnachol yn **ddewis amgen defnyddiol i ymgeiswyr nad ydynt yn gallu sefyll profion cyfwerthedd mewnol** am ba reswm bynnag. Mae mwy na hanner y staff AGA yn ymwybodol o brofion a ddarperir gan ‘EquivalencyTesting.com’ a naill ai wedi’u defnyddio cyn cyflwyno eu profion cyfwerthedd mewnol eu hunain, wedi ymchwilio iddynt ar un adeg neu’n parhau i gyfarwyddo rhai ymgeiswyr i’w sefyll os nad yw un o’r dyddiadau profi mewnol yn gyfleus

iddynt. Mae un darparwr o leiaf yn defnyddio ‘A* Equivalency’ yn lle’r prawf cyfwerthedd mewnol os yw ymgeiswyr yn cyflwyno cais yn hwyr. Yn yr achosion hyn, byddai’r darparwr yn gweithredu fel canolfan cynnal prawf, yn nodweddiadol. Fodd bynnag, yn gyffredinol, mae’n well gan staff darparwyr gynnal eu profion mewnol eu hunain.

3.39 Y farn gyffredinol oedd bod profion masnachol **yn fwy trwyadl na rhai profion cyfwerthedd mewnol, ond yn llai trwyadl na TGAU**. Roedd rhai ymgeiswyr a fethodd brawf EquivalencyTesting.com wedi mynd ymlaen i lwyddo mewn profion cyfwerthedd mewnol a gynhaliwyd gan ddarparwyr AGA eraill yng Nghymru. Fodd bynnag, roedd un ymgeisydd yn credu bod safon y prawf Mathemateg a luniwyd gan EquivalencyTesting.com yn is na’r profion niferus sy’n ofynnol i gwblhau TGAU llawn ac yn cynnwys ymdriniaeth gulach o’r cwricwlwm.

> ‘Doeddwn i ddim yn credu ei fod mor anodd â TGAU arferol, a bod yn onest. Felly, mae’n siwr taw dyna pam y llwyddais i. Rwy’n credu yr oedd y TGAU fel yna mewn ysgolion yn fwy anodd o lawer.’ Ymgeisydd AGA

3.40 **Nid yw cynnwys y profion wedi’i deilwra i gyd-destun Cymru.** Mae rhai darparwyr AGA yn credu nad yw cynnwys y profion hyn bob amser yn cyd-fynd ag arholiadau TGAU CBAC, gan fod darparwyr y profion preifat yn gweithredu ledled y DU. Nid oes dewis i sefyll profion masnachol yn Gymraeg ar hyn o bryd ychwaith.

3.41 **Nid yw’r profion wedi cael eu gweinyddu’n foddhaol bob amser,** yn ôl rhai staff darparwyr AGA. Ystyriwyd bod cyfathrebu ynglŷn â threfniadau gweinyddol yn wael weithiau. Ar un adeg, nid oedd papurau prawf wedi cyrraedd ac nid oedd cynrychiolydd darparwr prawf preifat wedi dod i gynnal y profion mewn lleoliad darparwr AGA. At hynny, fel arfer, cynigir nifer eithaf cyfyngedig o ddyddiadau profi yng Nghymru, ac weithiau mae’n rhaid i ymgeiswyr sefyll y prawf mewn darparwr AGA arall. Awgrymodd adborth gan ymgeiswyr fod goruchwyliaeth y prawf yn wael gan fod pobl yn siarad yn ystod yr arholiad ac nid oedd digon o oruchwylwyr i gynnal y broses yn effeithiol.

3.42 Yn gyffredinol, roedd staff AGA a gyfwelwyd yn cytuno bod **y profion masnachol a’r deunyddiau adolygu cysylltiedig yn ddrud i ymgeiswyr** a gallent fod yn rhwystr, a dyna pam oedd rhai darparwyr wedi dechrau peidio

ag argymell y profion i ymgeiswyr. Mae rhai staff darparwyr o'r farn nad oes llawer o werth i'r pecynnau paratoi a werthir gan EquivalencyTesting.com. Roedd un ymgeisydd a gyfwelwyd wedi defnyddio deunydd adolygu TGAU BBC Bitesize yn lle'r deunyddiau hynny.

> 'Does dim ots gen i dalu £50 am yr arholiad, ond rwy'n teimlo y gallai adnoddau ar-lein wedi bod am ddim… Roedd yr adnoddau'n ddrud, yn fy marn i.' Ymgeisydd AGA

*b) Y Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol*

3.43 **Diben y profion:** Ychydig iawn o staff AGA a rhanddeiliaid polisi a soniodd am y Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol fel dewis amgen perthnasol i'w archwilio. Yn ôl arbenigwr ar asesu, mae dibenion y Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol yn sylfaenol wahanol i brofion cyfwerthedd AGA.

> 'Mae'n ymddangos i mi y byddai'r hyn a fyddai'n digwydd o dan y profion cyfwerthedd yn wahanol iawn i'r hyn rydym ni'n sôn amdano o ran profion addasol.' Arbenigwr ar asesu

> 'Y neges rydym ni'n ei chyfleu oddi wrth Lywodraeth Cymru yw bod y profion hyn at ddefnydd ffurfiannol… Mae'r wybodaeth o'r profion i'w defnyddio gan ysgolion fel y gallan nhw asesu sut mae eu dysgwyr yn dod ymlaen a ble mae bylchau penodol mewn sgiliau.' Arbenigwr ar asesu

3.44 **Cynnwys y profion:** Mae'n bosibl y gallai rhai o'r cwestiynau sydd wedi'u hanelu at ddisgyblion blwyddyn 9 galluog yn y gronfa eitemau sy'n cael ei datblygu ar hyn o bryd ar gyfer y profion darllen a rhifedd cenedlaethol addasol ar-lein gael eu hailddefnyddio mewn prawf cyfwerthedd cenedlaethol ar gyfer athrawon AGA, er efallai na fyddai'r cwestiynau hyn ar lefel briodol ac na fyddent yn ymdrin â'r set lawn o gymwyseddau/cwricwlwm TGAU a ddymunir ar gyfer prawf cyfwerthedd Gradd B TGAU.

> 'Pe byddai unrhyw ran o'r deunydd a ddeuai o'r prosiect hwn yn ddefnyddiol ar gyfer y prosiect AGA, rwy'n credu y byddai… yn ymwneud ag edrych ar y cynnwys sydd gennych chi ar ben uchaf blwyddyn 9 a gweld a ellid ei ailwampio mewn rhyw ffordd… Mae'n bosibl y gallai rhywfaint o'r cynnwys fod ar y lefel iawn.' Arbenigwr ar asesu

3.45 **Dull profi:** Os yw profion cyfwerthedd AGA am gael eu darparu ar-lein yn y dyfodol, gallai'r broses o ddatblygu'r profion darllen a rhifedd cenedlaethol ar-lein amlygu gwersi am elfennau technegol y gellid eu harchwilio ymhellach.

‘Mae’n bosibl y gallai rhai o’r systemau rydym ni’n eu datblygu… fod yn berthnasol. Neu fe allai fod agweddau ar hyn a allai fod o ddiddordeb i greu rhywbeth tebyg.’ Arbenigwr ar asesu

3.46 **Safon y profion a sgorio:** Nid oedd arbenigwr ar asesu’n credu ei bod yn bosibl cysylltu sgorau’r profion Blwyddyn 9 â lefelau Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru neu raddau TGAU ar hyn o bryd. Nid yw’n rhywbeth y mae Llywodraeth Cymru a’u contractwyr yn ei wneud ar hyn o bryd nac yn bwriadu ei wneud yn rhan o’r Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol.

3.47 Gellir dysgu’r gwersi canlynol o weithredu’r profion hyn:

- **Heriau TG posibl:** Mae angen seilwaith o safon benodol a digon o derfynellau ar ddarparwyr er mwyn i bob ymgeisydd sefyll y profion. Mae hefyd angen iddynt allu gwarantu dibynadwyedd technoleg wrth weinyddu’r profion.
- **Pennu graddfeydd amser realistig ar gyfer datblygu datrysiad ar-lein:** roedd ganddynt amserlen uchelgeisiol iawn ar gyfer sefydlu’r prosiect darllen a rhifedd cenedlaethol ar-lein.

‘O ran prawf cenedlaethol, rwy’n credu yr oedd sefyllfa debyg iawn yn bodoli cyn i’r prawf [darllen a rhifedd] cenedlaethol gael ei gyflwyno yn yr ystyr bod gwahanol fodelau rhanbarthol ar gyfer profion llythrennedd a rhifedd mewn ysgolion. Mae rhai ysgolion yn dal i ddefnyddio profion masnachol amrywiol hefyd os ydyn nhw eisiau. Roedd ysgolion yn defnyddio pob math o brofion mewnol a phrofion masnachol. Roedd arferion gwahanol mewn rhanbarthau gwahanol, felly mae wedi dod â phopeth at ei gilydd.’ Arbenigwr ar asesu

3.48 **Pecyn Cymorth Sgiliau Hanfodol Cymru:** Nid oedd yr un o’r rhanddeiliaid a gyfwelwyd yn arbennig o gyfarwydd â’r prawf WEST nac wedi cyfeirio ato fel prawf perthnasol i’w archwilio ymhellach.

*Asesiad o’r profion ar y rhestr fer*

3.49 Er mwyn pennu i ba raddau mae’r profion ar y rhestr fer yn addas i’w defnyddio fel profion cyfwerthedd cenedlaethol, fe’u haseswyd yn erbyn pedwar maen prawf allweddol:

- Diben a chwmpas y profion: A yw’r prawf wedi’i gynllunio i asesu ymgeiswyr ar safon gradd B TGAU? A yw’r prawf yn asesu galluoedd

ymgeiswyr ar draws yr ystod lawn o sgiliau a gwybodaeth sy'n rhan o'r cwricwlwm TGAU?

- Dull y profion: A yw'r prawf yn ddigon hir i allu bod yn gymaradwy i arholiadau TGAU mewn gwirionedd? A yw fformat y cwestiynau'n drylwyr (e.e. dim amlddewis)?
- Gweinyddu'r profion: A oes tystiolaeth o arferion goruchwylio a chymedroli cadarn?
- Safon y profion: A yw'r ymagwedd at raddio a gosod marc llwyddo yn eglur ac yn gadarn? A yw'r gyfradd lwyddo'n dangos bod ymgeiswyr yn cael eu herio o ddifrif?

3.50 Rhoddwyd sgôr o rhwng 0 a 2 i'r profion ar gyfer pob un o'r meini prawf hyn. Rhoddir asesiad cryno o'r profion ar y rhestr fer yn Tabl 3.3. Mae'n dangos na allai unrhyw un o'r profion ar y rhestr fer gael eu hystyried yn brofion cyfwerthedd cenedlaethol posibl.

### Tabl 3.3 Addasrwydd y profion ar y rhestr fer

| Prawf | Diben/cwmpas y prawf | Dull y prawf | Gweinyddu'r prawf | Safon y prawf | Sgôr gyfunol |
|---|---|---|---|---|---|
| **Profion mewnol Prifysgol Metropolitan Caerdydd** | 1 | 1 | 1 | 1 | 4 o 8 |
| | **Ystyriaethau allweddol:** Fe'u cynlluniwyd i asesu cymhwysedd ar lefel sy'n gyfwerth â gradd B TGAU, ond mae rhai rhanddeiliaid yn credu nad yw ymdriniaeth y profion mor eang â sefyll arholiadau TGAU llawn. Mae'r cwestiynau'n debyg i arholiadau TGAU ond mae hyd y prawf yn fyrrach (Saesneg – 90 munud; Mathemateg – 90 munud). Ni chododd rhanddeiliaid bryderon ynghylch goruchwylio, ond nid oes proses gymedroli eglur a chadarn ar waith. Prawf llwyddo neu fethu ydyw yn syml ac mae rhanddeiliaid yn credu y gallai safon y profion fod yn is na gradd B TGAU go iawn. Cyfraddau llwyddo cymedrol i uchel: 91% ar gyfer Saesneg (n=53) a 64% ar gyfer Mathemateg (n=77). | | | | |
| **Profion mewnol Prifysgol Bangor** | 1 | 1 | 1 | 1 | 4 o 8 |
| | **Ystyriaethau allweddol:** Fe'u cynlluniwyd i asesu cymhwysedd ar lefel sy'n gyfwerth â gradd B TGAU, ond mae rhai rhanddeiliaid yn credu nad yw ymdriniaeth y profion mor eang â sefyll arholiadau TGAU llawn. Mae'r cwestiynau'n debyg i arholiadau TGAU ond mae hyd y prawf yn fyrrach (Saesneg – 90 munud; Mathemateg – 90 munud). Ni chododd rhanddeiliaid bryderon ynghylch goruchwylio, ond nid oes proses gymedroli eglur a chadarn ar waith. Mae rhanddeiliaid yn credu y gallai safon y profion fod yn is na gradd B TGAU go iawn. Cyfraddau llwyddo uchel: 91% ar gyfer Saesneg (n=65) a 96% ar gyfer Mathemateg (n=72). | | | | |
| **Profion mewnol Prifysgol Aberystwyth** | 1 | 1 | 1 | 1 | 4 o 8 |
| | **Ystyriaethau allweddol:** Fe'u cynlluniwyd i asesu cymhwysedd ar lefel sy'n gyfwerth â gradd B TGAU, ond mae rhai rhanddeiliaid yn credu nad yw ymdriniaeth y profion mor eang â sefyll arholiadau TGAU llawn. Mae'r cwestiynau'n debyg i arholiadau TGAU ond mae hyd y prawf ychydig yn fyrrach (Saesneg – 2 awr; Mathemateg 2x1 awr 20 munud). Ni chododd rhanddeiliaid bryderon ynghylch goruchwylio, ond nid oes proses gymedroli eglur a chadarn ar waith. Mae rhanddeiliaid yn credu y gallai safon y profion fod yn is na gradd B TGAU go iawn. Cyfraddau llwyddo cymedrol i uchel: 59% ar gyfer Saesneg (n=17) ac 87% ar gyfer Mathemateg (n=15). | | | | |
| **Profion mewnol Prifysgol De Cymru** | 0 | 1 | 1 | 1 | 3 o 8 |
| | **Ystyriaethau allweddol:** Fe'u cynlluniwyd i asesu cymhwysedd ar lefel sy'n gyfwerth â gradd B TGAU, ond mae'r profion yn rhan o 'fodiwl cyfwerthedd gradd B' ehangach ar ffurf cwrs 12 wythnos ac mae 50% o'r asesiad yn waith cwrs. Mae'r cwestiynau'n debyg i arholiadau TGAU ond mae hyd y prawf ychydig yn fyrrach (Saesneg – 2 awr; Mathemateg – 2 awr). Ni chododd rhanddeiliaid bryderon ynghylch goruchwylio, ond nid oes proses gymedroli eglur a chadarn ar waith. Mae rhanddeiliaid yn credu y gallai safon y profion fod yn is na gradd B TGAU go iawn. Cyfraddau llwyddo cymedrol: 56% ar gyfer Saesneg (n=9) a 46% ar gyfer Mathemateg (n=13). | | | | |
| **Profion mewnol Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant/Coleg Sir Gâr** | 1 | 1 | 0 | 0 | 2 o 8 |
| | **Ystyriaethau allweddol:** Fe'u cynlluniwyd i asesu cymhwysedd ar lefel sy'n gyfwerth â gradd B TGAU, ond mae rhanddeiliaid yn credu'n unfrydol nad yw ymdriniaeth y profion mor eang â sefyll arholiadau TGAU llawn. Nid yw'r prawf Mathemateg yn cynnwys cwestiynau marc uchel sy'n gofyn am ddatrys problemau mwy cymhleth. Mae hyd y profion ychydig yn fyrrach nag arholiadau TGAU llawn (Saesneg – 2 awr; Mathemateg – 2 awr). Gweinyddir y profion mewn coleg Addysg Bellach partner (Coleg Sir Gâr) ac mae cyfweliadau'n awgrymu nad oes gan staff UWTSD lawer o ymwybyddiaeth o'r profion hyn na goruchwyliaeth ohonynt. Ni chododd rhanddeiliaid bryderon ynghylch | | | | |

| Prawf | Diben/cwmpas y prawf | Dull y prawf | Gweinyddu’r prawf | Safon y prawf | Sgôr gyfunol |
|---|---|---|---|---|---|
| | goruchwylio, ond nid oes proses gymedroli eglur a chadarn ar waith. Mae rhanddeiliaid yn credu bod safon y profion yn is o lawer na gradd B TGAU go iawn. Cyfraddau llwyddo uchel iawn: 97% ar gyfer Saesneg (n=70) a 100% ar gyfer Mathemateg (n=109). | | | | |
| **Profion Iaith Saesneg a Mathemateg Equivalency Testing** | 1 | 1 | 0 | 2 | 4 o 8 |
| | **Ystyriaethau allweddol:** Fe’u cynlluniwyd i asesu cymhwysedd ar unrhyw radd TGAU (fe’u defnyddir yn eang yn Lloegr ar gyfer cyfwerthedd â gradd C TGAU), ond nid yw cynnwys y profion yn cyd-fynd yn llwyr â maes llafur CBAC. Mae’r cwestiynau’n debyg i arholiadau TGAU ond mae hyd y prawf yn fyrrach. Mae canolfannau AGA yng Nghymru wedi defnyddio’r cwmni o’r blaen, ond, yn aml, mae llai o ddyddiadau ar gael i ymgeiswyr ac mae’r gwasanaeth yn ddrud. Mae goruchwyliaeth allanol o’r profion yn annibynadwy neu’n anfoddhaol weithiau, yn ôl rhanddeiliaid. Mae’r papurau’n cael eu cymedroli’n allanol. Mae ymagwedd eglur at raddio ac mae’r profion yn cael eu derbyn yn eang gan ganolfannau AGA a sefydliadau Addysg Uwch yn Lloegr. | | | | |
| **Profion Iaith Saesneg a Mathemateg A* Equivalency** | 1 | 1 | 0 | 2 | 4 o 8 |
| | **Ystyriaethau allweddol:** Fe’u cynlluniwyd i asesu cymhwysedd ar unrhyw radd TGAU (fe’u defnyddir yn eang yn Lloegr ar gyfer cyfwerthedd â gradd C TGAU), ond nid yw cynnwys y profion yn cyd-fynd yn llwyr â maes llafur CBAC. Mae’r cwestiynau’n debyg i arholiadau TGAU ond mae hyd y prawf yn fyrrach. Mae canolfannau AGA yng Nghymru wedi defnyddio’r cwmni o’r blaen, ond, yn aml, mae llai o ddyddiadau ar gael i ymgeiswyr ac mae’r gwasanaeth yn ddrud. Mae goruchwyliaeth allanol o’r profion yn annibynadwy neu’n anfoddhaol weithiau, yn ôl rhanddeiliaid. Mae’r papurau’n cael eu cymedroli’n allanol. Mae ymagwedd eglur at raddio ac mae’r profion yn cael eu derbyn yn eang gan ganolfannau AGA a sefydliadau Addysg Uwch yn Lloegr. | | | | |
| **Pecyn Cymorth Sgiliau Hanfodol Cymru** | 0 | 0 | 0 | 1 | 1 o 8 |
| | **Ystyriaethau allweddol:** Fe’u cynlluniwyd i asesu sgiliau llythrennedd a rhifedd hanfodol, ond nid ar safon gradd B TGAU. Nid ydynt yn ymdrin â’r cwricwlwm TGAU. Mae cwestiynau amlddewis nad ydynt yn debyg i TGAU ac mae hyd pob elfen fel arfer yn fyrrach o lawer nag arholiadau TGAU. Ni wneir yr asesiadau o dan amodau arholiad. Nid oes gan yr asesiadau feini prawf llwyddo neu fethu. Mae pob asesiad yn dechrau ar lefel cyn-TGAU ond yn cynyddu o ran lefel anhawster. | | | | |
| **Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 o 8 |
| | **Ystyriaethau allweddol:** Fe’u cynlluniwyd i asesu sgiliau darllen, rhifedd gweithdrefnol a rhesymu rhifiadol disgyblion Blwyddyn 2 i Flwyddyn 9 yn ffurfiannol, felly nid ydynt ar safon gradd B TGAU. Nid ydynt yn ymdrin â’r cwricwlwm TGAU nac yn asesu ysgrifennu. Mae’r cwestiynau ar ffurf amlddewis i raddau helaeth ac mae hyd y profion yn fyrrach o lawer nag arholiadau TGAU. Gwneir y profion mewn ysgolion a byddant yn brofion addasol ar-lein yn fuan. Nid oes gradd lwyddo neu fethu. Mae’r profion yn darparu sgôr wedi’i safoni yn ôl oedran yn hytrach na gradd y gellir ei chysylltu â graddau TGAU. | | | | |

*Ffynhonnell: Dadansoddiad ICF*


**Safbwyntiau rhanddeiliaid ynglŷn â phrawf cyfwerthedd cenedlaethol**

Mae cyfweliadau â staff darparwyr AGA, athrawon dan hyfforddiant / athrawon newydd gymhwyso a rhanddeiliaid yn datgelu:

- Bod bron pob **aelod o staff darparwyr AGA** o blaid cyflwyno rhyw fath o brawf cyfwerthedd cenedlaethol oherwydd eu bod yn cydnabod yr angen am gysondeb rhwng darparwyr a buddion proses sicrhau ansawdd gadarn. Fodd bynnag, nid oedd eu safbwyntiau mor bendant ynglŷn â natur fwyaf priodol y fformat, y cymwyseddau i'w hasesu a gweinyddiaeth y profion cyfwerthedd cenedlaethol arfaethedig.
- Bod **rhanddeiliaid** hefyd yn cydnabod yr angen am gysondeb ac yn credu y dylai prawf cyfwerthedd cenedlaethol gael ei ystyried, ond pwysleisiodd rhai gymesuredd yng nghyd-destun heriau recriwtio athrawon. Amlygodd rhai bwysigrwydd ystyried yr ystod lawn o opsiynau i gyflawni'r nod polisi, fel profi am gyfwerthedd wrth ymadael yn hytrach nag ymuno â chwrs AGA fel gofyniad ar gyfer statws athro cymwysedig/athrawes gymwysedig.
- Byddai **ymgeiswyr** a oedd wedi sefyll sawl prawf cyfwerthedd gan ddarparwyr gwahanol yn croesawu prawf cenedlaethol oherwydd y buasai wedi bod yn fwy cyfleus. Mewn rhai achosion, mae ymgeiswyr wedi gwario symiau mawr o arian ar nifer o gyrsiau a phrofion i gyrraedd y safon ofynnol.

3.51 Mae canlyniadau'r arolwg yn dangos bod gan ymgeiswyr a brofwyd safbwyntiau cymysg ynglŷn â ffurf arfaethedig trefniadau profi yn y dyfodol. Roedd chwarter yr ymgeiswyr a ymatebodd yn credu y dylai darparwyr AGA ddefnyddio'r un profion cyfwerthedd safonedig (25%). Roedd mwy o ymatebwyr yn credu y dylai'r trefniadau aros yr un fath (40%), er nad oedd unrhyw ymatebwyr o Brifysgol Aberystwyth a Phrifysgol De Cymru wedi dewis yr opsiwn hwn.

**Ffigur 3.3 Safbwyntiau ymgeiswyr ynglŷn â threfniadau profi yn y dyfodol**




*Sylfaen: Cyfanswm yr ymatebwyr, N = 94 (saith heb ymateb wedi'u heithrio o'r dadansoddiad)*

3.52 Mae amrywiaeth o fuddiannau a heriau allweddol posibl wedi cael eu hamlygu mewn perthynas â chyflwyno prawf cyfwerthedd cenedlaethol o ddadansoddi'r cyfweliadau â rhanddeiliaid, fel yr amlinellir isod.

*Buddion posibl*

3.53 **Tegwch a chysondeb ar draws darparwyr:** Roedd y rhan fwyaf o'r staff darparwyr AGA a gyfwelwyd yn cytuno y byddai prawf cyfwerthedd cenedlaethol yn sicrhau bod asesu'n deg ac yn gyson i bob ymgeisydd AGA ledled Cymru. Dywedasant y byddai sicrhau ansawdd a marcio allanol yn sicrhau nad yw darparwyr yn dehongli'r gofyniad Gradd B yn wahanol nac yn cael eu cymell i gynllunio profion haws neu farcio'n hael er mwyn sicrhau niferoedd recriwtio AGA uchel ar gyfer eu canolfan.

> 'Byddai'n gwneud y sefyllfa'n decach o lawer yng Nghymru. Ar hyn o bryd, dydw i ddim yn gwybod beth mae darparwyr eraill yn ei ystyried yn gyfwerth ai peidio ac mae'n agored i'w ddehongli.' Darparwr AGA

> 'Pe byddai'n genedlaethol, byddai gennych fwy o sicrwydd ynghylch dilysrwydd, ei fod yn berthnasol i bolisi Llywodraeth Cymru, a'r dibynadwyedd y byddai dau unigolyn sy'n sefyll y prawf ac yn rhoi'r un atebion yn cael yr un marciau.' Arbenigwr ar wella ysgolion

> ‘Pe byddai gennych brawf cenedlaethol y mae pawb yn ei wneud, ni fyddai modd hepgor rhagofynion neu ddewis yr opsiwn haws. Hefyd, mae’n golygu bod y sefyllfa’r un fath i bob prifysgol, lle mae un brifysgol yn gweithredu’n deg ond nid un arall.’ Ymgeisydd AGA

> ‘Mae prifysgolion gwahanol yn chwarae gemau gwahanol. Rwy’n credu ei bod yn gyfle i wneud arian i rai pobl. Efallai eu bod nhw’n llacio’r rheolau ychydig weithiau. Roeddwn i’n synnu bod dau ymgeisydd a oedd wedi methu ein profion yn eithaf gwael… wedi llwyddo mewn prawf mewn prifysgol arall wythnos yn ddiweddarach.’ Darparwr AGA

3.54 **Tryloywder, eglurder a chyfleustra i ymgeiswyr:** Gallai prawf cenedlaethol helpu i godi proffil y gofyniad am Radd B TGAU a gwneud y broses ymgeisio’n eglurach ac yn symlach i ymgeiswyr, yn ôl ambell aelod o staff AGA. O dan y trefniadau presennol, mae’n bosibl y bydd angen i rai ymgeiswyr sy’n ymgeisio i fwy nag un darparwr AGA yng Nghymru sefyll profion cyfwerthedd gwahanol mewn canolfannau gwahanol, yn ogystal â’r profion llythrennedd a rhifedd cyn-mynediad y mae’n rhaid i bob ymgeisydd eu sefyll.

3.55 Disgrifiodd un ymgeisydd sut oedd mwy nag un darparwr yr oedd wedi ymgeisio iddo yn ansicr p’un a fyddai ei brofion cyfwerthedd mewnol yn cael eu derbyn mewn mannau eraill. Felly, byddai cyflwyno un prawf cenedlaethol yn fwy cyfleus i ymgeiswyr ac yn lleihau rhwystrau posibl rhag mynediad. Gallai hefyd fod yn decach pe byddai un gost sefydlog ar gyfer y prawf cenedlaethol i bob ymgeisydd ledled Cymru. Fodd bynnag, gallai darparwyr gynnig gwahanol lefelau o gymorth cyn y prawf am brisiau gwahanol o hyd.

> ‘Rwy’n credu y byddai’n atal rhai myfyrwyr rhag teimlo bod llai o groeso iddynt i’r proffesiwn neu fod rhwystr anorchfygol o’u blaenau. Rwy’n credu y byddai’n rhoi’r argraff eu bod nhw yn yr un sefyllfa â phawb arall ac y byddai hynny’n ddefnyddiol. Byddai’n eu hatal rhag gweld y radd B fel rhwystr.’ Arbenigwr ar addysg uwch

> ‘Byddai prawf cenedlaethol yn beth da. Byddai’n sicrhau bod y safon yr un fath ym mhobman.’ Ymgeisydd AGA
> ‘O’r hyn rydw i wedi’i glywed, roedd y prawf a sefais i ychydig yn haws na rhai o’r profion eraill y bu’n rhaid i bobl eu gwneud i gael lle ar y cwrs… byddai safon yn well oherwydd byddai’n golygu bod gofynion yn cael eu

bodloni mewn gwirionedd fel y'u gosodwyd gan y Llywodraeth.' Ymgeisydd AGA

'O ran gallu ei werthu neu ei farchnata i'r boblogaeth yng Nghymru, gallai hynny fod yn haws. Gallem gyfleu'r neges i'r colegau a'r prifysgolion fod un prawf cenedlaethol yn unig a byddai pawb yn gwybod ble maen nhw'n sefyll.' Darparwr AGA

3.56 **Llwyth gwaith llai i staff darparwyr:** Roedd ambell aelod o staff a gyfwelwyd yn credu y gallai prawf cyfwerthedd cenedlaethol liniaru rhywfaint ar lwyth gwaith ychwanegol cynllunio a marcio profion mewnol, a oedd yn ychwanegol at lwyth gwaith arferol darlithydd AGA weithiau. Mae'n amlwg bod costau'n gysylltiedig ag amser staff pob darparwr i ysgrifennu, trefnu, gweinyddu, goruchwylio a marcio eu profion unigol hefyd.

'Mae'r holl bethau mewnol hyn yn cynhyrchu llawer mwy o waith i rai aelodau staff allweddol ar adegau penodol o'r flwyddyn pan eu bod nhw'n ymwneud ag addysgu yn hytrach na gweinyddu a marcio profion. Rwy'n credu y byddai [prawf cyfwerthedd cenedlaethol] yn beth da iawn.' Darparwr AGA

'Pe byddai'n cael ei weinyddu ar wahân i'r darparwyr, byddai'n cymryd llwyth gwaith mawr oddi arnom, felly rwy'n credu y byddai'n beth cadarnhaol'. Darparwr AGA

"Yn bersonol, buaswn i'n ffafrio system genedlaethol lle mae pawb yn gwybod beth yw beth, lle nad ydym ni'n gyfrifol am wneud hyn. Mae hyn yn rhywbeth ychwanegol ar ben y llwyth gwaith sydd wedi cael ei roi i mi.' Darparwr AGA

3.57 **Cyfredoldeb a chydnabyddiaeth yn y proffesiwn:** Roedd rhai staff darparwyr a rhanddeiliaid yn credu y gallai prawf cyfwerthedd cenedlaethol ddenu mwy o hygrededd a chydnabyddiaeth ymhlith penaethiaid ysgolion pan fydd hyfforddeion yn ymuno â'r proffesiwn ar ôl eu hyfforddiant.

'Rwy'n credu y byddai prawf cenedlaethol yn werthfawr o ran rhoi sicrwydd i'r system fod y myfyrwyr a dderbynnir o ansawdd uchel… Rwy'n credu y byddai dangos i'r system yr hyn a ddisgwylir gan y derbyniad newydd yn fuddiol trwy gynyddu parch i athrawon a, gobeithio, annog pobl i weithio'n galetach i fod yn athrawon. Rwy'n credu bod hynny'n werthfawr.' Arbenigwr ar wella ysgolion

‘I geisio cyffelybu’r hyn rydych chi’n ei ystyried yma ar gyfer y prawf cyfwerthedd, byddai dealltwriaeth genedlaethol o’r lefel. Bydd ganddo statws a bydd yn rhoi mwy o awdurdod i’r sefyllfa.’ Arbenigwr ar asesu

*Rhwystrau a heriau posibl*

3.58 **Diffyg hyblygrwydd trefniadau gweinyddu:** Roedd y rhan fwyaf o staff darparwyr AGA yn credu y byddai angen i brawf cyfwerthedd cenedlaethol fod yn hyblyg o ran lleoliadau, amseriadau, dyddiadau a hygyrchedd neu fe allai achosi rhwystr i rai darpar ymgeiswyr. Byddai angen i ganolfannau profi gael eu lleoli’n strategol ledled Cymru.

3.59 Roedd ambell gyfwelai’n credu y byddai angen i ddarparwyr barhau i ymwneud rhywfaint â gweinyddu’r prawf. Mae angen ystyried amseriad y profion yn ofalus o ran p’un a fyddai angen i ymgeiswyr sefyll y profion cyn gwneud cais i ddarparwyr AGA neu ar ôl iddynt gael cynnig, gydag amod i lwyddo yn y prawf cyn cael eu derbyn.

3.60 **Cost datblygu a gweinyddu:** Yn nodweddiadol, roedd staff darparwyr AGA yn teimlo na allent wneud sylwadau ar effeithlonrwydd cost posibl prawf cenedlaethol, er bod rhai staff yn credu y byddai costau uwch yn gysylltiedig â datblygu a gweinyddu profion cenedlaethol. Gallai parodrwydd darparwyr i gefnogi prawf cyfwerthedd cenedlaethol ddibynnu ar raddau unrhyw gyllid a fyddai ar gael gan Lywodraeth Cymru a’r goblygiadau cost iddynt. Fodd bynnag, roedd un arbenigwr yn credu y gallai prawf cenedlaethol fod yn fwy effeithlon o ran cost yn y tymor hir. Byddai darparwyr eisiau cadarnhad ynglŷn â ph’un a fyddai cefnogaeth ganolog i weinyddu’r profion.

‘Mae costau’n gysylltiedig â sicrhau bod y system yn gweithredu’n iawn a marcio [y profion]… Rydym ni’n prosesu cryn dipyn o bobl trwy hyn, felly, yn genedlaethol, ar gyfer yr holl gyrsiau, rwy’n credu y byddai goblygiad eithaf mawr o ran cost.’ Darparwr AGA

‘Mae fy ngreddf yn dweud y byddai’n fwy effeithlon o ran cost, ond fy mhrofiad o ddyddiau cynnar y Profion Darllen a Rhifedd… oedd bod rhai sefydliadau’n dal i ddefnyddio eu profion eu hunain oherwydd eu bod yn gyfarwydd â nhw a’u bod yn rhoi’r wybodaeth yr oedden nhw ei heisiau yn y ffordd roedden nhw ei heisiau. Byddai’n fwy effeithlon o ran cost dim ond petai’r holl sefydliadau perthnasol yng Nghymru yn cytuno ei fod yn addas i’w diben.’ Arbenigwr ar wella ysgolion

3.61 **Costau i ymgeiswyr:** Roedd rhai staff AGA yn credu y byddai angen i brawf cyfwerthedd cenedlaethol gynnwys ffi ar gyfer ymgeiswyr, a allai fod yn rhwystr rhag cael mynediad i AGA. Roedd un aelod o staff eisiau'r dewis o barhau i gynnal eu profion mewnol rhad ac am ddim eu hunain i osgoi'r mater. Gallai'r costau sy'n gysylltiedig â chynnal y profion fod yn uwch mewn rhai ardaloedd o Gymru os oes llai o alw gan ymgeiswyr i sefyll y profion, ond roedd darparwyr yn credu'n bendant y byddai'n annheg disgwyl i ymgeiswyr yn yr ardaloedd hynny dalu mwy.

> 'Buaswn i'n dweud y byddai'n rhaid i brawf cenedlaethol godi ffi. Y rheswm pam dydyn ni ddim yn codi tâl, dybiwn i, yw ein bod ni'n ceisio bod yn gystadleuol ag ymgeiswyr. Buaswn i'n awgrymu y byddai tâl yn cael ei godi am brawf cenedlaethol, yn ôl pob tebyg, ond dydw i ddim yn gwybod faint.' Darparwr AGA

3.62 **Cytuno ar y cymwyseddau i'w hasesu:** Roedd darparwyr yn cytuno yn gyffredinol y dylai'r holl sefydliadau AGA yng Nghymru ymwneud â datblygu prawf cenedlaethol. Crybwyllodd ambell aelod o staff gynnwys CBAC neu gontractwr preifat wrth ddatblygu a gweinyddu prawf cenedlaethol i osgoi unrhyw wrthdaro buddiannau. Fodd bynnag, gallai fod yn heriol sicrhau cytundeb ymhlith darlithwyr addysg athrawon ar ba fathau o sgiliau llythrennedd a rhifedd y mae eu hangen ar athrawon yn yr 21ain ganrif, ac felly beth y dylai'r prawf ei asesu. Roedd rhai staff darparwyr yn pryderu, er mwyn cynllunio prawf cenedlaethol sy'n bodloni pawb, y byddai ei gynnwys yn eithaf syml ac y byddai'n asesu set gul o gymwyseddau yn unig.

> 'Os ydym ni'n mynd i gyflwyno prawf cyfwerthedd cenedlaethol, rwy'n credu y bydd angen i ni benderfynu ar ei ddiben a'r hyn rydym ni eisiau ei gael ohono ein hunain. Rwy'n credu mai'r peth pwysig yw cael y lefel yn iawn.' Darparwr AGA

> 'Mae angen penderfynu a ydych chi eisiau bod yn eithaf mecanistig a phrofi gramadeg, atalnodi a sillafu – y math hwnnw o lythrennedd. Neu a ydych chi eisiau asesu datrys problemau trwy lythrennedd, llythrennedd gwleidyddol, llythrennedd ariannol – mae'n dibynnu ar beth mae llythrennedd yn ei olygu i chi, dybiwn i. Y cwestiwn yw a ydych chi eisiau iddo fod yn llythrennedd yr 21ain ganrif sy'n llawer mwy na gramadeg, sillafu ac atalnodi, neu a ydych chi eisiau glynu wrth hanfodion yr iaith ysgrifenedig.' Darparwr AGA

> ‘Mae’n achos pryder i mi ein bod ni’n canolbwyntio ar ffyrdd y mae angen i athrawon wella eu llythrennedd, heb integreiddio beth mae llythrennedd yn ei olygu.’ Darparwr AGA

3.63 **Cyfraddau llwyddo is ymhlith ymgeiswyr:** Roedd ambell aelod o staff AGA yn credu y gallai cyflwyno profion cyfwerthedd cenedlaethol trwyadl arwain at gyfraddau methu uwch a gostyngiad dros dro yn nifer yr ymgeiswyr a dderbynnir ar gyrsiau addysg gychwynnol athrawon yng Nghymru, a allai arwain at broblem recriwtio tymor byr.


> ‘Rwy’n amau efallai y byddai llai o ymgeiswyr yn llwyddo mewn prawf cenedlaethol na phrawf lleol oherwydd y safonau amrywiol sy’n bodoli. Rwy’n amau y byddai gan brawf cenedlaethol gyfradd lwyddo is i ddechrau.’ Arbenigwr ar Addysg Uwch

> ‘Dyfalu ydw i, ond rwy’n amau pe byddai gennym ni brawf cenedlaethol, y gallai cyfradd lwyddo ein hymgeiswyr fod ychydig yn is nag ydyw ar hyn o bryd.’ Darparwr AGA

> ‘Mae rhai pobl yn gallu cyflawni’r graddau’n rhwydd iawn i gael lle ar y cwrs, ond nid yw hyn yn golygu o reidrwydd y byddan nhw’n well na rhywun sy’n cael trafferth cyflawni’r gofyniad am radd B ond sy’n deall y cysyniadau’n dda iawn.’ Darparwr AGA

3.64 Crynhoir y buddiannau a’r heriau yn 0 isod.

**Ffigur 3.4 Buddiannau a heriau cyflwyno prawf cyfwerthedd cenedlaethol**




*Ffynhonnell: Dadansoddiad ICF o gyfweliadau â staff darparwyr AGA, arbenigwyr ac ymgeiswyr.*

*Ystyriaethau ymarferol eraill yn ymwneud â chyflwyno prawf cyfwerthedd cenedlaethol*

3.65 **Dull darparu:** Roedd ambell aelod o staff AGA yn credu y byddai profion cyfwerthedd ar-lein yn well na'r profion papur presennol oherwydd gallent leihau rhywfaint o'r gofynion gweinyddol a gwneud y broses farcio'n gyflymach ac yn fwy dibynadwy. Gallai cronfa o gwestiynau digidol hefyd olygu bod modd creu sawl gwahanol fersiwn o brawf, gan gynyddu oes silff y profion. Fodd bynnag, nododd rhanddeiliaid a staff darparwyr eraill fod profion ar-lein yn tueddu i fod ar ffurf cwestiynau amlddewis sy'n gallu bod yn rhy syml, ac nad ydynt yn caniatáu i ymgeiswyr ddangos eu dull gweithio. Felly, gallai profion papur annog ymgeiswyr i feddwl yn ddyfnach a datrys problemau cymhleth. Mae perygl hefyd y gallai darparwyr brofi problemau technegol wrth weinyddu profion ar-lein.

> 'Buaswn i'n argymell rhywbeth ar-lein dim ond oherwydd ei fod yn symlach i'w gynnal, dybiwn i.' Arbenigwr ar Addysg Uwch

‘Mae profion papur yn tueddu i annog pobl i feddwl yn arafach ac yn ddyfnach na phrofion cyfrifiadurol… Un o’r rhesymau pam na wnaethon ni gyflwyno profion [darllen a rhifedd cenedlaethol] cyfrifiadurol i ddechrau yw oherwydd bod y dystiolaeth yn dangos bod pobl yn tueddu i ateb yn fwy greddfol a chyflym wrth wneud profion cyfrifiadurol… ond wrth wneud profion papur, mae pobl yn tueddu i aros, meddwl a gwneud ychydig o weithio allan a gwirio cyn rhoi ateb.’ Arbenigwr ar asesu

‘Buaswn i’n ofalus wrth ddefnyddio profion cyfrifiadurol oherwydd efallai na fydden nhw’n adlewyrchu gallu rhywun yn llawn; gallai gael ei annog i ateb yn gyflym.’ Arbenigwr ar wella ysgolion

‘Rwy’n hoffi’r fformat papur oherwydd bod amser i chi weithio allan hefyd.’ Ymgeisydd AGA

3.66 **Cynnwys gwaith cwrs a asesir:** gall rhai cymwyseddau, fel ysgrifennu a gwrando, gael eu hasesu’n well trwy waith cwrs nag arholiad. Roedd ambell aelod o staff AGA yn credu bod asesiad dwy ran sy’n cynnwys gwaith cwrs yn allweddol i sicrhau ‘cyfwerthedd’ gan ei fod yn rhoi cyfle cyfartal i fyfyrwyr wneud yn dda, nad ydynt wedi gwneud cystal trwy ddulliau ffurfiol o asesu (e.e. mae nifer o fyfyrwyr yn mynd yn bryderus oherwydd cyfyngiadau amser).

‘Polisi’r brifysgol yw defnyddio amrywiaeth o ddulliau asesu, a hynny’n rhannol oherwydd cynwysoldeb, ac i sicrhau nad ydym yn rhoi rhywun dan anfantais os yw’n cael trafferth ag un math o asesu… mae defnyddio’r ddau fath gwahanol o asesiadau’n rhoi cyfle i bobl gynyddu eu hyder a chymhwyso mathemateg mewn ffordd wahanol, ac ni fuaswn eisiau i hynny newid.’ Darparwr AGA

3.67 **Cymwyseddau i’w hasesu:** Nid oedd llawer o staff AGA a gyfwelwyd yn gallu esbonio’n fanwl yr hyn yr oeddent yn credu y dylai prawf cyfwerthedd cenedlaethol ei asesu, na pha feysydd gwan allweddol sy’n codi o ganlyniadau profion cyfwerthedd mewnol yn nodweddiadol.

‘Dydw i ddim wedi dadansoddi’r papurau eto i weld pa sgiliau allweddol sy’n achosi trafferth iddynt. Byddai hynny’n beth defnyddiol i mi ei wneud… dylwn i wneud hynny mewn gwirionedd.’ Datblygwr prawf, darparwr AGA

‘Yn hytrach nag un prawf cyfwerthedd cenedlaethol ar-lein, pe byddai canllawiau cenedlaethol gwell ar yr hyn y dylai’r profion cyfwerthedd ymdrin ag ef… byddai hynny’n darparu rhyw fath o gydraddoldeb ar draws y cyrsiau. Darparwr AGA

3.68 Awgrymodd darlithwyr a rhanddeiliaid AGA a gyfwelwyd mai'r gwendidau cyffredin mewn **galluoedd llythrennedd** athrawon dan hyfforddiant yw sgiliau ysgrifennu, gan gynnwys gramadeg, sillafu ac atalnodi cywir, yn ogystal â ffoneg a metaiaith Saesneg. Roedd rhai staff AGA a rhanddeiliaid yn credu nad yw'r trefniadau profi presennol yn asesu sgiliau ysgrifennu ymgeiswyr yn ddigon trylwyr, ac mewn rhai achosion bod y sgiliau hyn yn cael eu hasesu trwy waith cwrs yn hytrach na phrawf cyfwerthedd o dan amodau arholiad.

3.69 Awgrymodd darlithwyr a rhanddeiliaid AGA a gyfwelwyd mai'r gwendidau cyffredin mewn **galluoedd rhifedd** athrawon dan hyfforddiant yw gwybodaeth sylfaenol am ffracsiynau a chanrannau. Roedd rhai o'r cyfweleion yn credu bod profion cyfrifiannell yn annog datrys problemau mathemategol dyfnach a mwy cymhleth.

> 'O ran llythrennedd, buaswn i'n annog pobl i edrych ar lefelau darllen ac ysgrifennu a llafaredd yn hytrach nag arholiad darllen sy'n profi un is-set yn unig. Rydym ni'n gwybod mai ysgrifennu yw rhan wannaf sgiliau llythrennedd ac iaith dysgwyr yng Nghymru… Rwy'n credu y byddai'n esgeulus peidio â chynnwys hynny.' Arbenigwr ar wella ysgolion

3.70 **Cwmpas yr asesiad:** At ei gilydd, roedd dwy ysgol o feddwl ymhlith yr holl randdeiliaid ynglŷn â'r hyn y dylai prawf cenedlaethol fod yn ei asesu:

- Asesu gwybodaeth bynciol lawn ar lefel sy'n gyfwerth â Gradd B TGAU; neu
- Asesu'r sgiliau llythrennedd a rhifedd gweithredol sy'n ofynnol mewn cyd-destun proffesiynol.

3.71 Roedd y rhan fwyaf o staff AGA a rhai rhanddeiliaid yn credu bod angen i bob athro/athrawes feddu ar afael ddigonol ar y cwricwla Iaith Saesneg a Mathemateg cyffredinol i'w haddysgu ar lefel TGAU, yn enwedig o ystyried bod athrawon uwchradd yn cael cais weithiau i gyflenwi gwersi Saesneg neu fathemateg, hyd yn oed os nad ydynt wedi'u hyfforddi'n athrawon Saesneg neu fathemateg. Roedd rhai a oedd yn cefnogi'r ymagwedd hon yn credu y dylai prawf cyfwerthedd cenedlaethol gael ei seilio ar gwricwla TGAU CBAC ac ystyried y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd.

> ‘Bu dadl ynglŷn â chydnabod sgiliau gweithredol yn lle TGAU, ond maen nhw’n bethau gwahanol iawn. Mae TGAU yn darparu gwybodaeth, tra bod sgiliau gweithredol yn dangos eich bod chi’n gallu ei chymhwyso yn y byd go iawn… mae angen i unrhyw brofion cyfwerthedd archwilio’r ddau, oherwydd bod angen i chi feddu ar rywfaint o wybodaeth eang ond hefyd y gallu i’w chymhwyso.’ Arbenigwr ar bolisi
>
> “Pan gyflwynon ni’r Radd B ar gyfer TGAU, roedden ni’n gwybod ei bod yn arwydd o lythrennedd a rhifedd da, ond roedd hefyd yn ddefnyddiol wrth osod meincnod ar gyfer y safon.’ Arbenigwr ar wella ysgolion

3.72 Nid oedd rhai staff AGA a rhanddeiliaid yn credu bod ymdriniaeth eang o’r maes llafur Saesneg a Mathemateg TGAU mor bwysig ag asesu’r sgiliau llythrennedd a rhifedd craidd sy’n ofynnol mewn cyd-destun proffesiynol, yn enwedig o ystyried y dylai darpar athrawon Saesneg a mathemateg dan hyfforddiant feddu ar safon uchel iawn o Saesneg a Mathemateg sut bynnag. Roedd rhai rhanddeiliaid yn credu bod angen i athrawon cynradd ac uwchradd pynciau eraill feddu ar sgiliau llythrennedd a rhifedd gweithredol yn unig mewn lleoliad proffesiynol. Mae profion llythrennedd a rhifedd Cymru gyfan eisoes yn ateb y diben hwn, er bod rhai cyfweleion yn credu bod angen eu diweddaru.

> ‘Rwy’n credu bod sicrhau’r safonau iawn yn bwysicach o lawer na dadansoddi darnau o farddoniaeth neu beth bynnag. Mwy o bwyslais proffesiynol yw’r ffordd ymlaen, yn fy marn i.’ Arbenigwr ar bolisi
>
> ‘O ran athrawon cynradd dan hyfforddiant, fy marn bersonol i yw y buaswn eisiau iddyn nhw fod mor rhifog a llythrennog â phosibl. Does dim ots gen i’n bersonol os oes gan athro celf gefndir academaidd da iawn gyda gradd B mewn mathemateg, er enghraifft.’ Aelod o staff, darparwr AGA
>
> “Dylid ceisio cyfwerthedd ar gyfer sgiliau gweithredol neu sgiliau hanfodol hefyd, a fyddai’n ehangu mynediad.’ Arbenigwr ar bolisi

3.73 **Profi ymgeiswyr ar ddiwedd hyfforddiant yn hytrach na chyn iddynt ddechrau:** Dywedodd nifer o staff darparwyr AGA a rhanddeiliaid y dylid archwilio’r posibilrwydd o weinyddu profion cyfwerthedd Gradd B neu brofion sgiliau llythrennedd a rhifedd ar **ddiwedd** cwrs AGA fel gofyniad i gyflawni statws athro cymwysedig/athrawes gymwysedig, yn hytrach nag wrth gyflwyno cais, o ystyried yr her ehangach o ran recriwtio athrawon yng Nghymru.

3.74 Defnyddir y model ‘profi wrth ymadael’ hwn wrth asesu sgiliau llythrennedd a rhifedd pob ymgeisydd AGA yn Awstralia. Gallai’r ymagwedd hon roi cyfle i ymgeiswyr ddatblygu eu sgiliau llythrennedd a rhifedd i fodloni’r safon sy’n ofynnol dros gyfnod parhaus gyda chymorth yn cael ei ddarparu yn ystod eu cwrs AGA, yn hytrach na sefyll prawf ar wahân cyn mynediad. Fodd bynnag, mynegodd un aelod o staff bryder y byddai ymagwedd o’r fath yn tynnu sylw oddi ar ddarparu’r cwrs AGA craidd.

3.75 **Cyfathrebu’r gofyniad am Radd B yn gynnar ac yn effeithiol:** Roedd darparwyr yn cytuno bod angen rhoi gwybod i ysgolion am y gofyniad am Radd B TGAU yn fwy effeithiol ac yn gynnar fel bod myfyrwyr yn gallu ailsefyll TGAU tra eu bod yn parhau i fod mewn addysg, os oes angen, er mwyn ymuno â’r proffesiwn addysgu. Roedd y rhan fwyaf o staff darparwyr yn credu bod ailsefyll cwrs TGAU llawn, lle y bo’n bosibl, yn amgenach na sefyll prawf cyfwerthedd ar wahân.

> ‘Rwy’n credu mai’r dewis a ffefrir yw annog pobl i ddilyn rhaglenni TGAU cyn gynted â phosibl… Gallwch wneud yr un yma’n fwy a mwy trylwyr, ond os nad yw’n cyfrif fel cymhwyster sy’n gyfwerth â TGAU ar gais am swydd, ateb dros dro ydyw yn unig oherwydd y broblem go iawn yw y bydd angen y TGAU hwnnw ar bobl yn y tymor hir.’ Darparwr AGA

> ‘Os yw’r mater gradd B TGAU yn cael ei ddatrys mewn ysgolion, bydd yn osgoi’r broblem o’r dechrau. Os yw myfyrwyr yn gwybod am y gofyniad am radd B yn gynnar, gallant ddewis ailsefyll eu TGAU ym mlwyddyn 12 neu 13. Os gallem ganfod ffordd o argyhoeddi myfyrwyr bod y sgiliau hyn yn bwysig drwy’r amser, ni fyddai gennym ni broblem.’ Darparwr AGA

> ‘Mae myfyrwyr yn ddig nad oedden nhw’n gwybod. Mae hynny’n thema gyffredin.’ Darparwr AGA

### Crynodeb o’r pwyntiau allweddol

*Arferion profi cyfwerthedd mewn mannau eraill*

3.76 Y canfyddiadau allweddol oedd:

- Nid oes gan unrhyw wledydd eraill Saesneg eu hiaith brofion cyfwerthedd cenedlaethol ar waith ar gyfer ymgeiswyr AGA nad ydynt yn cyrraedd y safon ofynnol mewn Saesneg a mathemateg. Mae rhai darparwyr AGA

unigol mewn rhannau eraill o’r DU wedi datblygu profion cyfwerthedd mewnol, ond nid yw’r rhain wedi’u cynllunio i asesu cymhwysedd ymgeiswyr ar lefel Gradd B TGAU ac fe’u defnyddir yn llai eang na phrofion cyfwerthedd yng Nghymru.

- Yn aml, mae darparwyr AGA yn cyfeirio ymgeiswyr at ddau sefydliad profi cyfwerthedd preifat blaenllaw yn y DU a ddefnyddir gan ymgeiswyr nad ydynt yn bodloni’r gofynion mynediad llythrennedd a rhifedd.
- Nid oes unrhyw brofion cyfwerthedd neu lythrennedd/rhifedd amgen sy’n uniongyrchol addas yn cael eu defnyddio mewn cyd-destunau proffesiynol eraill i gael mynediad at hyfforddiant neu i gael trwydded i ymarfer a chofrestru yn y DU.  Y proffesiwn tebycaf i addysgu o ran arferion profi llythrennedd a rhifedd systematig yw nyrsio a bydwreigiaeth.  Fodd bynnag, mae gan y profion cymharol fyr a syml hyn bwyslais culach ar asesu’r sgiliau llythrennedd a rhifedd sy’n ofynnol mewn cyd-destun proffesiynol, yn ôl safon 2 lefel yn fras (Gradd C).
- Nid yw profion cyn mynediad cenedlaethol ar gyfer sgiliau llythrennedd a rhifedd proffesiynol *pob* ymgeisydd AGA yn cael eu cynnal fel mater o drefn mewn gwledydd Saesneg eu hiaith.  Mae ‘profion sgiliau proffesiynol’ Lloegr yn eithriad i hyn, ac mae cyflenwr yn rheoli’r broses o ddatblygu a darparu’r profion cenedlaethol hyn ar hyn o bryd.
- Mae modelau amgen sy’n cael eu defnyddio’n rhyngwladol ar hyn o bryd wrth brofi sgiliau llythrennedd a rhifedd pob ymgeisydd AGA yn cynnwys sefyll profion cenedlaethol cyn graddio, pennu gofyniad cenedlaethol i asesu llythrennedd a rhifedd wrth gael mynediad ond rhoi rhywfaint o annibyniaeth i ddarparwyr, a defnyddio fersiynau wedi’u teilwra o brawf masnachol.

*Y trefniadau a’r profion sydd ar gael yng Nghymru ar hyn o bryd*

3.77 Cryfderau:

- Mae staff darparwyr yn credu, i raddau helaeth, bod eu profion cyfwerthedd mewnol eu hunain yn gwasanaethu eu diben yn dda, sef asesu cymhwysedd ymgeisydd ar Radd B TGAU.
- Yn gyffredinol, mae staff darparwyr yn credu bod profion a gynhelir yn fewnol yn canolbwyntio mwy ar ymgeiswyr.  Gallai profion mewnol leihau

rhwystr posibl i ddarpar ymgeiswyr, yn enwedig pan fo'r darparwr yn talu am y prawf.  Roedd ymgeiswyr wedi cael profiadau cadarnhaol o weinyddu'r profion, gan fwyaf.

3.78 Meysydd i'w gwella:

- Mae llawer o ymgeiswyr yn credu bod cymorth cysylltiedig gan ddarparwyr yn bwysig i baratoi ar gyfer y profion ac y dylai gael ei safoni, ond mae natur a graddau'r cymorth sydd ar gael ar hyn o bryd yn amrywio rhwng canolfannau.
- Mae darparwyr yn cydnabod yr angen am gysondeb rhwng canolfannau AGA ac yn agored i drefniadau amgen.  Mae rhanddeiliaid yn tueddu i fynegi pryderon am gysondeb a thegwch i ymgeiswyr.
- Roedd safbwyntiau ymgeiswyr ynglŷn â lefel anhawster y profion yr oeddent wedi'u sefyll yn amrywio'n sylweddol, gan ddibynnu'n enwedig ar ba ddarparwr yr oeddent wedi gwneud cais iddo.  Yn gyffredinol, nid oedd ymgeiswyr yn siwr a oedd y profion cyfwerthedd mewnol yr oeddent wedi'u sefyll yn debyg i safon Gradd B TGAU mewn gwirionedd neu'n ymdrin â'r cwricwlwm mor eang.
- Mae rhai staff darparwyr yn cydnabod nad oes gan eu canolfan broses gymedroli neu sicrhau ansawdd ffurfiol, ac nid oeddent bob amser yn gallu mynegi'r sail resymegol dros y trothwyon llwyddo a osodwyd yn ystod cyfweliadau.  Nid oedd unrhyw aelod o staff a gyfwelwyd wedi disgrifio proses werthuso ffurfiol ar gyfer eu profion cyfwerthedd mewnol.

3.79 Addasrwydd profion presennol:

- Mae asesiad o'r profion presennol yn dangos nad yw'r un ohonynt yn addas i ddibenion profion cyfwerthedd cenedlaethol ar eu ffurf bresennol. Mae gan brofion cyfwerthedd mewnol darparwyr sawl gwendid, gan gynnwys hyd byr, cyfraddau llwyddo uchel a diffyg cymedroli cadarn. Mae offer asesu llythrennedd a rhifedd cenedlaethol eraill yng Nghymru yn ateb dibenion gwahanol iawn.

*Safbwyntiau ynglŷn â chyflwyno Prawf Cyfwerthedd Cenedlaethol*

3.80 Safbwyntiau cyffredinol:

- Mae bron pob aelod o staff darparwyr AGA o blaid cyflwyno rhyw fath o brawf cyfwerthedd cenedlaethol. Mae rhanddeiliaid hefyd yn cydnabod yr angen am gysondeb, ond pwysleisiodd rhai gymesuredd yng nghyd-destun heriau recriwtio athrawon. Byddai ymgeiswyr a oedd wedi sefyll sawl prawf cyfwerthedd gan ddarparwyr gwahanol yn croesawu prawf cenedlaethol oherwydd buasai wedi bod yn fwy cyfleus.

3.81 Buddiannau a heriau:

- Gallai buddiannau cyflwyno prawf cyfwerthedd cenedlaethol gynnwys: mwy o degwch a chysondeb ar draws darparwyr, cydnabyddiaeth a chyfredoldeb cryfach yn y proffesiwn, llwyth gwaith llai ar gyfer staff darparwyr AGA a mwy o dryloywder, eglurder a chyfleustra i ymgeiswyr.
- Gallai'r rhwystrau a'r heriau i gyflwyno prawf cenedlaethol gynnwys: cost datblygu a gweinyddu'r prawf yn ogystal â'r costau i ymgeiswyr, diffyg hyblygrwydd trefniadau gweinyddu, cytuno ar y cymwyseddau i'w hasesu a chyfraddau llwyddo is ymhlith ymgeiswyr.

3.82 Ystyriaethau ymarferol:

- Mynegwyd safbwyntiau cymysg ynglŷn â'r dull darparu. Gallai profion ar-lein leihau rhywfaint o'r gofynion gweinyddol a gwneud y broses farcio'n gyflymach ac yn fwy dibynadwy. Fodd bynnag, gallai profion papur fod yn fwy priodol i asesu sgiliau ysgrifennu ymgeiswyr a'u hannog i feddwl yn ddyfnach a datrys problemau mathemategol mwy cymhleth.
- Mynegwyd safbwyntiau cymysg hefyd ynglŷn â'r cymwyseddau y dylid eu hasesu. Roedd rhai rhanddeiliaid yn credu y dylai'r prawf gael ei seilio ar faes llafur CBAC. Mae canfyddiadau cyfweliadau â staff AGA yn awgrymu bod y meysydd gwan allweddol ymhlith hyfforddeion presennol yn cynnwys sgiliau ysgrifennu, gramadeg, sillafu ac atalnodi mewn Saesneg; a gwybodaeth sylfaenol am ffracsiynau a chanrannau mewn mathemateg.

## 4. Arfarnu'r opsiynau

4.1 Amlinellir arfarniad o'r opsiynau ar gyfer trefniadau profi cyfwerthedd yn y dyfodol yn yr adran hon. Yn gyntaf, cyflwynwn gryfderau a gwendidau'r trefniadau presennol ar ffurf dadansoddiad o fylchau. Yn ail, amlygwn yr opsiynau i'w harfarnu ac, yn olaf, cyflwynwn ein hasesiad o bob opsiwn.

### Dadansoddiad o fylchau

4.2 Crynhoir isod gryfderau a gwendidau'r trefniadau profi cyfwerthedd presennol o dan bedair thema:

- Datblygu a dewis profion;
- Gweinyddu profion;
- Cymorth ar gyfer y profion; a,
- Sefyll a llwyddo'r profion.

**Tabl 4.1 Cryfderau a gwendidau**

| Thema | Cryfderau | Gwendidau |
|---|---|---|
| **Datblygu a dewis profion** | Mae'r holl ddarparwyr wedi defnyddio ymarferwyr a chanddynt brofiad o addysgu a marcio papurau mathemateg a Saesneg TGAU i ddatblygu cwestiynau ar gyfer papurau profion cyfwerthedd.<br><br>Mae'r holl ddarparwyr wedi defnyddio papurau TGAU i ddatblygu'r cwestiynau ar gyfer eu profion mewnol eu hunain.<br><br>Mae rhai darparwyr wedi cydweithredu (yn ffurfiol neu'n anffurfiol) â chyrff dyfarnu neu fyrddau arholi (e.e. Agored Cymru neu CBAC) ac wedi defnyddio eu harbenigedd wrth ddatblygu profion. | Nid oes proses sicrhau ansawdd annibynnol ffurfiol ar waith i archwilio p'un a yw cwestiynau a marciau llwyddo profion cyfwerthedd ar y lefel briodol ar gyfer asesu cyfwerthedd â Gradd B TGAU.<br><br>Mae'n cymryd amser i diwtoriaid cyrsiau AGA ddatblygu profion. Mae costau'n gysylltiedig i ddarparwyr sydd wedi cyflogi contractwyr allanol i ddatblygu profion.<br><br>Nid yw rhai darparwyr wedi defnyddio cyngor allanol wrth ddatblygu profion. |
| **Gweinyddu profion** | Mae pob darparwr yn cylchdroi fersiynau o bapurau prawf neu mae ganddynt gronfa o brofion. Mae darparwyr yn cydnabod yr angen i adolygu ac ailwampio'r papurau a'r cwestiynau yn rheolaidd.<br><br>Yn gyffredinol, mae darparwyr yn cynnig ystod o ddyddiadau i ymgeiswyr sefyll profion, gan ganiatáu hyblygrwydd i sefyll (neu ailsefyll) y prawf ar wahanol adegau hyd at ddechrau cyrsiau AGA ym mis Medi. | Nid yw staff darparwyr o reidrwydd yn ailwampio papurau prawf yn rheolaidd, nac yn treulio amser yn datblygu cwestiynau newydd.<br><br>Mae'n cymryd amser i ddarparwyr weinyddu'r profion. Ceir ansicrwydd ynghylch faint o ymgeiswyr â chynigion amodol a fydd yn cofrestru ar y cwrs/dyddiadau prawf, felly mae'n anodd i ddarparwyr gynllunio.<br><br>Nid yw ymgeiswyr bob amser yn ymwybodol o'r gofyniad am Radd B |

| Thema | Cryfderau | Gwendidau |
|---|---|---|
| | | a'r dewis i sefyll prawf cyfwerthedd yn ogystal â'r gwahanol brofion sydd ar gael.<br><br>Nid yw rhai ymgeiswyr yn credu bod y profion yn wirioneddol gyfwerth â Gradd B TGAU. |
| **Cymorth ar gyfer y profion** | Mae'r holl ddarparwyr yn cynnig rhyw fath o gymorth i ymgeiswyr i baratoi ar gyfer y prawf. Mae rhai darparwyr yn cynnig cyrsiau hwy i baratoi ar gyfer y profion.<br><br>Mae rhai ymgeiswyr yn dweud bod paratoi ar gyfer y prawf yn brofiad gloywi defnyddiol a oedd wedi gwella eu sgiliau llythrennedd a rhifedd cyn eu cwrs. | Anghysondeb o ran y cymorth sydd ar gael i ymgeiswyr. Nid yw rhai ymgeiswyr yn ymwybodol o'r cymorth sydd ar gael gan ddarparwyr.<br><br>Mae rhai ymgeiswyr yn credu bod y cyrsiau wedi'u cynllunio i 'addysgu'r prawf' ac felly nad ydynt yn adlewyrchu safon Gradd B TGAU. |
| **Sefyll a llwyddo yn y profion** | Mae'r rhan fwyaf o ymgeiswyr yn dweud bod y profion wedi cael eu cynnal yn ddidrafferth a bod y canlyniadau wedi cael eu darparu'n brydlon. | Mae rhai ymgeiswyr yn dweud nad yw'r profion bob amser yn cael eu gweinyddu o dan amodau arholiad ffurfiol. |

4.3 Isod, dadansoddwn y bylchau rhwng amcanion polisi, disgwyliadau ac arferion presennol o ran recriwtio a dethol ymgeiswyr o ansawdd uchel ar gyfer AGA, a'r trefniadau ar gyfer ymgeiswyr heb Radd B TGAU mewn Saesneg neu fathemateg.

**Tabl 4.2 Y bwlch rhwng polisi ac arferion**

| Amcan polisi | Disgwyliad | Arferion presennol |
|---|---|---|
| **Cyfwerthedd â safon Gradd B TGAU** | Dylai profion ddangos bod ymgeiswyr yn meddu ar gymwyseddau sy'n gyfwerth â'r rheiny sy'n angenrheidiol i lwyddo TGAU (neu arholiadau cyfwerth a dderbynnir) ar Radd B | Mae'r rhan fwyaf o ddarparwyr yn credu bod eu profion eu hunain yn asesu cymwyseddau sy'n gyfwerth â safon Gradd B TGAU, ond mae rhai'n ansicr ac yn credu bod hyn yn anodd ei 'brofi'.<br><br>Mae rhai ymgeiswyr yn credu bod y profion cyfwerthedd ar lefel is na'r cymhwyster TGAU llawn.<br><br>Mae'r profion a'r cyfraddau llwyddo'n amrywio rhwng darparwyr. Mae rhai ymgeiswyr yn dweud bod profion rhai darparwyr yn haws nag eraill. |
| **Tegwch** | Dylai'r broses fod yn deg ac ni ddylai gael effaith niweidiol ar unrhyw grŵp o ymgeiswyr. Dylai fod yn hygyrch hefyd | Mae anghysondebau mewn prosesau ac arferion rhwng darparwyr; gwahanol ffioedd, hyd profion, polisïau ailsefyll, cyrsiau paratoi a chymorth a gynigir gan ddarparwyr.<br><br>Nid oes prawf cyfwerthedd cyfrwng Cymraeg ar gyfer ymgeiswyr sydd heb Radd B mewn Cymraeg a Saesneg. |

| Amcan polisi | Disgwyliad | Arferion presennol |
|---|---|---|
| **Cymesuredd** | Dylai'r broses, gan gynnwys y costau a'r amser a dreulir gan ddarparwyr ac ymgeiswyr, fod yn gymesur â phwysigrwydd y safon Gradd B fel un o'r cymwyseddau hanfodol sy'n ofynnol er mwyn i ymgeiswyr gael eu derbyn | Mae'r rhan fwyaf o ddarparwyr yn credu bod faint o amser a dreulir yn datblygu a gweinyddu'r profion yn anghymesur â'r buddion.<br>Nid yw rhai staff darparwyr ac ymgeiswyr yn deall y sail resymegol dros brofion cyfwerthedd ar gyfer ymgeiswyr heb Radd B a phrofion llythrennedd a rhifedd cyn-mynediad ar gyfer pob ymgeisydd. |
| **Tryloywder** | Dylai'r gofyniad am Radd B, cymwysterau cyfwerth a'r dewis i sefyll prawf cyfwerthedd fod yn eglur i bob ymgeisydd | Mae darparwyr yn sicrhau bod y gofyniad yn eglur cyn belled â phosibl, er bod rhai ymgeiswyr yn ansicr o'r gofynion. Nid yw rhai ymgeiswyr yn ymwybodol o'r opsiynau i sefyll prawf cyfwerthedd ar yr adeg ymgeisio.<br>Mae arweiniad ar gael ar gymwysterau cyfwerthedd, ond mae rhai ymgeiswyr yn dweud bod diffyg eglurder ynglŷn â pha gymwysterau sy'n gyfwerth. |
| **Cludadwyedd** | Dylai'r profion alluogi ymgeiswyr i astudio AGA mewn unrhyw brifysgol yng Nghymru | Mae darparwyr yn dweud eu bod yn derbyn profion cyfwerthedd o fannau eraill, ond mae ymgeiswyr yn dweud nad yw hynny'n wir bob amser. |

4.4 Yn seiliedig ar y dadansoddiad uchod, y prif fylchau mewn arferion presennol yw:

- Diffyg **tegwch** canfyddedig o ganlyniad i anghysondebau mewn arferion presennol a diffyg prawf cyfwerthedd cyfrwng Cymraeg;
- **Hygrededd** – p'un a yw profion cyfwerthedd yn mynd i'r afael â'r gofyniad am Radd B mewn gwirionedd;
- **Cymesuredd** o ran yr amser a dreulir gan ymarferwyr AGA ar arferion presennol;
- Diffyg **gwelededd a thryloywder** ynglŷn â'r gofyniad mynediad Gradd B, yr opsiwn i sefyll prawf a'r cymorth sydd ar gael cyn y prawf;
- Diffyg eglurder ynglŷn â **chludadwyedd** profion rhwng darparwyr.

**Amlygu'r opsiynau**

4.5 Yn seiliedig ar y dadansoddiad o fylchau uchod, rydym wedi amlygu'r opsiynau canlynol i Lywodraeth Cymru eu hystyried ymhellach:

- Opsiwn 1: Cynnal y sefyllfa bresennol
- Opsiwn 2: Rhoi mwy o arweiniad i ddarparwyr ar weithdrefnau profi
- Opsiwn 3: Mynnu bod darparwyr yn defnyddio gweithdrefnau profi cyffredin, neu eu hannog i wneud hynny
- Opsiwn 4: Cyflwyno prawf cyfwerthedd cenedlaethol

4.6 Disgrifir pob un o'r opsiynau hyn yn yr is-adrannau isod a chyflwynir asesiad o bob un yn adran 4.3.

*Opsiwn 1: Cynnal y sefyllfa bresennol*

4.7 Byddai'r opsiwn hwn yn golygu cynnal yr arferion presennol lle mae darparwyr yn parhau i ddewis a gweinyddu profion cyfwerthedd yn y ffordd maen nhw'n credu sy'n fwyaf priodol i fodloni gofynion Llywodraeth Cymru ar gyfer mynediad i gyrsiau AGA. Ni fyddai'r opsiwn hwn yn mynd i'r afael â'r bylchau polisi a amlygir uchod, ond ni fyddai'n arwain at gostau ychwanegol i Lywodraeth Cymru a darparwyr. Fodd bynnag, byddai'r opsiwn hwn yn arwain at gostau cyfle o ran yr amser y bydd darparwyr yn ei dreulio ar ddatblygu, diwygio a dilysu eu papurau prawf cyfwerthedd eu hunain ar wahân yn y dyfodol. Gallai fod costau cyfle hefyd yn sgil darparwyr sy'n parhau i weithredu trefniadau gweinyddu ar wahân.

*Opsiwn 2: Rhoi mwy o arweiniad i ddarparwyr*

4.8 Byddai'r opsiwn hwn yn gofyn i Lywodraeth Cymru wella'r arferion presennol trwy ddatblygu arweiniad i ddarparwyr sy'n amlinellu sut y dylent asesu p'un a yw ymgeiswyr wedi cyflawni safon cyfwerth â Gradd B yn yr arholiad TGAU Saesneg a/neu Gymraeg a mathemateg. Dylai'r arweiniad amlinellu'r hyn yr ystyrir ei fod yn arfer da mewn perthynas â'r canlynol:

- **Dewis, datblygu a gweinyddu profion:**
    - Dylai profion ymdrin â'r holl sgiliau a chymwyseddau a ddisgwylir ar lefel Gradd B mewn Saesneg/Cymraeg a mathemateg;

- Dylai fod gan bob darparwr AGA sawl gwahanol fersiwn o’u papurau prawf cyfwerthedd;
- Dylai darparwyr AGA sy’n cynnig AGA cyfrwng Cymraeg gynnig prawf cyfwerthedd cyfrwng Cymraeg;
- Dylai fod proses eglur, gofnodedig ar gyfer dewis pa fersiwn o bapurau prawf cyfwerthedd a ddefnyddir ar ddyddiad profi penodol (e.e. dylid defnyddio papurau prawf ar sail gylchdro neu eu dewis ar hap gan aelod o staff y darparwr);
- Dylai darparwyr ailwampio eu papurau prawf cyfwerthedd yn rheolaidd (e.e. bob tair blynedd) trwy ddiwygio’r cwestiynau, gan ystyried newidiadau i gwestiynau arholiad TGAU;
- Dylai profion cyfwerthedd pob darparwr fod o’r un hyd (e.e. dwy awr).

- **Sicrhau ansawdd:**
  - Dylai pob darparwr sefydlu proses sicrhau ansawdd allanol i ddilysu bod y profion cyfwerthedd yn asesu cymwyseddau yn ôl safon sy’n gyfwerth â Gradd B yn yr arholiad TGAU;
  - Dylai pob darparwr sefydlu proses safoni i sicrhau cysondeb a chywirdeb wrth farcio papurau prawf cyfwerthedd;
  - Dylai’r radd/marc llwyddo gael ei nodi o flaen llaw a’i (d)dilysu’n allanol.
- **Amseriad:**
  - Dylai darparwyr AGA gynnig cyfle i ymgeiswyr sefyll y profion cyfwerthedd ar sawl gwahanol adeg yn ystod y flwyddyn (e.e. bob deufis/bob mis rhwng mis Chwefror a mis Awst);
- **Cymorth i fyfyrwyr:**
  - Dylai darparwyr AGA sicrhau bod y gofynion Gradd B a’r opsiynau i sefyll prawf cyfwerthedd yn amlwg mewn deunyddiau recriwtio a marchnata;
  - Dylai pob ymgeisydd y gofynnir iddo sefyll prawf cyfwerthedd gael cynnig cymorth i baratoi ar gyfer y prawf ar ffurf cwrs neu weithdy. Dylai’r cymorth hwn fod ar gael i ymgeiswyr sy’n sefyll y profion ar wahanol adegau o’r flwyddyn. Dylid cydnabod y gallai darparwyr ddewis cynnig gwahanol lefelau o gymorth ac y gallai hyn olygu bod y gost yn amrywio i ymgeiswyr.

- **Cyfathrebu:**
  - Dylai darparwyr AGA roi arweiniad i ymgeiswyr ar yr hyn y bydd y profion cyfwerthedd yn ei olygu. Gallai'r arweiniad ddefnyddio rhai o'r egwyddorion a amlinellir yng *Nghanllawiau Protocol Cymru Gyfan ar gyfer Cyfweliadau Hyfforddiant Athrawon;*[37]
  - Dylid cynnig sawl papur enghreifftiol i bob ymgeisydd y gofynnir iddo sefyll prawf cyfwerthedd i'w helpu i baratoi ar gyfer y prawf.

*Opsiwn 3: Mynnu bod darparwyr yn defnyddio gweithdrefnau profi cyffredin, neu eu hannog i wneud hynny*

4.9 O dan yr opsiwn hwn, byddai Llywodraeth Cymru naill ai'n annog darparwyr AGA neu'n mynnu (trwy gomisiynu darpariaeth AGA) eu bod yn datblygu un prawf ar gyfer Saesneg/Cymraeg a mathemateg, yn ogystal â gweithdrefnau cyffredin ar gyfer gweinyddu profion. Ni fyddai angen deddfwriaeth ar gyfer hyn. Byddai'r arweiniad yn Opsiwn 2 yn cael ei ddefnyddio i lywio'r broses o ddatblygu gweithdrefnau cyffredin. O ganlyniad, byddai'n ofynnol i ddarparwyr gytuno ar broses sicrhau ansawdd annibynnol ar gyfer dilysu cwestiynau a chymedroli papurau (e.e. cynnwys bwrdd arholi). Byddai'r opsiwn hwn yn darparu cysondeb o ran safon y cwestiynau a ofynnir mewn profion, hyd y profion, yn ogystal â'r trefniadau ar gyfer ymgeiswyr (e.e. papurau enghreifftiol, cymorth). Byddai angen i ddarparwyr ddiweddaru'r cwestiynau yn y papurau prawf cyfwerthedd yn rheolaidd.

4.10 O dan yr opsiwn hwn, gallai darparwyr ddewis cydweithio i ddatblygu un prawf ar gyfer Saesneg/Cymraeg a mathemateg mewn ffordd debyg i'w hymagwedd at ddatblygu'r profion llythrennedd a rhifedd cyn mynediad. Fel arall, gallent gytuno y byddai un darparwr yn datblygu'r profion i'w defnyddio'n genedlaethol neu gomisiynu sefydliad allanol ar y cyd i ddatblygu profion. Gallai darparwyr aros yn gyfrifol am weinyddu'r profion, neu gomisiynu sefydliad ar y cyd i weinyddu gweithdrefnau profi cyffredin ar eu rhan.

4.11 Pe byddai darparwyr yn aros yn gyfrifol am weinyddu profion, byddai angen iddynt gydweithio a chytuno ar ymagwedd at ddewis pa fersiwn o bapurau prawf cyfwerthedd a ddefnyddir ar ddyddiad profi penodol. Gellid gwneud

[37] Protocol Cymru Gyfan ar gyfer Profion Sgiliau

hyn o fewn y darparwr (fel yn achos y profion llythrennedd a rhifedd cyn mynediad) neu drwy ymagwedd gyffredin (e.e. cytuno i gylchdroi papurau prawf yn yr un ffordd).

4.12 Gallai'r opsiwn hwn olygu bod gan ddarparwyr yr un dyddiadau profi ledled Cymru a'u bod yn cynnig un cwrs paratoi ar gyfer y profion.

*Opsiwn 4: Cyflwyno prawf cyfwerthedd cenedlaethol*

4.13 Byddai'r opsiwn hwn yn golygu bod Llywodraeth Cymru'n arwain y broses o ddatblygu a gweinyddu prawf cyfwerthedd cenedlaethol a fyddai'n orfodol i bob ymgeisydd AGA heb Radd B TGAU neu gymhwyster cyfwerth. Byddai gan brawf cenedlaethol broses sicrhau ansawdd genedlaethol a oruchwylir gan Lywodraeth Cymru.

4.14 Gallai'r broses o ddatblygu (a gweinyddu, o bosibl) prawf cenedlaethol gael ei chaffael yn allanol gan Lywodraeth Cymru, fel a wnaed gyda'r Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol a Phecyn Cymorth Sgiliau Hanfodol Cymru. Fel arall, gallai Llywodraeth Cymru ystyried datblygu profion ei hun gan ddefnyddio arbenigedd darparwyr AGA (h.y. Llywodraeth Cymru yn rheoli proses debyg i ddatblygu'r profion cyn mynediad).

4.15 Gallai prawf cenedlaethol fod ar ffurf bapur (gyda nifer o wahanol fersiynau o bapurau'n cael eu cylchdroi fel y disgrifir yn Opsiwn 2 uchod) neu gael ei weinyddu ar-lein, gan ddefnyddio cronfa o gwestiynau sy'n cael eu datblygu a'u cylchdroi'n briodol. Byddai angen i Lywodraeth Cymru sicrhau bod y broses o weinyddu'r prawf yn ddigon hyblyg i alluogi ymgeiswyr i'w sefyll ar adegau gwahanol o'r flwyddyn ac mewn lleoliadau gwahanol. Pe byddai'r profion ar ffurf bapur, gallai darparwyr ymwneud â gweinyddu'r broses brofi o hyd, er enghraifft drwy ddarparu lleoliadau ar gyfer profi a/neu staff i oruchwylio profion.

**Asesiad o'r opsiynau**

4.16 Er mwyn dod i gasgliad ar yr opsiwn a ffefrir, asesir pob un o'r pedwar opsiwn a amlinellir yn adran 4.2 yn erbyn dau faen prawf cyffredinol:

- I ba raddau y bydd yr opsiwn yn mynd i'r afael â'r bylchau polisi a amlygir yn adran 4.1; a
- Dichonoldeb yr opsiwn:
  - Costau gweithredu
  - Y capasiti a'r arbenigedd sydd ar gael i'w roi ar waith
  - Yr amser a gymerir i weithredu'r opsiwn.

**Tabl 4.3 Asesiad o'r opsiynau**

| Opsiwn | Meini Prawf | | | |
|---|---|---|---|---|
| | I ba raddau y bydd yr opsiwn yn mynd i'r afael â bylchau polisi | Dichonoldeb yr opsiwn | | |
| | | Costau | Gallu i weithredu | Amseriad |
| **1: Cynnal y sefyllfa bresennol** | Ni fydd yn mynd i'r afael ag unrhyw fylchau polisi | Costau ariannol isel i Lywodraeth Cymru a darparwyr yn y tymor byr.<br>Bydd gwneud dim yn arwain at gostau cyfle parhaus i ddarparwyr a fydd yn parhau i:<br>• Ddatblygu a diwygio eu papurau prawf cyfwerthedd ar wahân – dyblygu gwaith;<br>• Gweithredu trefniadau gweinyddu ar wahân – gan golli'r cyfle, o bosibl, i fanteisio ar arbedion effeithlonrwydd yn sgil gweithdrefnau cyffredin (e.e. un papur enghreifftiol).<br>Costau cyfle i ymgeiswyr yn sgil diffyg parhaus o ran tryloywder ac annhegwch canfyddedig (i rai) oherwydd anghysondeb y trefniadau presennol (e.e. gwahaniaethau o ran cynnwys profion, eu hyd, faint o gymorth a ddarperir). | Dim angen gweithredu. | Dim goblygiadau o ran amseriad. |
| **2: Rhoi mwy o arweiniad i ddarparwyr** | Mae'n debygol o fynd i'r afael â rhai bylchau polisi (tegwch, hygrededd a thryloywder) yn dibynnu ar barodrwydd darparwyr i weithredu'r arweiniad a gallu Llywodraeth Cymru i'w hannog i gydymffurfio. | Cost gymharol isel i Lywodraeth Cymru (o gymharu ag Opsiynau 3 a 4).<br>Posibilrwydd o ddyblygu costau ar draws darparwyr os bydd pob un yn ymgymryd â gweithgareddau tebyg ar wahân.<br>Byddai'r gost i ddarparwyr yn amrywio yn dibynnu ar y newidiadau i'w gweithredu. Gallai costau posibl godi yn sgil:<br>• Datblygu a diwygio eu profion ymhellach, gan gynnwys datblygu profion Cymraeg;<br>• Datblygu neu ffurfioli eu prosesau dilysu a sicrhau ansawdd; | Mae arbenigedd yn bodoli i weithredu gwelliannau o fewn darparwyr.<br>Goblygiadau i ddarparwyr o ran capasiti – bydd angen i staff neilltuo mwy o amser i weithredu'r newidiadau yn y tymor byr – a dilysu allanol.<br>Perygl uchel na fydd pob darparwr yn gweithredu | Gallai gael ei weithredu yn y tymor byr i ganolig. Gallai arweiniad gael ei baratoi a gellid ymateb iddo mewn pryd ar gyfer mynediad yn 2019/20. |

| Opsiwn | Meini Prawf | | | |
|---|---|---|---|---|
| | I ba raddau y bydd yr opsiwn yn mynd i'r afael â bylchau polisi | Dichonoldeb yr opsiwn | | |
| | | Costau | Gallu i weithredu | Amseriad |
| | | • (O ran rhai) darparu mwy o gymorth i ymgeiswyr – nid yw pob un yn cynnal cwrs neu weithdy. | pob agwedd ar yr arweiniad. | |
| **3: Mynnu bod darparwyr yn defnyddio gweithdrefnau profi cyffredin, neu eu hannog i wneud hynny** | Mae'n debygol o fynd i'r afael â'r rhan fwyaf o fylchau polisi:<br>• Tegwch (i raddau, er y gallai rhywfaint o amrywiaeth fodoli o hyd o ran gweinyddu);<br>• Cyfwerthedd a hygrededd (trwy ddilysu),<br>• Cludadwyedd (trwy gael eu cydnabod ar draws darparwyr),<br>• Tryloywder (trwy un prawf ac arweiniad cyson).<br>Mae'n dibynnu ar allu Llywodraeth Cymru i fonitro a gorfodi'r gofyniad. | Costau ariannol isel i Lywodraeth Cymru y tu hwnt i fonitro a sicrhau gweithredu.<br>Costau tymor byr uwch i ddarparwyr wrth symud tuag at weithdrefnau cyffredin (e.e. cost comisiynu ar y cyd neu'r amser sy'n gysylltiedig â datblygu'r prawf trwy gydweithredu rhwng darparwyr).<br>Arbedion effeithlonrwydd yn y tymor canolig yn sgil:<br>• Profion cyffredin – mae darparwyr yn rhannu'r baich o ddiwygio a dilysu papurau;<br>• Papurau enghreifftiol ac arweiniad cyffredin i ymgeiswyr (yn lle rhai gwahanol gan bob darparwr);<br>• Mwy o gysondeb o ran cynnwys cyrsiau/gweithdai. | Mae arbenigedd yn bodoli yn y sector.<br>Mae darparwyr wedi ymgymryd â phroses debyg gyda phrofion cyn mynediad.<br>Byddai'n golygu cynnwys sefydliad sicrhau ansawdd annibynnol (e.e. bwrdd arholi). | Gweithredu yn y tymor hwy (ar gyfer mynediad yn 2020/21). Perygl na fydd darparwyr AGA yn bodloni'r raddfa amser.<br>Mae'r trefniadau newydd yn annhebygol o fod yn barod i'w gweithredu mewn pryd ar gyfer recriwtio derbyniad 2019 (h.y. yn barod erbyn mis Ionawr 2019). |
| **4: Cyflwyno prawf cyfwerthedd cenedlaethol** | Mae'n debygol o fynd i'r afael â'r rhan fwyaf o fylchau polisi:<br>• Tegwch (trwy brawf cyson i bob ymgeisydd);<br>• Cyfwerthedd a hygrededd (trwy ddilysu allanol),<br>• Cludadwyedd (trwy gael ei dderbyn gan bob darparwr), | Costau uwch i Lywodraeth Cymru – datblygu manyleb ar gyfer y prawf, caffael, comisiynu a rheoli, ymgynghori â darparwyr, goruchwylio a sicrhau ansawdd.<br>Costau is i ddarparwyr yn sgil peidio â gorfod datblygu, diwygio a dilysu profion. Costau is, o bosibl, yn dibynnu ar gyfranogiad darparwyr yn y broses weinyddu. | Mae arbenigedd a chapasiti'n bodoli yn y sectorau addysg a phreifat.<br>Byddai angen cydweithredu â darparwyr o hyd ynglŷn â threfniadau profi (cyfeirio ymgeiswyr, defnyddio | Gweithredu yn y tymor hwy (ar gyfer mynediad yn 2020/21). Perygl na fyddai adnoddau ar gael i fodloni'r raddfa amser.<br>Ni fyddai'r trefniadau newydd yn barod i'w |

| Opsiwn | Meini Prawf | | | |
|---|---|---|---|---|
| | I ba raddau y bydd yr opsiwn yn mynd i'r afael â bylchau polisi | Dichonoldeb yr opsiwn | | |
| | | Costau | Gallu i weithredu | Amseriad |
| | • Tryloywder/amlygrwydd (cynyddu ymwybyddiaeth yn genedlaethol). | | lleoliadau Addysg Uwch ar gyfer profi). | gweithredu mewn pryd ar gyfer recriwtio derbyniad 2019 (h.y. yn barod erbyn mis Ionawr 2019). |

## Ystyriaethau polisi eraill sy'n codi

4.17 Yn ogystal â'r opsiynau uchod, trafododd rhai darparwyr, rhanddeiliaid ac ymgeiswyr opsiynau eraill posibl sydd y tu allan i gwmpas polisi presennol Llywodraeth Cymru. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Profi ymgeiswyr wrth ymadael, yn hytrach nag wrth ymuno ag AGA
    - Roedd rhai darparwyr, rhanddeiliaid ac ymgeiswyr yn credu y gallai hyn leihau'r graddau y mae'r gofyniad Gradd B yn rhwystr mynediad. Roedd rhai darparwyr o'r farn y gallai ymgeiswyr ddatblygu eu sgiliau llythrennedd a rhifedd yn ystod eu cwrs AGA, ac y byddai'r archwiliadau llythrennedd a rhifedd a'r profion cyn mynediad yn amlygu meysydd i'w gwella;
    - Fodd bynnag, roedd staff eraill darparwyr yn credu y gallai hyn dynnu sylw ymgeiswyr oddi ar gynnwys eu cwrs a chreu dryswch ynglŷn â statws athro cymwysedig/athrawes gymwysedig ymgeiswyr heb Radd B;
- Defnyddio profion gallu eraill yn lle profion cyfwerthedd
    - Roedd rhai darparwyr ac ymgeiswyr yn credu y gallai profion cyn mynediad yn ogystal ag archwiliadau llythrennedd a rhifedd gael eu datblygu ymhellach i asesu p'un a yw ymgeiswyr ar y lefel ofynnol i ymuno â'r cwrs AGA;
    - Fodd bynnag, roedd darparwyr a rhanddeiliaid eraill yn credu bod profion cyn-mynediad yn ateb diben gwahanol i'r profion cyfwerthedd.

## Casgliadau

4.18 Yn seiliedig ar y dadansoddiad uchod a'r ystyriaethau canlynol:

- Dylid gwneud rhai o'r gwelliannau a amlinellir yn Opsiwn 2 yn y tymor byr i wella hygrededd y profion cyfwerthedd;
- Gallai Opsiwn 3 lenwi'r bylchau polisi ond arwain at rai o'r problemau a amlygwyd o ran y profion cyn mynediad a ddatblygwyd gan ddarparwyr AGA ar y cyd, a byddai'n cael ei ddatblygu ar gyflymder a bennir gan y darparwyr AGA;
- O dan Opsiwn 4, Llywodraeth Cymru fyddai'n ysgwyddo'r costau datblygu a gweinyddu i raddau helaeth, ond gallai'r llywodraeth deimlo'n fwy sicr bod y gofyniad Gradd B yn cael ei fodloni'n gyson ac nad oes gwahaniaethau o ran gweinyddu'r prawf;
- Gallai Opsiwn 4 alluogi darparwyr i ganolbwyntio ar gynnig cyrsiau a fyddai'n gwella ymgeiswyr er mwyn iddynt gyrraedd y safon.

# 5. Casgliadau ac argymhellion

5.1 Mae gofyniad Llywodraeth Cymru i fyfyrwyr AGA feddu ar radd B TGAU neu gyfwerth mewn Saesneg a/neu Gymraeg a mathemateg wrth ymuno â'r cwrs yn golygu bod angen i drefniadau effeithiol fod ar waith i alluogi ymgeiswyr i gyrraedd y safon hon ar yr un pryd â sicrhau cyflenwad digonol o ymgeiswyr AGA o ansawdd uchel.

5.2 Mae'r gwaith ymchwil hwn wedi dangos er bod darparwyr a rhanddeiliaid yn gyfarwydd iawn â'r gofynion mynediad ar gyfer ymgeiswyr AGA, nid ydynt bob amser yn eglur, yn dryloyw ac yn deg i ymgeiswyr. Mae cyfweliadau â staff darparwyr AGA ac ymgeiswyr wedi dangos nad yw rhai ymgeiswyr yn ymwybodol o'r gofyniad am Radd B a'r cymwysterau yr ystyrir eu bod yn gyfwerth tan iddynt wneud cais am le AGA.

5.3 Nid yw ymgeiswyr bob amser yn ymwybodol o'r opsiwn i sefyll prawf cyfwerthedd, yn hytrach nag ailsefyll TGAU llawn, ac yn aml nid ydynt yn dod i wybod am yr opsiwn hwn tan iddynt gael cynnig amodol o le AGA. At hynny, nid yw ymgeiswyr bob amser yn ymwybodol o'r gwahanol opsiynau sydd ar gael iddynt i sefyll a pharatoi am brawf cyfwerthedd trwy ddarparwyr AGA neu sefydliadau profi sector preifat.

5.4 Mae data gan ddarparwyr yn dangos bod 214 o ymgeiswyr ar gyfer mynediad yn 2017/18 wedi sefyll profion cyfwerthedd Saesneg a bod 286 wedi sefyll profion cyfwerthedd mathemateg. Fodd bynnag, nid yw nifer yr ymgeiswyr yr oedd y gofyniad am Radd B wedi effeithio arnynt yn gwbl eglur o'r data sydd ar gael. Nid yw pob darparwr yn casglu data am nifer yr ymgeiswyr heb Radd B mewn Saesneg a mathemateg, ac nid yw'r un o'r darparwyr yn olrhain yr ymgeiswyr hynny heb Radd B sy'n gwneud ymholiadau ond nad ydynt yn cyflwyno cais am le AGA. Mae hyn yn golygu nad yw'n bosibl llwyr ddeall i ba raddau y gallai'r gofyniad am Radd B fod yn rhwystr rhag mynediad i rai ymgeiswyr, neu beidio.

5.5 Mae darparwyr yn ceisio defnyddio arferion da wrth lunio a gweinyddu profion cyfwerthedd. Fodd bynnag, mae'r trefniadau presennol yn anghyson oherwydd bod darparwyr yn amrywio o ran dylunio a dethol profion, cymorth cyn y prawf, hyd, amseriad, costau a pholisïau ailsefyll. Mae mwy o gysondeb mewn profion llythrennedd a rhifedd cyn-mynediad eraill ar gyfer ymgeiswyr AGA, er bod gan ddarparwyr ac ymgeiswyr safbwyntiau cymysg ynglŷn â'r profion hyn.

5.6 Trwy ddadansoddi cryfderau a gwendidau'r ymagweddau presennol, amlygwyd bylchau rhwng polisïau ac arferion presennol. Mae'r rhain yn ymwneud â thryloywder, cludadwyedd, tegwch a chymesuredd ymagweddau presennol. I fynd i'r afael â'r bylchau hyn, mae pedwar opsiwn posibl ar gyfer trefniadau profi cyfwerthedd yn y dyfodol wedi cael eu hamlygu yn Adran 4, ac mae pob un wedi cael ei asesu o ran i ba raddau y mae'n mynd i'r afael â'r bylchau hyn.

5.7 Yn seiliedig ar ganfyddiadau'r asesiad hwn, argymhellwn y canlynol:

- Yn y tymor byr i ganolig (ar gyfer mynediad yn 2019/20), dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu arweiniad i ddarparwyr ynglŷn ag arfer da a argymhellir wrth weinyddu profion cyfwerthedd (Opsiwn 2 uchod) i wella ansawdd profion cyfwerthedd. Dylai hyn ymdrin â:
    - marchnata argaeledd profion cyfwerthedd a chymorth;
    - datblygu a dewis profion;
    - cymorth ac arweiniad cyn profion;
    - gweinyddu profion.

- Yn y tymor hwy (mynediad yn 2020/21), dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno prawf cyfwerthedd cenedlaethol (Opsiwn 4 uchod).
    - O dan yr opsiwn hwn, byddai Llywodraeth Cymru'n arwain y broses o ddatblygu a gweinyddu prawf cyfwerthedd cenedlaethol a fyddai'n orfodol i bob ymgeisydd AGA heb Radd B TGAU neu gymhwyster cyfwerth. Byddai gan brawf cenedlaethol broses sicrhau ansawdd genedlaethol.
    - Dylai ymgyrch farchnata genedlaethol gyd-fynd â hyn i gynyddu ymwybyddiaeth o'r gofyniad Gradd B a'r opsiwn i sefyll y prawf cyfwerthedd cenedlaethol a dilyn cwrs cyn y prawf. Gallai hyn osgoi'r angen am brofi sgiliau llythrennedd a rhifedd ymgeiswyr ymhellach gan ddarparwyr AGA.

## Atodiad A: Tablau Data (ymatebion i'r arolwg)

*Proffil a chefndir*

1. A ydych chi wedi sefyll prawf cyfwerthedd oherwydd nad oeddech yn bodloni gofynion mynediad cwrs AGA i feddu ar radd B TGAU (neu gymhwyster cyfwerth) mewn Saesneg, Cymraeg, Mathemateg neu Rifedd?

| | | |
|---|---|---|
| Ydw | 104 | 91% |
| Nac ydw | 10 | 9% |
| Cyfanswm | **114** | |

2. Beth yw'ch statws (cyflogaeth) presennol?

| | | |
|---|---|---|
| Athro/Athrawes gwbl gymwysedig | 1 | 1% |
| ANG / Athro/Athrawes newydd | 23 | 23% |
| Gweithio fel athro/athrawes anghymwysedig | 4 | 4% |
| Myfyriwr ar gwrs arall | 3 | 3% |
| Myfyriwr AGA presennol yng Nghymru | 61 | 60% |
| Myfyriwr AGA presennol yn Lloegr | 1 | 1% |
| Gweithio – Arall | 4 | 4% |
| Arall (Nodwch) | 4 | 4% |
| Cyfanswm | **101** | |

3. Ym mha flwyddyn y gorffennoch chi eich Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon?

| | | |
|---|---|---|
| Medi 2015 – Awst 2016 | 3 | 6% |
| Medi 2016 – Awst 2017 | 22 | 47% |
| Dim un o'r uchod | 22 | 47% |
| Cyfanswm | **47** | |

4. Nodwch ba ddarparwr/darparwyr AGA yr ydych wedi gwneud cais iddo/iddynt:

| | | |
|---|---|---|
| Prifysgol Bangor | 6 | 6% |
| Prifysgol Aberystwyth | 5 | 5% |
| Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant (Abertawe) | 37 | 37% |
| Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant (Caerfyrddin) | 13 | 13% |
| Prifysgol De Cymru | 14 | 14% |
| Prifysgol Metropolitan Caerdydd | 47 | 47% |
| Rhaglen Athrawon Graddedig | 4 | 4% |
| Teach First Cymru | 1 | 1% |
| Arall (Nodwch) | 3 | 3% |
| Cyfanswm | **130** | |

5. Pa gwrs/llwybr AGA a ddilynoch chi/rydych chi'n ei ddilyn ar hyn o bryd?

| | | |
|---|---|---|
| Tystysgrif Addysg i Raddedigion | 76 | 75% |
| Cwrs gradd (BEd, BA neu BSc) a fydd yn arwain at statws athro cymwysedig/athrawes gymwysedig | 25 | 25% |
| Cyfanswm | **101** | |

6. Rhowch fanylion ychwanegol am eich cwrs/llwybr AGA:

| | | |
|---|---|---|
| Lefel | | |
| Addysg Gynradd | 47 | 47% |
| Addysg Uwchradd | 54 | 53% |
| Cyfanswm | 101 | |
| Iaith | | |
| Cyfrwng Cymraeg | 10 | 10% |
| Cyfrwng Saesneg | 87 | 86% |
| Dwyieithog | 4 | 4% |
| Cyfanswm | 101 | |
| Cyllid | | |
| Wedi'i ariannu'n llawn gan grant neu fwrsariaeth | 55 | 54% |
| Wedi'i ariannu'n rhannol gan grant neu fwrsariaeth | 31 | 31% |
| Wedi'i hunan-ariannu'n llwyr | 15 | 15% |
| Cyfanswm | 101 | |

7. Nodwch eich arbenigedd pwnc:

| | | |
|---|---|---|
| Celf a Dylunio | 3 | 6% |
| Bioleg gyda Gwyddoniaeth | 2 | 4% |
| Busnes | 2 | 4% |
| Cemeg gyda Gwyddoniaeth | 1 | 2% |
| Dylunio a Thechnoleg | 5 | 9% |
| Drama | 3 | 6% |
| Saesneg | 3 | 6% |
| Daearyddiaeth | 1 | 2% |
| Hanes | 4 | 7% |
| TGCh a Chyfrifiadura | 6 | 11% |
| Mathemateg | 2 | 4% |
| Ieithoedd Tramor Modern | 8 | 15% |
| Cerddoriaeth | 4 | 7% |
| Arall | 1 | 2% |
| Addysg Gorfforol | 4 | 7% |
| Ffiseg gyda Gwyddoniaeth | 1 | 2% |
| Cymraeg | 4 | 7% |
| Cyfanswm | **54** | |

## *Profiad o'r prawf cyfwerthedd AGA*

8. Pryd sylweddoloch chi fod rhaid i chi sefyll y prawf/profion cyfwerthedd?

| | | |
|---|---|---|
| Pan benderfynais wneud cais am addysgu gyntaf | 71 | 72% |
| Dim ond pan gefais a derbyniais gynnig amodol gan y darparwr AGA | 23 | 23% |
| Arall (Nodwch) | 4 | 4% |
| Cyfanswm | **98** | |

9. Ym mha fis a blwyddyn y safoch chi'r prawf/profion cyfwerthedd gyntaf?

| | | |
|---|---|---|
| Mis | | |
| Ionawr | 3 | 3% |
| Chwefror | 8 | 8% |
| Mawrth | 9 | 9% |
| Ebrill | 12 | 12% |
| Mai | 8 | 8% |
| Mehefin | 10 | 10% |
| Gorffennaf | 13 | 13% |
| Awst | 24 | 25% |
| Medi | 8 | 8% |
| Tachwedd | 1 | 1% |
| Rhagfyr | 1 | 1% |
| Cyfanswm | **97** | |
| Blwyddyn | | |
| 2018 | 1 | 1% |
| 2017 | 52 | 53% |
| 2016 | 36 | 37% |
| 2015 | 8 | 8% |
| 2014 | 1 | 1% |
| Cyfanswm | **98** | |

10. Pa brawf/profion cyfwerthedd a safoch chi?

| | | |
|---|---|---|
| Iaith Saesneg | 33 | 34% |
| Mathemateg/Rhifedd | 48 | 49% |
| Iaith Saesneg a Mathemateg/Rhifedd | 17 | 17% |
| Cyfanswm | **98** | |

11. Pa ddarparwr y safoch chi'r prawf/profion ag ef gyntaf?

| | | |
|---|---|---|
| Prifysgol Bangor | 2 | 2% |
| Prifysgol Aberystwyth | 4 | 4% |
| Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant (Abertawe) | 31 | 34% |
| Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant (Caerfyrddin) | 10 | 11% |
| Prifysgol De Cymru | 6 | 7% |
| Prifysgol Metropolitan Caerdydd | 36 | 40% |
| Rhaglen Athrawon Graddedig | 2 | 2% |
| Cyfanswm | **91** | |

12. A lwyddoch chi yn y prawf/profion cyfwerthedd ar eich ymgais cyntaf?

| | | |
|---|---|---|
| Do | 83 | 86% |
| Naddo | 14 | 14% |
| Cyfanswm | **97** | |

13. Pa brawf/profion cyfwerthedd y gwnaethoch chi eu hailsefyll neu rydych chi'n disgwyl eu hailsefyll?

| | | |
|---|---|---|
| Iaith Gymraeg | 0 | 0% |
| Iaith Saesneg | 1 | 8% |
| Mathemateg/Rhifedd | 12 | 92% |
| Cyfanswm | **13** | |

14. A ydych chi wedi llwyddo yn eich prawf/profion cyfwerthedd ailsefyll?

| | | |
|---|---|---|
| Ydw – llwyddais yn y prawf/profion ailsefyll | 12 | 92% |
| Nac ydw – ni lwyddais yn y prawf/profion ailsefyll | 1 | 8% |
| Cyfanswm | **13** | |

*Safbwyntiau ar ymgeisio i'r darparwr AGA*

15. Gan feddwl am eich proses ymgeisio, a oeddech chi'n ymwybodol o'r canlynol:

| | Ymwybodol | Ddim yn ymwybodol | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| Y gofyniad i feddu ar Radd B TGAU (neu gyfwerth) mewn Saesneg/Cymraeg Iaith a Rhifedd? Y gwahanol opsiynau ar gyfer bodloni'r gofyniad i feddu ar Radd B TGAU (neu gyfwerth) mewn Saesneg/Cymraeg Iaith a Rhifedd? | 74 | 19 | 93 |
| Y gwahanol opsiynau ar gyfer bodloni'r gofyniad i feddu ar Radd B TGAU (neu gyfwerth) mewn Saesneg/Cymraeg Iaith a Rhifedd? | 64 | 29 | 93 |
| Y math o brofion cyfwerthedd a gynigiwyd gan y darparwr? | 53 | 39 | 92 |

16. Gan feddwl am eich darparwr AGA, i ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno ei fod:

| | Cytuno'n gryf | Cytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf | Ddim yn gwybod | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Wedi esbonio neu gyfleu gofynion mynediad y cwrs yn ddigonol (gan gynnwys y gofyniad i feddu ar radd B mewn llythrennedd a rhifedd)? | 44 | 42 | 2 | 3 | 2 | **93** |
| Wedi darparu arweiniad a gwybodaeth am brofi cyfwerthedd? | 31 | 41 | 14 | 7 | 0 | **93** |
| Wedi'ch annog i sefyll yr arholiad cyfwerthedd i gyflawni'r gofynion mynediad? | 45 | 38 | 5 | 3 | 2 | **93** |

*Trefniadau prawf cyfwerthedd AGA*

17. Gan feddwl am y prawf cyfwerthedd AGA a gynigir gan eich darparwr, a oes/oedd:

| | Oes/Oedd | Nac oes/ Nac oedd | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| Rhaid i chi dalu ffi i sefyll y prawf? | 28 | 52 | **80** |
| Opsiwn i chi ailsefyll y prawf o leiaf unwaith? | 48 | 9 | **57** |
| Opsiwn i wneud y prawf ar-lein? | 2 | 68 | **70** |

18. A oedd y ffi wedi cael ei had-dalu (neu a fydd yn cael ei had-dalu)?

| | | |
|---|---|---|
| Oedd/Bydd | 4 | 14% |
| Nac oedd/Na fydd | 24 | 86% |
| Cyfansymiau | **28** | |

19. Sawl gwaith y gallwch chi/y cawsoch chi ailsefyll y prawf?

| |
|---|
| 27 gwaith |
| 6 gwaith |
| 3 gwaith |
| Unwaith |
| Unwaith |

20. Nodwch faint y bu'n rhaid i chi ei dalu am y prawf:

| | |
|---|---|
| £0.00 | 1 ymateb |
| £30.00 | 2 ymateb |
| £34.00 | 1 ymateb |
| £35.00 | 2 ymateb |
| £44.00 | 1 ymateb |
| £45.00 | 1 ymateb |
| £50.00 | 2 ymateb |
| £70.00 | 1 ymateb |
| £80.00 | 2 ymateb |
| £150.00 | 4 ymateb |
| £200.00 | 1 ymateb |
| £250.00 | 3 ymateb |

21. Nodwch ba mor hir oedd y prawf:

| | 30 munud neu lai | 31 – 60 munud | 61 – 90 munud | 91 – 120 munud | Mwy na 120 munud | Cyfans wm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Iaith Saesneg | 1 | 18 | 16 | 9 | 1 | 45 |
| Mathemateg/ Rhifedd | 4 | 28 | 16 | 10 | 2 | 60 |

*Safbwyntiau ar gyrsiau, arweiniad a chymorth cyn y prawf*

22. A gawsoch chi unrhyw un o'r mathau canlynol o gymorth i'ch helpu i baratoi am y prawf/profion cyfwerthedd?

| | |
|---|---|
| Cwrs addysgu strwythuredig | 18 |
| Gweithdy unigol | 31 |
| Hyfforddiant personol | 7 |
| Hyfforddiant personol pan ofynnwyd amdano yn unig | 6 |
| Cyfeirio at ddeunydd paratoi ar gyfer y cwrs (e.e. dolenni i wefannau) | 19 |
| Dim cymorth wedi'i ddarparu – paratois ar gyfer y prawf fy hun | 31 |
| Dim cymorth wedi'i ddarparu – ni pharatois ar gyfer y prawf | 2 |
| Arall (Nodwch) | 3 |

23. A oedd eich darparwr wedi rhoi'r cymorth hwn?

| | | |
|---|---|---|
| Oedd | 46 | 74% |
| Nac oedd | 16 | 26% |
| Cyfanswm | **62** | |

24. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r canlynol:

| | Cytuno'n gryf | Cytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf | Ddim yn gwybod | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Roedd cynnwys y cymorth a gefais cyn y prawf yn berthnasol ac yn briodol i'r prawf | 35 | 21 | 3 | 1 | 2 | 62 |
| Nid oedd y cymorth cyn y prawf yn ddigon hir i adolygu neu ymdrin â'r cynnwys a oedd yn ofynnol ar gyfer y prawf | 6 | 11 | 26 | 15 | 4 | 62 |
| Nid oedd y cymorth cyn y prawf wedi fy helpu i baratoi'n effeithiol ar gyfer y prawf cyfwerthedd | 2 | 7 | 25 | 27 | 1 | 62 |
| Teimlais yn fwy hyderus ar ôl cael y cymorth cyn y prawf | 26 | 26 | 5 | 1 | 4 | 62 |
| Roedd y cymorth cyn y prawf wedi cael ei gyflwyno yn y fformat mwyaf effeithiol | 22 | 22 | 9 | 1 | 8 | 62 |

25. Pa waith paratoi a wnaethoch chi cyn sefyll y prawf/profion?

| | | |
|---|---|---|
| Adolygais ar fy mhen fy hun neu gyda chyfoedion gan ddefnyddio hen brofion a gafwyd yn breifat | 11 | 35% |
| Adolygais ar fy mhen fy hun neu gyda chyfoedion gan ddefnyddio hen brofion a ddarparwyd gan y darparwr AGA | 6 | 19% |
| Adolygais ar fy mhen fy hun neu gyda chyfoedion gan ddefnyddio deunydd arall (e.e. canllawiau adolygu TGAU) | 12 | 39% |
| Arall (Nodwch) | 2 | 6% |
| Cyfanswm | **31** | |

*Safbwyntiau ar y profion cyfwerthedd*

26. Gan feddwl am hyd y prawf/profion cyfwerthedd a safoch chi, i ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod y prawf/profion:

| | Cytuno'n gryf | Cytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf | Ddim yn gwybod | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Yn hirach nag a ddisgwyliwyd | 3 | 7 | 61 | 8 | 7 | **86** |
| Yn rhy fyr i adlewyrchu fy ngwybodaeth yn gywir | 6 | 8 | 49 | 13 | 10 | **86** |
| Yn briodol o ran hyd | 16 | 54 | 10 | 2 | 5 | **87** |

27. Gan feddwl am gynnwys y prawf/profion cyfwerthedd a safoch chi, i ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod y prawf/profion:

| | Cytuno'n gryf | Cytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf | Ddim yn gwybod | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Wedi'u geirio'n briodol? | 22 | 57 | 7 | 0 | 1 | **87** |
| Yn heriol? | 21 | 47 | 16 | 2 | 1 | **87** |
| Y ffordd orau o brofi p'un a oeddwn yn bodloni'r gofynion mynediad? | 21 | 36 | 11 | 9 | 10 | **87** |
| Wedi'u gosod ar lefel sy'n adlewyrchu gofynion llythrennedd a/neu rifedd y cwrs AGA? | 19 | 46 | 12 | 6 | 4 | **87** |

28. Gan feddwl am ganlyniadau'r prawf cyfwerthedd, i ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol:

| | Cytuno'n gryf | Cytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf | Ddim yn gwybod | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Roedd y profion wedi cael eu sgorio a'u cymedroli'n deg gan y darparwr | 34 | 36 | 3 | 0 | 14 | **87** |
| Cefais fy nghanlyniadau'n brydlon / mewn da bryd | 43 | 33 | 7 | 3 | 1 | **87** |
| Cefais ddigon o adborth am yr asesiad | 19 | 26 | 18 | 13 | 11 | **87** |

29. Yn eich barn chi, a ddylai trefniadau profi yn y dyfodol:

| | | |
|---|---|---|
| Aros yr un fath? | 38 | 40% |
| Cynnwys cymorth gorfodol i ddysgwyr cyn y prawf? | 22 | 23% |
| Mynnu bod darparwyr AGA yn defnyddio'r un profion cyfwerthedd safonedig? | 23 | 24% |
| Ddim yn gwybod | 11 | 12% |
| Cyfanswm | 94 | |